# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD IAU, 7FED RHAGFYR, 2023**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Cyfarfod Aml-leoliad**
**Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH / Rhithiol ar Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 29/11/23)

**Ian Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MERCHER, 29 TACHWEDD 2023**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 7 RHAGFYR 2023**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 7FED RHAGFYR, 2023 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 6 - 20

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2023 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CYFLWYNIAD GAN GADEIRYDD BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

Derbyn cyflwyniad gan Dyfed Edwards, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar brif flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer gwella gwasanaethau i drigolion Gwynedd.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau gan aelodau etholedig, y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o'r Cyfansoddiad.

**8. TRETH CYNGOR - HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU A / NEU GODI PREMIWM 2024/25** 21 - 62

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**9. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2024-25** 63 - 67

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**10. STRATEGAETH IAITH GWYNEDD 2023-2033** 68 - 141

Cyflwyno adroddiad Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn.

**11. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 - DEWIS AR FABWYSIADU SYSTEM PLEIDLAIS SENGL DROSGLWYDDADWY AR GYFER ETHOLIADAU CYNGOR GWYNEDD** 142 - 146

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol.

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL STRATEGOL DIOGELU 2022-23** 147 - 158

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Panel Strategol Diogelu.

**13. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd John Pughe Roberts yn cynnig fel a ganlyn:-

O ystyried ardrawiad canfod tiwbercwlosis ar fferm a phwysigrwydd rheoli yr haint fod y Cyngor yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau fod profi anifeiliaid gwyllt, all fod yn trosglwyddo yr haint yng nghefn gwlad yng nghyffiniau fferm sydd wedi ei heffeithio, fel mater o drefn i ddarganfod os ydynt yn cario tiwbercwlosis a chaniatau mesurau rheoli.

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELIN HYWEL**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrthi yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elin Hywel yn cynnig fel a ganlyn:-

1. Bod y Cyngor yn cydnabod ein cyfrifoldeb i warchod lles a chydlyniad cymunedol Gwynedd. Ein bod am weld cymunedau a thrigolion Gwynedd yn cyd-fyw mewn heddwch, drwy barch a chefnogaeth i'w gilydd. Gwelwn fod digwyddiadau diweddar yn Palestina ac yn Israel yn effeithio yn negyddol ar ein gallu i fod yn llwyddiannus yn cyflawni'r cyfrifoldeb yma. Gwelwn fod effeithiau torcalonnus a thrychinebus i ryfeloedd yma yng Ngwynedd. Rydym yn estyn allan i drigolion Gwynedd ar yr adeg hon. Rydym yn cydymdeimlo ac yn cydalaru.

2. Noda'r Cyngor ein cyfrifoldeb yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i chwarae ein rhan i sicrhau fod Cymru'n groesawgar, yn ddiogel ac yn deg i bawb.

3. Fel cynrychiolwyr trigolion Gwynedd, galwn am ymateb heddychlon gan Lywodraeth Cymru. Galwn ar Lywodraeth Cymru, fel ein cynrychiolwyr ar y llwyfan rhyngwladol, i hwyluso sefydlu a

gweithredu cynllun cymorth dyngarol ar unwaith i bobl Gaza.

4. Bod y cynnig hwn yn datgan na ellir cyfiawnhau trais a gweithredoedd rhyfelgar yn erbyn sifiliaid. Bod hyn yn cynnwys gweithredoedd treisgar Hamas a'u gwrthodiad i ryddhau eu gwystlon ar unwaith, ynghyd â gweithredoedd anghymesur Israel yn erbyn pobl Palestina, sydd yn dorcyfraith rhyngwladol.

5. Ein bod ni, Cyngor Gwynedd, yn galw am gadoediad parhaol a di-droi'n ôl yn Gaza. Galwn ar Lywodraeth Cymru, y DU a'r gymuned rhyngwladol i sicrhau dychwelyd at y bwrdd trafod, a datrysiad theg a chyfiawn i holl drigolion Palestina a Israel, nifer sydd wedi ymgartrefu, sydd â theulu ac anwyliaid yma yng Ngwynedd.

## 14. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL — 159 - 163

Cyflwyno, er gwybodaeth:-

(a) Diweddariad i rybudd o gynnig y Cynghorydd Rhys Tudur i gyfarfod 4 Mai, 2023 o'r Cyngor ynglŷn â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion uwchradd.

(b) Llythyr oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn i gyfarfod 6 Gorffennaf, 2023 o'r Cyngor ynglŷn â datganoli'r grymoedd dros gyfiawnder a chreu Awdurdodaeth Gyfreithiol i Gymru.

# Y CYNGOR 28/09/23

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Beca Roberts (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:-** Menna Baines, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Anwen J Davies, Dafydd Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfai, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elin Walker Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, Kim Jones, June Jones, Cai Larsen, Beth Lawton, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, Nigel Pickavance, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Elfed P Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rob Triggs, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams a Sasha Williams.

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth), Sioned Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd, Peirianneg ac YGC), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Cyfrifeg a Phensiynau), Debbie Anne Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Gwasanaethau Corfforaethol Addysg), Rhys Glyn (Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Dewi Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor), Gareth Parri (Arweinydd Tîm Comisiynu – Tai ac Eiddo) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Craig ab Iago, Iwan Huws, Linda Ann Jones, Eryl Jones-Williams, Llio Elenid Owen, Gareth A.Roberts, Einir Wyn Williams ac Eirwyn Williams.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 6 Gorffennaf 2023 fel rhai cywir.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â'r canlynol:-

- Y Cynghorydd Louise Hughes a'r teulu ar farwolaeth ei mam yn ystod yr haf.
- Mrs Sharon Warnes, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei gŵr yn ddiweddar.

Nodwyd hefyd y bu farw'r Cynghorydd Pete Prendergast, Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych, ddiwedd yr wythnos ddiwethaf, a chydymdeimlwyd â'i deulu a'i gyd-gynghorwyr yng Nghyngor Sir Ddinbych.

Nodwyd ymhellach bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar.

Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Dymunwyd y gorau i Mrs Sharon Warnes, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, oedd yn methu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn oherwydd triniaeth ysbyty.

Llongyfarchwyd:-

- Pawb fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym mis Awst, ac yn arbennig Rhys Iorwerth o Gaernarfon, Alan Llwyd, Treforys, ond yn wreiddiol o Abersoch, ac Alun Ffred, cyn Arweinydd y Cyngor hwn, ar gipio'r Goron, Y Gadair a Gwobr Goffa Daniel Owen. Diolchwyd hefyd i bawb fu'n helpu yn yr Eisteddfod.
- Rhodri Jones, Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth, ar ei ethol yn Aelod Hŷn y Flwyddyn, Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc Eryri yn ddiweddar.
- Y dyfarnwr pêl-droed Cheryl Foster, yn enedigol o Fangor, ar fod y dyfarnwr benywaidd cyntaf i gymryd yr awenau mewn gêm yn Uwch Gynghrair Cymru. Ar 9 Ionawr 2023, penododd FIFA hi i'r pwll gweinyddu ar gyfer Cwpan y Byd Merched FIFA 2023 yn Awstralia a Seland Newydd, ac yn ôl ym mis Mai eleni, cafodd ei henwi fel y dyfarnwr ar gyfer rownd derfynol Cynghrair Pencampwyr Merched UEFA 2023 rhwng Barcelona a Wolfsburg ar 3 Mehefin 2023.
- Drws i Ddrws ar ddathlu 20 mlynedd o wasanaeth yn Nwyfor ac Eifionydd. Deellid hefyd bod Bwrdd Drws i Ddrws yn awyddus i ddiolch i Gyngor Gwynedd am ei gefnogaeth yn ystod y blynyddoedd hynny.
- Y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn ar gerdded 206 o filltiroedd o Fangor i Gaerdydd er mwyn gwthio'r ymgyrch i ail-agor y llinellau rheilffordd o Aberystwyth i Gaerfyrddin ac o Fangor i Afonwen. Nodwyd hefyd bod deiseb ar y mater wedi llwyddo i ddenu dros 13,000 o lofnodion.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. CWESTIYNAU**

*(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)*

**(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Gruffydd Williams**

"Yn dilyn cyhoeddiad fod Barclays am gau mwy o ganghennau gan gynnwys Pwllheli, a gaf i ofyn paham nad ydi'r Cyngor wedi ystyried bygwth newid banc gan mai Barclays ydi'r banc sydd yn cael ei ddefnyddio gan Y Cyngor? Petai'r Cyngor yn bygwth symud i fanc arall yn ogystal â gofyn i gynghorau sir eraill ddilyn esiampl, yna efallai y buasai'n bosib' dwyn perswâd arnynt i beidio cau canghennau."

**Ateb – Aelod Cabinet Cyllid, Y Cynghorydd Ioan Thomas**

"Rwy'n credu ei bod yn wir i ddweud bod pob un ohonom yn tristau o weld cangen banc yn cau, ond mae nifer yr ymwelwyr a'r defnyddwyr i'r banciau yma wedi lleihau yn sylweddol. Mae ffaith gan gwmni Which yn nodi bod 5,838 cangen wedi cau ers 2015. Mae hynny'n

gyfartaledd o 54 cangen yn cau bob mis ers 2015, ac mae yna ymhell dros 300 o ganghennau wedi cau yng Nghymru ers 2015.

Nid cyfrif mewn cangen benodol o fanc Barclays sydd gan y Cyngor, ond mae'n gytundeb corfforaethol, ac mae'r cytundeb yna tan fis Medi'r flwyddyn nesaf. Bydd dechrau negodi am gytundebau a bydd yna groeso, wrth gwrs, i fanciau eraill roi pris i mewn am y gwasanaeth i'r Cyngor. Rhaid i mi nodi, fodd bynnag, mai nifer fechan iawn iawn o fanciau sy'n delio hefo cynghorau, awdurdodau fel Gwynedd, ac felly mae yna bosibilrwydd na fydd yna lawer iawn yn ymgeisio amdano, ond mae'r broses yna am gychwyn ddechrau'r flwyddyn."

**(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Dewi Jones**

"Pa gamau mae Cyngor Gwynedd am eu cymryd yn dilyn cyhoeddi adroddiad ar dlodi yn Arfon gan y Sefydliad Bevan ym mis Awst?"

**Ateb – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Economi, Y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Diolch yn fawr i'r aelod a'i gyd-gynghorwyr am y gwaith dydd i ddydd rydych chi'n wneud yn Arfon. Rwy'n rhannu angerdd yr aelod am y pwnc yma, ac rwy'n gwybod hefyd bod Arweinydd y Cyngor a phob Aelod Cabinet hefyd yn gweld pa mor bwysig ydi'r pwnc yma. Rydym wedi blaenoriaethu'r gwaith yma. Rydym wedi rhoi pres i mewn i'r gwaith, ac mae'n digwydd yn drawsadrannol, ar draws bob adran o'r Cyngor. Nid yw'r atebion i hyn bob amser mewn lle amlwg, er enghraifft, yr Adran Cyllid, a hoffwn ddiolch iddyn nhw'n benodol am eu gwaith blaengar yn y maes yma. Diolch eto am godi'r cwestiwn ac uchafu'r mater yma yn y Cyngor llawn. Os oes gan unrhyw gynghorydd awgrym ynglŷn â beth yn fwy medrwn ni wneud yn y maes, plîs cysylltwch â mi, achos, fel arall, pam ydym ni yma fel cynghorwyr neu swyddogion, os nad i helpu'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas yng Ngwynedd?"

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Dewi Jones**

"Ar drothwy beth fydd yn aeaf caled arall i lawer, ydi'r Dirprwy Arweinydd yn cytuno â mi bod '*austerity'* wedi bod yn fethiant llwyr a bod Llywodraeth Prydain yn euog o daflu rhai o'r bobl fwyaf bregus mewn cymdeithas ymhellach i mewn i dlodi?"

**Ateb – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Economi, Y Cynghorydd Nia Jeffreys**

"Ydw, rwy'n cytuno 100%. Rydw i wedi dysgu term newydd yn ddiweddar gan fy ffrind a chyd-aelod Cabinet, y Cynghorydd Craig ab Iago, sef '*compensatory measures'*. Rydym yn gwybod am yr holl waith mae cynghorwyr, swyddogion, gwirfoddolwyr a'r trydydd sector yn wneud i gefnogi cymdogion a phobl fregus gyda balchder yn eu bro, ond yr hyn rydym ni'n wir yn ei wneud yw sefyll yn y bwlch, sefyll mewn bwlch sy'n cael ei greu yn rhywle arall. Rydym ni'n medru smwddio dipyn bach ar y corneli miniog sy'n effeithio ar bobl, ac mae hynny er gwaethaf y toriadau rydym ni wedi wynebu yng Nghyngor Gwynedd flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac rwy'n gorfod dweud blwyddyn arall eto rŵan. Ond mae'r penderfyniadau sy'n effeithio ar bobl o ran eu trethi ayb yn cael eu gwneud ymhell iawn o Wynedd, yn wir ymhell iawn o Gymru, gan blaid Doriaidd yn San Steffan. Nhw sy'n penderfynu ar lefelau budd-daliadau, nhw sy'n penderfynu ar bethau fel '*bedroom tax'*, a hefyd y rheol afiach am y trydydd plentyn - penderfyniadau sy'n effeithio go iawn ar bobl Cymru a Gwynedd, gan blaid, gyda llaw, sydd erioed wedi ennill mwyafrif o bleidleisiau yng Nghymru. Rwy'n siŵr bod hyn oll yn ddadl ar gyfer diwrnod arall, ond hoffwn gadarnhau bod yr aelod a minnau ar yr un ochr."

**(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Louise Hughes**

"Mae pawb yn derbyn y cyfyngiad 20mya o flaen ysgolion ac mewn ardaloedd sydd â phoblogaeth ddwys. Fodd bynnag, o ystyried y protestiadau cyhoeddus a'r niferoedd digynsail sydd wedi llofnodi'r ddeiseb ar-lein ar gyfer y Senedd, y dryswch ynghylch arwyddion ac ati, a chan gofio am y bobl sy'n defnyddio eu cerbydau ar gyfer gwaith (gweithwyr gofal, y gwasanaethau brys, gyrwyr danfon, gweithwyr post, bysiau ac ati), a ydym fel Cyngor yn fodlon gyda'r ddeddfwriaeth newydd ac a fyddwn yn defnyddio'r disgresiwn a roddir i Awdurdodau Lleol unigol i eithrio'r cyfyngiad 20mya mewn ardaloedd penodedig?"

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"O ran y rhan cyntaf o'r cwestiwn, mi rydw i'n fodlon hefo'r ddeddfwriaeth, ac mae'n bolisi Plaid Cymru i fod wedi cefnogi'r ddeddfwriaeth yn Senedd Cymru. O ran yr ail ran ynglŷn â defnyddio disgresiwn, rydym ni fel Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn ar gyfer gwneud eithriadau, ac rwyf am gymryd y cyfle i ganmol swyddogion Cyngor Gwynedd sydd wedi gwneud gwaith ardderchog o adnabod y parthau hynny ddylai gael eu heithrio o fynd o 30mya i 20mya. Mae yna 85 o'r eithriadau yma yng Ngwynedd. Rydym i gyd fel aelodau wedi cael cyfle i'w craffu. Yn ôl ym mis Mawrth/Ebrill cawsom restr ohonynt a map yn gofyn am ein barn, a bore heddiw yn digwydd bod, roedd yna erthygl yn y Daily Post yn canmol Gwynedd am y modd mae wedi delio gyda'r eithriadau. Mae yna fwy o eithriadau yng Ngwynedd nag sydd yna yng ngweddill siroedd Cymru hefo'i gilydd, felly rydw i'n fodlon iawn hefo sut rydym ni wedi delio hefo'r mater yma."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Louise Hughes**

"A fydd modd i gynghorau cymuned lleol ddeisebu'r Adran Drafnidiaeth i newid cyfyngiadau cyflymder?"

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Gall unrhyw un ysgrifennu ataf i neu'r swyddogion os ydynt yn anhapus gydag unrhyw ran o'r rhwydwaith, ac os oes yna achos dros newid, fe wneir y newid. Dewch i gysylltiad os ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi ei gael yn anghywir yn rhywle."

**(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Rhys Tudur**

"I ba raddau y mae'r Awdurdod a'r Ysgolion yn monitro llwyddiant trochi fel y gwyddom faint o blant sydd, wedi cyfnod o fod mewn Canolfan Drochi, yn astudio dros hanner eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae yna fonitro parhaus yn digwydd ar y gyfundrefn drochi, o'r asesiad gwaelodlin cychwynnol i'r asesiadau ffurfiannol i gefnogi dysgwyr o ddydd i ddydd - dysgwyr unigol felly - gan orffen gyda'r asesiadau crynodol. Mae'r manylion ynglŷn â sut yn union mae hynny'n cael ei wneud yn yr ateb ysgrifenedig rydych chi wedi derbyn, felly wnâi ddim mynd i ormod o fanylion.

Mae adroddiadau unigol yn cael eu gwneud i'r fam ysgol, ac mae llwyddiannau a sefyllfa gyffredinol y gyfundrefn drochi yn cael ei hadrodd i mi yn dymhorol fel rhan o broses herio perfformiad yr Adran, lle rydw i'n cael y cyfle i holi a herio fel sydd angen. Rydw i'n teimlo bod yna drafodaethau manwl iawn yn digwydd yn y fan honno sy'n mynd i bob twll a chornel o'r gwasanaeth trochi.

Ar ôl i'r plant drosglwyddo i'w mam ysgol, cyfrifoldeb yr ysgol wedyn ydi parhau i dracio ar hyd y continwwm iaith, fel rhan o'r trefniadau asesu. Mae'r gyfundrefn drochi yn olrhain

cynnydd hwyrddyfodiaid sydd wedi mynychu canolfannau trochi, ac sy'n dilyn cwrs TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf ac Ail Iaith. Mae'r Awdurdod yn casglu data parthed y nifer o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 sy'n dilyn 5 pwnc TGAU, neu fwy, drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfrifoldeb yr ysgolion ydi olrhain llwybrau ieithyddol dysgwyr unigol, gan gynnwys y plant sydd wedi symud yma'n hwyrach, ac sy'n dilyn o leiaf hanner eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fel mae rhai ohonoch yn gwybod, mae Estyn wedi bod i mewn yn arolygu'r Adran yn ddiweddar iawn, ac yn eu hadroddiad hwy, maen nhw'n nodi bod y ddarpariaeth yn yr ysgolion uwchradd i ddysgwyr sefyll arholiadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn adlewyrchiad o bolisi a gweledigaeth yr Awdurdod i ddatblygu dysgwyr dwyieithog. Mae'r dyfyniad o adroddiad Estyn yn yr ateb ysgrifenedig, adroddiad oedd, gyda llaw, yn gadarnhaol iawn am ein darpariaeth Gymraeg.

Hoffwn ddiolch i'r gyfundrefn drochi am y gwaith anhygoel maen nhw'n ei wneud achos mae o'n wirioneddol anhygoel, ac rwy'n hynod o falch bod safon uchel y gwaith yna yn cael ei adlewyrchu yn deg yn adroddiad Estyn. Hoffwn ddiolch i bawb sydd ynglŷn â'r gwasanaeth, gan gynnwys y plant, am y gwaith arbennig a'r cynnydd arbennig sy'n cael ei wneud, sy'n glod i bawb sydd ynglŷn ag o."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Rhys Tudur**

"Onid ydi o'n wir felly nad ydi'r Awdurdod yn gwybod faint o blant sydd wedi hyd yn oed mynd drwy gyfnod o drochi cynnar ac sydd wedyn yn mynd ymlaen a gwneud cyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg? Ydi o'n wir nad ydi'r Awdurdod yn gwybod yr ystadegau ar gyfer hynny?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"Rydw i newydd egluro o ran sut mae'r data yn cael ei gasglu gan y gyfundrefn, gan yr Awdurdod, ac yn yr ysgolion. Mae yna fonitro manwl yn digwydd o'r plant hynny ac i ble maen nhw'n cyrraedd o ran eu haddysg. Rydw i wedi bod mewn cyfarfodydd herio perfformiad lle mae yna ddata manwl o ran plentyn wrth blentyn ac rydw i wedi gallu mynd i lawr - '*deep dive'* mewn ffordd, i sefyllfa plant unigol ar eu taith drwy'r gyfundrefn. Felly rydw i'n teimlo bod yna gadw golwg agos iawn yn digwydd ar y plant yma o'u rhan hwy fel unigolion, sydd yn cael ei adrodd yn ôl i minnau hefyd.

Mae'n amlwg yn bwysig bod y plant yn gwneud gymaint o'u pynciau a'u harholiadau yn y pen draw trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel plentyn i rieni di-gymraeg fy hun, rydw i'n teimlo mai'r peth pwysicaf o ran trochi rhywun yn y Gymraeg (nid mod i wedi bod trwy drochi fy hun) ydi bod rhywun yn gallu mynd i'w ysgol, ymuno mewn sgyrsiau ar yr iard hefo cyfoedion trwy gyfrwng y Gymraeg h.y. bod rhywun yn gallu ymuno yn yr holl gyfleoedd diwylliannol sydd ar gael i blant. Wrth gwrs, mae'n ofnadwy o bwysig bod plant yn gallu cyrraedd eu potensial i wneud cymaint o bynciau â phosib' trwy'r Gymraeg, ond mae yna gymaint mwy i drochi na hynny fyddwn i'n dadlau."

**(5) Cwestiwn Y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

"Mae etholwyr yn fy ward wedi codi'r mater o dan feddiannu eiddo yn y sector gymdeithasol yn ddiweddar.

Mae nifer uchel o unigolion yn byw mewn tai cymdeithasol mewn pentrefi lle mae nifer fach iawn o dai cymdeithasol ar ôl.

Beth mae'r Cyngor a chymdeithasau tai yn ei wneud i roi cymorth i unigolion sydd yn tan feddiannu cartrefi yn y sector cymdeithasol i symud i gartrefi addas ar gyfer unigolyn?

Oes modd i'r Cyngor a chymdeithasau tai adnabod yr angen yng Ngwynedd?

O adnabod yr angen, oes modd sefydlu neu wella'r gwasanaeth presennol sydd ar gael ar gyfer trigolion sydd yn awyddus i symud i gartref newydd?

Gofynnir i'r Cyngor weithio gyda phob cymdeithas dai i adnabod pa gymorth ymarferol sydd ar gael i unigolyn sydd yn awyddus i symud tŷ, ond sydd angen cymorth ymarferol gyda'r broses o fudo."

**Ateb – Yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn yn absenoldeb yr Aelod Cabinet Tai, Y Cynghorydd Craig ab Iago**

"Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol, wrth gwrs, y gall tan-feddiannu achosi rhwystrau i rai unigolion a theuluoedd, ac o ganlyniad mae trefniadau a phrosesau eisoes yn bodoli o fewn y Polisi Gosod Tai Cyffredin sy'n hwyluso trefniadau ar gyfer y cymdeithasau tai lle mae unigolion a theuluoedd yn dymuno symud oherwydd materion tan-feddiannu, ac mae yna gyfeiriad at y Polisi Tai Cyffredin yn yr ateb ysgrifenedig.

Rydym yn fodlon codi'r pwyntiau y mae'r Aelod yn eu nodi gyda'r cymdeithasau tai yn y Bwrdd Partneriaeth Tai, lle bydd cyfle i drafod trefniadau presennol ac i wneud rhagor o ymchwil i'r achosion o dan-feddiannu i adnabod cyfleoedd penodol i allu cynnig cymorth ychwanegol."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

"Fydd amser staff yn cael ei glustnodi gan y Cyngor ar gyfer casglu'r data, a hefyd sicrhau bod pob cymdeithas yn rhoi gwasanaeth hafal i bob person yng Ngwynedd?"

**Ateb – Yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

"Gallaf gadarnhau y bydd y gwasanaeth yn darparu'r adnoddau sydd eu hangen i gyfarch y cwestiwn yma ac mae deialog gyson yn digwydd rhwng y Gwasanaeth a'r cymdeithasau tai i gyd trwy'r Bwrdd Partneriaeth Tai."

**(6) Cwestiwn Y Cynghorydd Angela Russell**

"Ar ran y Grŵp Annibynnol, hoffwn gael gwybod beth oedd y broses a ddilynodd y Cyngor yma i ddod i'r penderfyniad i ohebu gyda thrigolion Gwynedd ar Erthygl 4. Rydym ni fel aelodau yn teimlo ein bod wedi ein gadael yn y tywyllwch, yn enwedig pan fo'r ymgynghoriad wedi digwydd dros gyfnod yr haf, ac felly na fydd hyn yn gynrychiolaeth gywir."

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Nid wy'n derbyn bod y Grŵp Annibynnol wedi cael eu gadael yn y tywyllwch a bod yn berffaith onest. Mae yna fwletinau rheolaidd wedi bod i aelodau, ac yn syth wedi i'r Cabinet wneud penderfyniad i ymgynghori ar Gyfarwyddyd Erthygl 4, mi roedd yna sesiwn codi ymwybyddiaeth ar gyfer holl aelodau'r Cyngor. Rwy'n meddwl mod i'n iawn yn dweud, o'r 23 aelod annibynnol sydd ar y Cyngor, bod 13 ohonyn nhw'n bresennol, ac uwchben hynny, o'r 10 oedd ddim yno, mae 4 ohonynt ar y Pwyllgor Craffu Cymunedau, ac mae'r mater Erthygl 4 wedi bod gerbron y pwyllgor hwnnw ddwywaith. Rwy'n derbyn nad pawb sy'n gallu mynychu'r pethau yma oherwydd amryw o resymau personol, gwyliau a'r math yna o beth, ond mi wnaethpwyd recordiad o'r sesiwn ymgysylltu hynny ac mae aelodau wedi cael eu hatgoffa ar sawl achlysur bod y recordiad yn bodoli fel eu bod yn gallu

ymgyfarwyddo ag Erthygl 4. Felly, na, nid ydw i'n derbyn bod y Grŵp Annibynnol wedi cael eu cadw yn y tywyllwch."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Angela Russell**

"Gan i chi wrthod cyfarfod cyhoeddus, pa ddulliau, heblaw ymateb ysgrifenedig, mae Cyngor Gwynedd wedi cynnig i bobl hŷn, pobl ddifreintiedig, pobl sydd ddim ar y we? A ydym ni wedi gwneud pob dim i fodloni'r Ddeddf Cydraddoldeb, a pha bryd mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda'r benthycwyr morgais, ayb, yn hyn i gyd? A sut mae 10 aelod Plaid Cymru ar y Cabinet yn cael gwneud penderfyniad pellgyrhaeddol i ni ym Mhen Llŷn pan mae yna 69 ohonom fel cynghorwyr? A pam nad yw hyn wedi dod o flaen y Cyngor llawn?

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Deddfwriaeth sy'n dod o Gaerdydd sy'n penderfynu sut mae'r Cyngor yn gwneud ei benderfyniadau. O ran y materion eraill, rwy'n meddwl bod yr ymatebion i'r cwestiynau hynny i gyd yn yr ateb ysgrifenedig."

**(7) Cwestiwn Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

"I ba raddau y mae methiant i arolygu a gorfodi amodau cynllunio sy'n cyfyngu ar gyfnod gweithredu meysydd carafanau teithiol a'r cyfnod y gellir cadw carafán ar lain penodol wedi arwain at gynnydd mewn defnydd parhaol a di-dor?"

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Mae'n gwestiwn penodol, ac ni wn a oes yna rywbeth penodol yn y ward y tu ôl i hyn, ond rydw i'n cyfeirio'r aelod at yr ymateb ysgrifenedig. Wrth gwrs, un peth sy'n bwysig i'w ddweud ydi nad oes gan y Cyngor dimau o bobl yn mynd o gwmpas yn gwneud yn siŵr bod pawb yn cadw at reolau cynllunio. Mae'r cyfrifoldeb yna gan y sawl sy'n gwneud ceisiadau ac yn cael caniatâd cynllunio, wrth gwrs. Mae'n debyg y dylid nodi hefyd mai grym dewisol ydi pwerau gorfodaeth a'n bod ni'n gwneud hyn drwy gyflwyno rhybuddion gorfodaeth lle mae tystiolaeth gadarn yn cyfiawnhau hynny. Ac, wrth gwrs, '*intelligence'* lleol fel rheol sy'n dwyn i sylw swyddogion bod yna dor-amodau cynllunio wedi bod."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Richard Glyn Roberts**

"I ba raddau mae blaenoriaethau a phrosesau o fewn yr Adran wedi cael eu haddasu i dargedu'r mater ers i'r mater gael ei godi 4-5 mlynedd yn ôl gan Aled Evans, y cyn-gynghorydd dros Ward Llanystumdwy?"

**Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

"Nid oes gen i wybodaeth ynglŷn ag unrhyw achos penodol yn fan hyn, felly mae croeso i chi anfon hwnnw ataf i, neu at y swyddogion cynllunio. Gallwch chi wneud hynny unrhyw adeg. Nid oes angen disgwyl tan Gyngor llawn i wneud hynny."

**(8) Cwestiwn Y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

"Mae plant di-gymraeg sy'n cael eu 'trochi' yn y Canolfannau Iaith yn treulio un diwrnod yr wythnos yn ôl yn eu hysgolion, er mwyn cadw cysylltiad gyda'r athrawon a phlant yna. Y tebygrwydd yw mai'r Saesneg maent yn defnyddio i chwarae a chyfathrebu o hyd. A yw'r Adran Addysg yn asesu'r effaith mae hyn yn ei gael ar ddefnydd iaith gweddill y plant, ac ar ethos Gymraeg yr ysgolion?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"Mae sicrhau cysylltiad parhaus gyda'r fam-ysgol yn elfen allweddol rwy'n meddwl o sicrhau llesiant y plant sydd yn hwyr-ddyfodiaid i'r sir, yn ogystal â bod yn fodd iddyn nhw drochi'n naturiol yng nghwmni eu cyfoedion a'u hathrawon, sef yr hyn rydym ni i gyd yn anelu ato, wrth gwrs. Mae'r plant yn cael eu paratoi at y dyddiau pontio yma drwy ymarfer patrymau ieithyddol penodol a chwestiynau syml ac atebion y gallant fynd gyda hwy wedyn i'w mam-ysgolion er mwyn ymarfer eu Cymraeg. Mae hynny'n cael ei ehangu o wythnos i wythnos fel maen nhw'n magu sgiliau a magu hyder, ac ati, ac mae aelod o staff y gyfundrefn yn cael ei ddarparu i'r plant yma ar eu dyddiau trochi i'w cefnogi a'u hannog, gan fod siarad Cymraeg y tu allan i awyrgylch saff y ganolfan yn dipyn o her. Cyfrifoldeb yr ysgol wedyn ydi darparu'n briodol ar gyfer pob plentyn, sy'n cynnwys unrhyw anghenion o ran y Gymraeg o ran yr iaith ffurfiol ac anffurfiol, ac mae cefnogaeth i'r gyfundrefn drochi yn parhau iddyn nhw o ran hynny. Ac os fedra'i ddyfynnu Estyn eto:-

*"Anogir y defnydd o'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn briodol drwy'r Siarter Iaith. Mae hyn yn cyfrannu at wella medrau Cymraeg a Chymreictod y plant yn ogystal â chefnogi cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd."*

Ond gan mai dim ond ers dau dymor y mae'r gyfundrefn drochi ar ei newydd wedd yn weithredol, mae yna barodrwydd i gynnal gwerthusiad o'r drefn i weld sut yn union mae'r plant yn caffael y Gymraeg a sut maen nhw wedyn yn trochi nôl i'w hysgolion, a beth ydi effaith hynny arnyn nhw ac ar y plant eraill. Wrth gwrs, llesiant a photensial pob un plentyn sydd wrth galon yr hyn sy'n cael ei gynnig ac mi fyddwn i'n amlwg yn dymuno gweld bod pob un plentyn yn cyrraedd ei botensial, ac yn teimlo'n hapus ac yn gyffyrddus hefo'r hyn sy'n digwydd. Wedyn mae hwnna'n gwestiwn pwysig, diolch."

**Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Jina Gwyrfai**

"Pryd a sut fydd y gwaith asesu hwn yn cael ei wneud, ac oni ddylid cynnwys asesu effaith y diwrnod pontio ar y plant i gyd?"

**Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Beca Brown**

"Rwy'n meddwl bod gwerth mewn gwneud hynny yn sicr. O ran Polisi Iaith Addysg Gwynedd, wrth gwrs, mae wedi ei rannu yn 4 rhan - cyfrwng yr addysg, y defnydd cymdeithasol, recriwtio a phenodi a gweinyddiaeth a chyfathrebu. Felly, rydym ni'n sôn am yr elfen gymdeithasol yn fan hyn, sy'n hollbwysig rwy'n credu, ac yn fanna mae dal hi, fuaswn i'n barnu.

Mae disgwyl i'r ysgolion fagu agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg a chreu balchder yn yr holl blant. Rwy'n meddwl bod prosiect Ein Llais Ni wedi gwneud cyfraniad pwysig. Mae hyfforddiant y Siarter Iaith hefyd yn ffactor allweddol ac mae yna £96,000 wedi dod o Grant y Gymraeg ar gyfer prosiectau dalgylchol, ac mae hyfforddiant yn elfen greiddiol o amodau'r grant yna.

Er diddordeb, hoffwn roi math o flas i chi o'r gweithgareddau sydd yn digwydd yn ein hysgolion er budd codi ymwybyddiaeth a balchder yn eu Cymreictod, oherwydd rwy'n meddwl ei fod yn ddifyr ac yn rhywbeth sy'n codi calon rhywun i glywed amdano a dweud y gwir. Dyma flas o'r mathau o bethau sy'n digwydd:-

- Gweithdai drama hefo'r llenor Mared Llywelyn ynglŷn â chwedlau lleol, casglu a defnyddio enwau llefydd y filltir sgwâr ac yna'u rapio gydag Ed Holden;
- Cydweithio hefo'r Urdd i hyfforddi gemau buarth yn y Gymraeg;
- Tanio Cymreictod – codi ymwybyddiaeth o fandiau Cymraeg, megis Bwncath, ac ati;
- Thema Cwpan y Byd- sylwebu hefo Meilir Emrys; creu anthem hefo Elidyr Glyn;

- Hyfforddiant i gymorthyddion y dalgylch er mwyn datblygu'r defnydd o'r iaith anffurfiol wrth gyflwyno gweithgareddau ar y buarth;
- Cyflwyniad Cymreictod gan Ameer Davies-Rana i ysbrydoli dysgwyr a staff;
- Gweithdai creadigol hefo Osian a Branwen Candelas;
- Clocs Ffit hefo Tudur Phillips;
- Gweithdai canu hefo Catrin Toffoc;
- Gweithdai creu podlediadau, sylwebu pêl droed hefo Marci G;
- Gweithio hefo Cwmni'r Fran Wen, Hunaniaith, Menter Iaith Bangor, Ein Llais Ni;
- Hyfforddi disgyblion y 6ed i arwain teithiau cerdded dan arweiniad Rhys Mwyn gan eu haddysgu am hanes eu hardal a'u hannog i fwynhau eu milltir sgwâr.

Rydw i wrth fy modd gweld yr elfennau iaith y buarth yma, ac fel roeddwn i'n dweud mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd Rhys Tudur, yr hyn y buaswn i'n hoffi gweld ydi bod y plant trochi yn medru mynd i ganol criw o blant lleol ar yr iard, a bod yr iaith ddim yn gorfod newid iddyn nhw, ac rwy'n meddwl mai yn fan hyn mae dal hi. Ni ddilynais i fy mhynciau TGAU i gyd drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mi roeddwn i'n medru gwneud ffrindiau hefo plant Cymraeg, mynd i Lan-llyn a mynd i gigs Cymraeg. Felly, rwy'n meddwl mai yn yr elfen gymdeithasol yna mae dal hi, ac roeddwn wrth fy modd yn gweld yr holl bethau sy'n digwydd. Gobeithio fod hynny yn rhoi blas i bobl o'r gwaith ardderchog sy'n digwydd yn ein hysgolion a hoffwn ddiolch eto i'r ysgolion am yr holl waith maen nhw'n wneud o ran cefnogi Cymreictod pob un plentyn, yn hwyr-ddyfodiaid ac yn blant cynhennid."

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD 2022-23

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn, adroddiad yn gofyn i'r Cyngor gymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad 2022/23.

Diolchodd yr Arweinydd i Reolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor a'r Tîm am eu gwaith yn paratoi'r adroddiad. Yna cyfeiriodd at y sefyllfa gyllidol anodd dros ben sy'n wynebu'r Cyngor, gan nodi:-

- Nad oedd yn argoeli'n dda i setliad cynghorau sir ar draws Cymru ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac er bod Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa gyllidol gref, a'n bod wedi ymfalchïo dros y blynyddoedd yn y ffaith ein bod yn effeithiol yn delio gydag arian y Cyngor, y byddai'r Cyngor hwn hefyd yn gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn y tro hwn.
- Bod mwyafrif arian y Cyngor yn cael ei wario ar addysg, oedolion a phlant, sef y meysydd hynny sy'n meithrin dyfodol ein plant ac yn gofalu am y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas, a phe dymunid amddiffyn y gwasanaethau hynny, o ble fyddai'r toriadau pellach yn dod?

Anogwyd pawb o'r aelodau i fynychu un o'r 3 gweithdy arbedion a drefnwyd ym mis Hydref.

Yna cyfeiriodd yr Arweinydd at rai materion penodol, gan nodi:-

- Bod y gostyngiad o 4,500 ym mhoblogaeth Gwynedd, gyda 1,400 yn llai o aelwydydd yn y Sir (yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad diwethaf) yn destun pryder iddo gan fod hynny'n cael effaith uniongyrchol ar ein setliad o £1.6m. Yn fwy na hynny, roedd yna ystyriaethau economaidd sylweddol iawn o golli poblogaeth, sy'n rhoi mwy fyth o bwys ar ein gwaith wrth geisio datblygu'r economi, denu swyddi o safon uchel i'r ardal a denu pobl ifanc yn ôl i Wynedd.
- Bod y gyfundrefn addysg yng Ngwynedd yn arloesol ac yn gosod y safon drwy Gymru gyfan, e.e. y drefn drochi newydd, ac na chytunai â'r feirniadaeth gyhoeddus sydd wedi bod o drefn addysg Gwynedd.

- Bod Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn un o'r ymyraethau sydd gan y Cyngor yn y maes tai i geisio cael rheolaeth ar y llif o ail-gartrefi a gosod tymor byr sy'n niweidio ein cymunedau ac yn cyfrannu at y diboblogi a welir yn y Cyfrifiad. Er hynny, ni chredid y byddai Erthygl 4 yn cael gymaint o effaith ag y mae pobl yn credu, ac ni chredid chwaith y byddai mor effeithiol â hynny yn cael rheolaeth ar y maes ail gartrefi. Cydnabyddid bod yna bryder ynglŷn ag Erthygl 4, a byddai'r Cyngor yn edrych yn ofalus iawn ar y pryderon hynny wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, gan gymryd cyngor cyfreithiol ychwanegol, petai angen, er mwyn sicrhau ein bod yn mynd i'r cyfeiriad iawn. Byddai'r gwaith o ddadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad yn digwydd o hyn i ddiwedd y flwyddyn, gydag adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd.
- Bod yna broblem sylweddol o ran y ddarpariaeth gofal dwys ar draws y sir, a bod y datblygiad ym Mhenrhos yn o'r cynlluniau arloesol gwych sydd gan y Cyngor, ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd a Chymdeithas Tai Clwyd Alun, i gyfarch hynny.
- Gan fod nifer sylweddol o aelodau yn pryderu a yw'r Polisi Tai Cyffredin yn wirioneddol roi blaenoriaeth i bobl leol, ei fod wedi cyfarwyddo'r Gwasanaeth i drefnu cyfarfod er mwyn deall beth yn union sy'n cael ei gynnig gan y polisi tai presennol. Ychwanegodd y byddai'n annog unrhyw aelodau sydd â phryder i ddod i'r cyfarfod, gan mai dyma'r cyfle i ddeall beth sy'n digwydd, ac efallai i fedru gwyro polisïau.
- Bod yna bryder hefyd ynglŷn â'r problemau a welir yn ein cymunedau o ran y trefniadau ailgylchu, a bod y Cyngor yn cynnal trafodaethau ar y lefel uchaf bosib' er mwyn mynd i wraidd y broblem a cheisio datrysiad buan i'r sefyllfa.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Codwyd y materion a ganlyn gan aelodau unigol:-

- Gofynnwyd i'r Arweinydd a oedd yn cefnogi'r bwriad i gynyddu nifer yr aelodau seneddol yng Nghaerdydd i 96, ar gost amcangyfrifiedig o £17.8m y flwyddyn. Mewn ymateb, nododd yr Arweinydd ei fod yn cefnogi hynny 100%, oherwydd os ydym o ddifri' ynglŷn â llywodraethu ein gwlad ein hunain, rhaid cael digon o bobl i wneud y gwaith, ac roedd y Llywodraeth, ar y cyd â Phlaid Cymru, wedi adnabod bod angen yr aelodau ychwanegol yma i wneud y gwaith o graffu Llywodraeth Cymru. Nododd ymhellach nad oedd arian '*Levelling Up'* Llywodraeth Doriaidd San Steffan yn lefelu dim byd i fyny; na chafodd Cymru'r arian oedd yn ddyledus iddi o HS2 ac nad oedd y '*Shared Prosperity Fund'* yn ymwneud â rhannu cyfoeth o gwbl. Arian Cymru oedd hwn, arian ddaeth allan o Ewrop, ond roedd Llywodraeth San Steffan yn talu llai i Gymru na'r hyn a addawyd. Nododd hefyd nad oedd Llafur Lloegr ddim gwell, a bod hwythau â'u bryd ar danseilio hawliau Cymru.
- Gan gyfeirio at Flaenoriaeth Gwella 4 - Mynediad at gartrefi addas, holwyd ymhle yr adeiladwyd y 173 o dai cymdeithasol oedd wedi'u codi ar draws Gwynedd ers dechrau'r Cynllun Gweithredu Tai. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr fod y tai wedi'u hadeiladu drwy'r Grant Tai Cymdeithasol dros gyfnod o 2, neu bosib' 3 blynedd bellach, ac y byddai'n hapus i rannu gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r 173 gyda'r aelod.
- Nodwyd bod nifer y cyfeiriadau o dan y drefn Trefniadau Amddiffyn rhag Colli Rhyddid ar gynnydd eto, a holwyd pam bod y Cyngor yn gorfod cael pobl o'r tu allan i'w helpu gyda'r asesiadau, oherwydd y deellid ein bod wedi hyfforddi staff mewnol i wneud y gwaith. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr fod yna staff mewnol yn gwneud yr asesiadau, ond oherwydd ôl-groniad gwaith, bod yna hyfforddiant pellach yn digwydd, ac o bosib' y byddai angen dod â phobl ychwanegol i mewn i helpu gyda'r gwaith hefyd. Nododd y byddai'n hapus i drafod ymhellach gyda'r aelod.
- Holwyd a ystyriwyd beth sy'n mynd i ddigwydd ym Mhen Llŷn pan fydd yna, o bosib', lai o fysus yn rhedeg o ganlyniad i'r cyfyngiad cyflymder 20mya. Nodwyd nad oedd

yna rwydwaith llwybrau beicio yn yr ardal chwaith, ond eto roedd y trigolion yn gorfod wynebu'r cyfyngiad cyflymder 20mya. Mynegwyd pryder am y gofalwyr a nodwyd bod yna brinder tacsis ym Mhen Llŷn i fynd â phobl adref ar ôl bod yn cymdeithasu. Nodwyd bod yr Arweinydd wedi cyfeirio eisoes at y gostyngiad ym mhoblogaeth Gwynedd, ond roedd cefn gwlad yn gwagio gan nad oedd dim byd ar ôl yno i bobl. Roedd gwasanaethau'n cael eu torri ac yn mynd ymhellach oddi wrth y boblogaeth wledig, ac yn hytrach na chael mwy o aelodau seneddol yng Nghaerdydd, byddai'n well i'r rhai sydd yno'n barod wneud eu gwaith yn well. Roedd Cyngor Gwynedd wedi cael ei wanio drwy orfod gostwng o 75 i 69 aelod, gyda'r 10 aelod cabinet yn gwneud y penderfyniadau. Mewn ymateb, nodwyd, petai'r cyfyngiad cyflymder 20mya yn arbed un bywyd yn unig, y byddai wedi bod werth cyflwyno'r ddeddfwriaeth.

- Mynegwyd pryder nad oedd yr heddlu'n gorfodi'r cyfyngiad 20mya mewn rhai ardaloedd, ac yn neilltuol felly yng Ngorllewin y sir ac o flaen ysgolion, a holwyd a allai'r Cyngor roi pwysau o ran hynny. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr mai polisi'r heddlu a'r Llywodraeth ar draws y wlad ar hyn o bryd o ran y cyfyngiadau cyflymder newydd oedd y byddai yna gyfnod o addysgu i gychwyn, cyn symud ymlaen i orfodaeth. Dymunid gweld yr heddlu'n ceisio blaenoriaethu rhagor o adnoddau prin ar gyfer y maes yma. Roedd sgyrsiau'n digwydd ynglŷn â hynny a chadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'n pasio'r neges ymlaen yn y sgwrs nesaf hefyd.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag enwau llefydd Cymraeg dan yr adran 'Y Gymraeg a'r Gwasanaethau Cyhoeddus' o'r adroddiad, cadarnhawyd mai polisi'r Cyngor oedd defnyddio'r Gymraeg yn unig bob tro.
- Mynegwyd y farn nad oedd y Cyngor yn rhoi digon o sylw i bobl ifanc. Cyfeiriwyd at enghraifft o gwpl ifanc lleol oedd wedi cyflwyno cais cynllunio am dŷ 3 llofft, ond wedi cael caniatâd i godi tŷ 2 lofft yn unig, ac wedi'u cynghori i ddod yn ôl gyda chais am estyniad i'r tŷ yn nes ymlaen i gael y 3ydd llofft.
- Mynegodd aelod ei phryder nad oedd wedi derbyn copi papur o raglen y cyfarfod hwn gan nodi nad oedd yn bosib' iddi weithio ar-lein oherwydd diffyg signal yn ei chartref. Mewn ymateb, eglurwyd bod penderfyniad wedi'i wneud yn ddiweddar i symud tuag at Gyngor di-bapur o ran yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu gyda'r aelodau, ond bod eithriad wedi'i wneud yn yr achos dan sylw am y rhesymau a nodwyd. Deellid bod hynny wedi'i gyfathrebu gyda'r aelod eisoes, a byddai'n derbyn copïau papur o raglenni cyfarfodydd o hyn allan.
- Croesawyd y trosolwg o'r flwyddyn ar gychwyn yr adroddiad sy'n rhoi ciplun o rai o brif gyflawniadau'r Cyngor. Nodwyd bod y 5 Tîm Tacluso yn gwneud gwaith rhagorol, a diolchwyd i'r 2 sy'n gweithio'n ddiwyd yn Llŷn am eu gwaith rhagorol yn tacluso'r strydoedd a'r pentrefi. Nodwyd hefyd ei bod yn dda cyrraedd y garreg filltir lle mae'r holl lampau stryd wedi'u hamnewid i dechnoleg LED. Er hynny, awgrymwyd bod y trosolwg braidd yn gamarweiniol ar brydiau, e.e. nodir bod 104 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd, ond ffigwr dros 3 blynedd yw hynny.
- Croesawyd y ffaith bod yr adroddiad yn tanlinellu'r llwyddiannau heb guddio'r gwendidau ac yn rhoi darlun teg a gonest o'r perfformiad yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2022-23.**

## 8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2022-23

Cyflwynwyd – adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2022/23. Yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor, Mrs Sharon Warnes, oherwydd gwaeledd, a hefyd gan nad oedd yn bosib' i'r Is-gadeirydd, Mr Eifion Jones, na'r un o'r aelodau lleyg eraill fod yn bresennol ar fyr rybudd, fe gyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Paul Rowlinson, fel aelod etholedig ar y Pwyllgor.

Nododd y Cynghorydd Paul Rowlinson ei bod yn bleser ganddo gyflwyno adroddiad cyntaf y Cadeirydd, ar sail gofynion statudol Llywodraeth Cymru, yn amlinellu sut mae'r Pwyllgor wedi mynd ati i ystyried y ffactorau anodd sydd wedi wynebu'r Cyngor dros y cyfnod ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor ar sut mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarn i'r risgiau hynny.

Diolchwyd i'r holl swyddogion sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor mewn modd trylwyr a phroffesiynol a diolchwyd hefyd i'r Aelodau Etholedig a Lleyg am eu cyfraniad allweddol i waith y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 9. ADOLYGIAD CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y Cyngor i fabwysiadu cyfres o newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y'u rhestrwyd yn yr adroddiad a'r atodiadau iddo, ynglŷn â:-

(i) Swyddogaethau Cyngor Llawn;
(ii) Asesiad Perfformiad Panel;
(iii) Amserlen Cwestiynau gan Aelodau; a
(iv) Trothwy ariannol ar gyfer selio contractau.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau a gofyn cwestiynau. Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau unigol ynglŷn â'r Panel Annibynnol fydd yn asesu perfformiad y Cyngor, nodwyd:-

- Bod y canllawiau yn cyfeirio at o gwmpas 4-5 o bobl ar y Panel. Deellid bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn casglu pŵl o ymgeiswyr gyda chefndir llywodraeth leol gweddol uchel (yn brif swyddogion ac aelodau hefyd) y byddai'n rhaid i'r Cyngor benodi o'u plith, a byddai yna gadeirydd annibynnol i'r Panel.
- Nad oedd y broses yn cyffelybu mewn unrhyw ffordd i broses cynllun datblygu lleol. Byddai'n rhaid cyflwyno argymhelliad y Panel i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i'r Cabinet hefyd, mae'n debyg. Nid rheoleiddwyr fyddai'r Panel a'u rôl fyddai rhoi barn a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor eu hystyried ac ymateb iddynt.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r newidiadau i'r Cyfansoddiad a restrir yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor a'r atodiadau ynglŷn â:-**

**(i) Swyddogaethau Cyngor Llawn;**
**(ii) Asesiad Perfformiad Panel;**
**(iii) Amserlen Cwestiynau gan Aelodau; a**
**(iv) Trothwy ariannol ar gyfer selio contractau.**

## 10. RHYBUDDION O GYNNIG

### 10(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD GRUFFYDD WILLIAMS

Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Gruffydd Williams o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

*"Nodwn y bygythiadau cynyddol i ffermwyr a'r byd ffermio gan gyrff anetholedig goruwch-genedlaethol sydd am eu gorfodi oddi ar eu tir.*

*Gwelwyd hyn ar waith yn yr Iseldiroedd, Iwerddon a mannau eraill yn ddiweddar, a bellach mae Llywodraeth Cymru hithau am droi 10% o dir amaethyddol Cymru yn goedwigoedd,*

*gan leihau ein cyflenwad bwyd cynhenid eto er bod bron i hanner y boblogaeth yn byw mewn tlodi yma.*

*Yn wyneb hyn oll galwaf ar Gyngor Gwynedd i ymrwymo i gefnogi'r fferm deuluol Gymreig sy'n cyfrannu cymaint at economi Gwynedd a hefyd yn fodd i gynnal hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol unigryw'r sir a bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail ailystyried y penderfyniad i droi 10% o dir amaethyddol yn goedwigoedd."*

Nododd yr aelod ymhellach y dylid cywiro'r cyfeiriad at '*organic food supply'* yn y cyfieithiad Saesneg o'i gynnig i ddarllen '*locally sourced food supply'*.

Cynigiwyd ac eiliwyd gwelliant i'r cynnig, sef:-

*"Bod Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i gefnogi'r fferm deuluol Gymreig sy'n cyfrannu cymaint at economi Gwynedd, a hefyd yn fodd i gynnal hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol unigryw'r sir, a bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail-ystyried eu penderfyniad i fynnu bod pob uned amaethyddol yn gorfod neilltuo 10% o'u tiroedd yn goedwigoedd."*

Nodwyd bod y rhesymau dros y gwelliant fel a ganlyn:-

- Bod dau baragraff cyntaf y cynnig gwreiddiol yn cyfeirio at ryw fath o gynllwyn rhyngwladol gan gyrff goruwch-genedlaethol, ac na chredid eu bod yn berthnasol i'r cynnig o gwbl, ac felly y dylid eu dileu.
- O ddeall gan yr undebau amaeth bod tua 7.5% o diroedd sy'n cael eu hamaethu ar hyn o bryd yn goedwigoedd, nad oedd cyrraedd 10% yn waith anodd, ond roedd angen bod yn hyblyg o ran y 10% gan nad oedd tiroedd pob fferm yn addas ar gyfer plannu coed.
- Ei bod yn bwysig plannu'r coed iawn yn y llefydd iawn, a byddai polisi cyffredinol fel hyn yn anodd i ffermwyr ei weithredu.
- Gan na allai tenant droi tir amaeth yn dir coedwigoedd heb ganiatâd y landlord, gallai hynny fod yn broblem hefyd.
- Yr awgrymid felly y dylid gofyn i'r Llywodraeth ail-ystyried eu penderfyniad i fynnu bod pob uned amaethyddol yn gorfod neilltuo 10% o'u tiroedd yn goedwigoedd.

Trafodwyd y gwelliant. Mynegwyd cefnogaeth i'r gwelliant gan rai aelodau ar y sail:-

- Bod y 2 baragraff cyntaf yn clymu cynnig, sydd yn ei hanfod yn un eithaf call, i rai o ddamcaniaethau cynllwyn y dde eithafol Inglo-americanaidd, ac felly'n gwanio difrifoldeb gweddill y cynnig yn sylweddol. Byddai'n wrthyn o beth petai'r Cyngor yn cael ei gysylltu mewn rhyw ffordd gyda'r wleidyddiaeth wenwynig ryngwladol sy'n credu ein bod yn cael ein rheoli gan ryw gyrff annemocrataidd, ac ati. Roedd camau wedi'u cymryd yn Iwerddon a'r Iseldiroedd, sef 2 wlad sydd ag allbynnau carbon sylweddol iawn yn deillio o amaethyddiaeth, ond nid cyrff annemocrataidd goruwch-wladwriaethol oedd wedi gwneud hynny, eithr llywodraethau sofran y 2 wlad honno.
- Bod geiriad y gwelliant yn glir a'i bod yn amlwg beth yw'r bwriad a beth sydd angen ei wneud. I'r gwrthwyneb, credid bod y wybodaeth ym mharagraffau cyntaf y cynnig gwreiddiol yn niwlog. E.e. nodir bod bron i hanner y boblogaeth yn byw mewn tlodi, ond nid yw'n glir a yw hynny'n cyfeirio at boblogaeth Gwynedd neu Gymru gyfan.

Mynegodd aelodau eraill gefnogaeth i'r cynnig gwreiddiol gan nodi:-

- Y credid bod y 2 baragraff cyntaf yn cynnwys gwybodaeth gefndirol werthfawr ynglŷn â pham bod y cynnig gerbron.

- Bod yna gyrff anetholedig goruwch-genedlaethol yn bodoli ac y teimlid y byddai'r gwelliant yn gwneud mwy o ddrwg i amaeth yng Ngwynedd.
- Y teimlid bod yna ddarllen rhwng y llinellau a dychmygu drwy honni bod y 2 baragraff cyntaf yn clymu'r cynnig i ddamcaniaethau cynllwyn y dde eithafol.
- Ei bod yn drueni gweld tir ffermio da yn cael ei droi'n goedwigoedd ac yn sefyll yn gwneud dim.

Nododd aelod na theimlai'n barod i wneud penderfyniad yn y fan a'r lle ar fater mor bwysig, ac awgrymodd y dylid cael trafodaeth fwy manwl cyn dod i benderfyniad ar y ffordd ymlaen.

Nododd y Cadeirydd fod yna gynnig gerbron, ynghyd â gwelliant i'r cynnig, a bod rhaid i'r Cyngor ddod i benderfyniad ar hynny.

Yn ei sylwadau cloi, nododd cynigydd y cynnig gwreiddiol:-

- Ei fod wedi bwriadu cynnwys fel rhan o'i gynnig bod Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i gynnig cig lleol ar y fwydlen yn yr ysgolion, ond yn anffodus, iddo adael y cymal hwnnw allan o'i gynnig drwy amryfusedd.
- Ei bod yn syndod ganddo glywed ei fod yn cael ei uniaethu gyda'r adain dde eithafol am geisio rhoi cynnig gerbron i helpu'r byd amaeth.

Pleidleisiwyd ar y gwelliant, ac fe gariodd.

Cynigiwyd gwelliant pellach, sef:-

*"Yn unol ag ysbryd y cynnig, bod y Cyngor yn ymrwymo i gefnogi cynhyrchwyr lleol drwy sicrhau bod cig a chynnyrch lleol arall yn aros ar fwydlen ein hysgolion."*

Mewn ymateb, eglurodd y Swyddog Monitro:-

- Mai amcan rhybudd o gynnig oedd bod y Cyngor yn cyhoeddi'r rhybudd ymlaen llaw.
- Y gallai gwelliant i gynnig ychwanegu neu newid geiriad yn unig, ac ni ellid dod â mater hollol wahanol i mewn i'r drafodaeth ar ôl rhoi rhybudd o'r bwriad.
- Gan mai mater gweithredol oedd y fwydlen ysgolion, ayb, y byddai'n cynghori ei bod allan o drefn i ddod â mater newydd i mewn ar y pwynt yma.

Yn wyneb yr eglurhad, diwygiodd yr aelod ei welliant pellach, sef:-

*"Yn unol ag ysbryd y cynnig, bod y Cyngor yn ymrwymo i gefnogi cynhyrchwyr lleol yn ymarferol"* (heb enghreifftio'r gefnogaeth honno).

Nododd y Prif Weithredwr ei fod yn credu bod y gwelliant pellach yn gofyn am ymrwymiad i gefnogi'r fferm deuluol, a bod hynny'n rhan o'r gwelliant oedd wedi'i dderbyn eisoes.

Gan i'r gwelliant gael ei dderbyn, eglurodd y Swyddog Monitro fod y cynnig gwreiddiol wedi'i wella, a bod angen pleidlais bellach gyda geiriad y gwelliant yn hytrach na'r geiriad gwreiddiol. Pleidleisiodd mwyafrif o blaid y cynnig wedi'i wella.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig wedi'i wella, sef:-**

**Bod Cyngor Gwynedd yn ymrwymo i gefnogi'r fferm deuluol Gymreig sy'n cyfrannu cymaint at economi Gwynedd, a hefyd yn fodd i gynnal hunaniaeth ieithyddol a diwylliannol unigryw'r sir, a bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ail-**

**ystyried eu penderfyniad i fynnu bod pob uned amaethyddol yn gorfod neilltuo 10% o'u tiroedd yn goedwigoedd.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 3.50yp.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **7 Rhagfyr 2023** |
| **AELOD CABINET:** | **Cynghorydd Ioan Thomas**<br>**Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhad ffurfiol am 2024/25 o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgownt i ail gartrefi a pheidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag, i godi Premiwm o 150% ar anheddau sydd wedi eu meddiannu yn achlysurol a Premiwm o 100% ar anheddau gwag hirdymor.** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** |

**PENDERFYNIAD A GEISIR**

**Fod y Cyngor yn gwneud dim newid i'r Premiwm Treth Cyngor ar gyfer 2024/25. Hynny yw, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25:**

- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
- **Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 100% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn caniatáu disgresiwn i'r Cyngor godi Treth Cyngor llawn, caniatáu disgownt o hyd at 50%, neu godi Premiwm ychwanegol ar Dreth Cyngor rhai dosbarthau o ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor.

1.2. Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 1998, i ganiatáu DIM disgownt i ail gartrefi.

1.3. Mae’r Cyngor wedi mabwysiadu yn flynyddol, ers 2009, i ganiatáu DIM disgownt i eiddo sydd wedi bod yn wag ers 6 mis neu fwy.

1.4. Ychwanegodd Adran 139 Deddf Tai (Cymru) 2014 Adrannau 12A a 12B i Ddeddf 1992 er mwyn cynnwys darpariaeth ddewisol i gynghorau i godi “Premiwm” o ddim mwy na 100% ar eiddo sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy (Adran 12A) ac ail gartrefi dosbarth B (Adran 12B)

1.5. Ar 8 Rhagfyr 2016, penderfynodd y Cyngor y byddai’n codi Premiwm o 50% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir dymor, yn weithredol o 1 Ebrill 2018. Ar 4 Mawrth 2021, penderfynodd y Cyngor y byddai’n cynyddu’r Premiwm i 100%, sef y lefel uchaf bosib dan y ddeddfwriaeth, ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, ac ar 2 Rhagfyr 2021 penderfynodd gadw lefel y Premiwm yn 100% ar gyfer 2022/23.

1.6. Mae *Rheoliadau’r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (SI 2022/370 Cy.90)* wedi addasu Adrannau 12A a 12B Deddf 1992 sy’n rhoi grym i awdurdodau bilio godi premiwm o hyd ar 300% ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac eiddo gwag hir-dymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 a blynyddoedd ariannol dilynol.

1.7. Mewn ymateb i’r newid deddfwriaethol yma, ar 1 Rhagfyr 2022 penderfynodd y Cyngor gynyddu’r Premiwm ar ail gartrefi i 150% a chadw’r Premiwm ar eiddo gwag hirdymor yn 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Roedd hyn yn dilyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr yn ystod hydref 2023.

## 2. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Cyd-destun

2.1. Nid "ail gartrefi" na "tai haf" yw'r terminoleg a ddefnyddir yn Adran 12B, ond "anheddau gyda preswylio o bryd i'w gilydd (*dwellings occupied periodically*)". Mae'r Ddeddf yn datgan mai'r amodau er mwyn i eiddo fod yn destun premiwm Treth Cyngor "ail gartref" yw, "***there is no resident of the dwelling, and the dwelling is substantially furnished***". Hynny yw, nad yw'r eiddo yma yn brif gartref i unrhyw un, ond mae wedi cael ei ddodrefnu. Nid yw'r Ddeddf yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i allu gwahaniaethu ar sail lle mae'r perchennog yn byw, neu os yw'n cael ei ddefnyddio at bwrpasau gwyliau.

2.2. Yn *Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998 (SI 1998/105)* mae 'ail gartrefi' wedi'u categoreiddio i ddau ddosbarth, sef dosbarthau A a B, tra bod dosbarth C yn cyfeirio at eiddo gwag:

- **Dosbarth A** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.
- **Dosbarth B** – Annedd lle nad oes trigolyn, sydd wedi'u dodrefnu'n sylweddol a nid oes cyfyngiad cyfreithiol ar ei feddiant.
- **Dosbarth C** – Annedd sydd yn ddiddeiliad a heb ei ddodrefnu'n sylweddol.

2.3. Diffinnir "trigolyn" mewn perthynas ag unrhyw annedd fel unigolyn sydd wedi cyrraedd 18 mlwydd oed gyda'u prif neu unig breswylfa yn yr annedd (Adran 6(5) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992).

2.4. Fel canlyniad i'r newidiadau a daeth i rym yn sgil Deddf Tai (Cymru) 2014, ystyriwyd y mater gan y Cyngor Llawn ar 8 Rhagfyr 2016, a penderfynodd godi Premiwm o 50% yn 2018/19 ar ail gartrefi dosbarth B ac ar eiddo gwag hir dymor dosbarth C (gwag am 12 mis neu fwy).

2.5. Mae'r holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad cyntaf i godi Premiwm i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=1656&ver=4

2.6. Ar 4 Mawrth 2021 penderfynodd y Cyngor y byddai'n cynyddu lefel y Premiwm i 100% ar eiddo perthnasol. Mae holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad hwn i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=4215&ver=4&

2.7. Yna, ar 1 Rhagfyr 2022 penderfynodd y Cyngor y byddai'n ymateb i'r newid deddfwriaethol a chynyddu lefel y Premiwm ar ail gartrefi i 150% ond cadw'r premiwm ar 100% i eiddo gwag hirdymor. Mae holl bapurau cefndir mewn perthynas â'r penderfyniad hwn i'w cael ar wefan Cyngor Gwynedd:

https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=4635&ver=4&

2.8. Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu fod rhaid gwneud penderfyniad yn unol ag Adrannau 12, 12A a 12B yn flynyddol, a hynny gan y Cyngor llawn.

2.9. Mae strategaeth ariannol 2024/25, a setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru, wedi'i seilio ar barhad y polisi i ganiatáu DIM disgownt, a byddai rhaid i unrhyw newid i'r polisi hwnnw gael ei ariannu gan y Cyngor yn 2024/25.

2.10. Mae'r rheoliadau ar gyfer gosod sylfaen y dreth wedi eu llunio fel nad yw penderfyniad i godi Premiwm yn effeithio ar setliad grant y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.

2.11. Ar 6 Tachwedd 2023 roedd:

- **4,027** eiddo yn destun y Premiwm ar ail-gartrefi (Dosbarth B)
- **274** o ail gartrefi pellach yn Dosbarth B ond ddim yn talu'r Premiwm gan eu bod yn destun un o'r eithriadau a amlinellir yn Rhan 8 isod.
- **766** eiddo o fewn Dosbarth A lle mae'r meddiant yn cael ei wahardd am gyfnod o 28 diwrnod o leiaf yn y flwyddyn berthnasol.

2.12. Ar yr un adeg, roedd **1,064** eiddo yn destun y Premiwm ar annedd gwag hirdymor.

2.13. Gellir gweld sut mae'r niferoedd wedi newid yn y tabl isod:

| | Gorffennaf 2016 | Tachwedd 2020 | Tachwedd 2022 | Tachwedd 2023 |
|---|---|---|---|---|
| Ail-gartrefi Dosbarth B* | 4,841 | 4,718 | 4,564 | 4,027 |
| Annedd gwag hirdymor | 1,115 | 1,130 | 1,099 | 1,064 |

** eithriad ddim yn berthnasol*

2.14. Gwelir o'r uchod fod gostyngiad arwyddocaol wedi ei weld yn nifer yr ail gartefi sy'n destun y Premiwm yn ystod y cyfnod.

Gofynion Statudol

2.15. Wrth roi'r grym i gynghorau i godi Premiwm (yn wreiddiol hyd at 100% ac yna hyd at 300%) ar Dreth Cyngor ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, reodd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer gweinyddu'r Premiwm, sef *Canllawiau Gweithredu Premiymau'r Dreth Gyngor ar Gartrefi Gwag Hirdymor ac Ail Gartrefi yng Nghymru*. Cyhoeddwyd ail fersiwn o'r Canllawiau Statudol ym Mawrth 2023 ac mae copi o'r Canllawiau Statudol newydd hyn i'w gael yn Atodiad 1.

2.16. Mae fersiwn flaenorol a fersiwn gyfredol y Canllawiau yn amlinellu'r hyn sydd angen i awdurdod lleol ei ystyried pan yn bwriadu cyflwyno Premiwm. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i rhain yn 2016 pan benderfynodd Cyngor Gwynedd gyflwyno Premiwm o 50% ar ail gartrefi ac anheddau gwag hirdymor, ac yna bob blwyddyn pan yn dod i benderfyniad ar y Premiwm ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Dyma ddywed y fersiwn gyfredol:

> Mae ystod o ffactorau a allai helpu awdurdodau lleol i benderfynu a ddylid codi premiwm ai peidio. Bydd rhai ffactorau yn benodol i eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi, ond bydd ffactorau eraill yn berthnasol i'r ddau.
>
> Mae'r ffactorau hyn wedi'u rhestru isod er mwyn helpu awdurdodau lleol. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.
>
> • Nifer a chanrannau'r eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi yn yr ardal leol.
> • Dosbarthiad eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd penodol.
> • Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth.
> • Patrymau o ran y galw am gartrefi fforddiadwy a faint ohonynt sydd ar gael.
> • Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol.
> • Yr effaith bosibl ar y gymuned leol.
> • Yr effaith bosibl ar y Gymraeg.
> • Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn cynyddu'r cyflenwad tai a nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael.
> • Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn helpu i sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto.

**Ail Gartrefi**

2.17. Wrth ddod i benderfyniad yn Rhagfyr 2022 i gynyddu lefel y Premiwm rhoddwyd sylw i sawl astudiaeth er mwyn casglu tystiolaeth:

- Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau sy'n rhoi cefndir o'r sefyllfa yng Ngwynedd o safbwynt "cartrefi gwyliau", ac effaith gyfunol ail gartrefi ac unedau gwyliau hunan-ddarpar ar gymdeithas Gwynedd (Rhagfyr 2020):

  Adroddiad Cabinet:
  https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27960/Eitem%207%20-%20Adroddiad_GwaithYmchwilTaiGwyliau.pdf?LLL=1

  Atodiad – Ymchwil:
  https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27959/Eitem%207%20-%20Atodiad%20-%20Ymchwil.pdf?LLL=1

- Cyhoeddwyd "Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru" (awdur Dr Simon Brooks) mewn ymateb i gomisiwn gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn Llywodraeth Cymru (Mawrth 2021):

  Ail gartrefi: Datblygu polisïau newydd yng Nghymru

  Ymateb y Cyngor i'r adroddiad:

  Ymateb Cyngor Gwynedd i'r adroddiad "Ail Gartrefi - Datblygu Polisiau Newydd Yng Nghymru"

**Anheddau Gwag**

2.18. Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2023 roedd Cyngor Gwynedd wedi codi'r un raddfa Premiwm ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Un o'r rhesymau am hyn oedd ymarferoldeb cadw trosolwg o'r eiddo oedd wedi eu dodrefnu a'r rhai sydd ddim (sef y gwahaniaeth ymarferol rhwng y ddau fath o eiddo).

2.19. Fodd bynnag, penderfynodd y Cyngor yn Rhagfyr 2022 y byddai'n cadw lefel y Premiwm ar ail gartrefi hirdymor yn 100% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24.

2.20. Dylid nodi hefyd fod cyfanswm o 1,064 eiddo gwag hir-dymor, tra'n gymharol isel o'i gymharu â nifer yr ail gartrefi o fewn Gwynedd, yn ffigwr uchel pan yn ystyried y galw am gartrefi fforddiadwy o fewn y sir ac mae hyn wedi ei gydnabod yn y Strategaeth Tai.

Strategaeth Tai 2019-2024

2.21. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ei Strategaeth Tai 2019-2024, "Cartrefi i Bobl Gwynedd" yng Ngorffennaf 2019:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Tai/Strategaeth-Tai-v29-Terf-Cymraeg.pdf

2.22. Mae'r Strategaeth yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd". Mae'r Strategaeth yn nodi'r canlynol am dai gwag: "*Rydym wedi adnabod oddeutu 1,300 o dai gwag ar draws y Sir. Mae'r rhain yn dai sydd wedi bod yn wag ers peth amser a gall eu cyflwr fod yn wael iawn. Mae hyn yn wastraff adnodd wrth ystyried bod agos i 2,000 o bobl ar restr aros y Cyngor. Credwn nad yw'r rhestr tai gwag yn gyflawn, a bod angen cynyddu'r ymdrech i'w canfod a'u dychwelyd i ddefnydd fel cartrefi i'n trigolion".*

## 3. CYNLLUN GWEITHREDU TAI

3.1. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn trosi'r Strategaeth Dai i mewn i brosiectau penodol er mwyn mynd i'r afael â'r sefyllfa.

3.2. Yn 2019 fe sefydlodd y Cyngor yr Adran Tai ac Eiddo newydd oherwydd ei fod wedi adnabod yr angen i fod yn cyflawni mwy yn y maes tai. Roedd trigolion Gwynedd yn wynebu nifer o heriau ar y pryd sy'n golygu ei bod yn eithriadol o heriol cael mynediad at gartrefi addas o fewn ein cymunedau. Mae'r Cyngor wedi datgan yn glir nad yw hyn yn sefyllfa gynaliadwy a bod angen iddo fod yn ymateb ym mhob ffordd posib.

Adroddiad Cabinet:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27956/Eitem%206%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai%20TERFYNOL.pdf?LLL=1

Mae dolen i'r Cynllun Gweithredu Tai i'w gael yma:
https://democratiaeth.gwynedd.llyw.cymru//documents/s27957/Eitem%206%20-%20Atodiad%20A%20-%20Cynllun%20Gweithredu%20Tai.pdf?LLL=1

3.3. Wrth fabwysiadu'r Cynllun, roedd y Cyngor yn gwybod y byddai angen cyfres o fesurau, nifer ohonynt tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y Cyngor ar hyn o bryd, os am allu sicrhau gwir degwch i drigolion lleol yn y maes tai. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn un o'r mesurau hynny ac yn caniatáu i'r Cyngor anelu i weithredu i'r eithaf o'n gallu uniongyrchol er mwyn ceisio unioni'r sefyllfa bresennol.

3.4. Er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cymryd pob cyfle o fewn ei reolaeth uniongyrchol yn y maes tai, mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys 33 o brosiectau gwahanol wedi eu teilwra i geisio ymateb i bob un o'i amcanion yn y maes hwn, sef:

- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

## 4. TROSGLWYDDIADAU UNEDAU GWYLIAU HUNAN-DDARPAR

4.1. Pan wnaethpwyd y penderfyniad gwreiddiol i godi Premiwm, adnabuwyd y risg o gyflymiad yn y nifer o eiddo sy'n trosglwyddo i fod yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, sy'n destun ardrethi annomestig. Byddai hyn oherwydd fod Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr wedi dyfarnu eu bod yn cwrdd â'r trothwy i allu gwneud hynny.

4.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newid deddfwriaethol sydd wedi bod yn effeithiol ers 1 Ebrill 2023 ymlaen ar unedau gwyliau hunan-ddarpar. Effaith *Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022 (SI 2022/563 (Cy. 129))* yw fod Adran 66 Deddf 1988 wedi cael ei addasu fel y bydd angen i annedd fod wedi bod ar gael i'w osod am 252 diwrnod yn y flwyddyn ddiwethaf, fod bwriad ei osod am 252 diwrnod yn y flwyddyn nesaf, ac fod eiddo wedi cael ei wir osod am 182 diwrnod yn y flwyddyn ddiwethaf (o'i gymharu â 70 diwrnod yn flaenorol).

4.3. Wrth ddod i benderfyniad ar y Premiwm mewn blynyddoedd blaenorol, rhoddwyd ystyriaeth i'r risg y byddai cynyddu'r Premiwm yn cymell mwy o berchnogion ail gartrefi i osod eu heiddo a'i drosglwyddo i'r rhestr ardrethi annomestig. Er fod y risg yma yn parhau i fodoli, mae'r cynnydd sylweddol yn y nifer o ddyddiau lle mae'n rhaid gosod eiddo yn debygol o arwain at arafu arwyddocaol yn y gyfradd drosglwyddo.

4.4. Mae'r ffigyrau diweddaraf (hyd at ddiwedd Hydref 2023) yn dangos fod cyfanswm o 3,214 eiddo yng Ngwynedd wedi trosglwyddo o'r rhestr Treth Cyngor i'r rhestr Ardrethi Annomestig, wedi i Asiantaeth Swyddfa'r Prisiwr ddynodi'r eiddo yn unedau gwyliau hunan-ddarpar, yn unol ag Adran 66(2BB) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Mae oddeutu 90% o'r eiddo sy'n trosglwyddo yn derbyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bychain llawn, sy'n golygu nad oes unrhyw drethiant lleol yn daladwy arnynt:

| Blwyddyn ariannol | Nifer eiddo'n trosglwyddo (gros) |
|---|---|
| 2023-24 (hyd at 31/10/2023) | 100 |
| 2022-23 | 452 |
| 2021-22 | 469 |
| 2020-21 | 506 |
| 2019-20 | 397 |
| 2018-19 | 454 |
| 2017-18 | 282 |
| 2016-17 | 199 |
| 2015-16 | 167 |
| 2014-15 | 188 |
| **Cyfanswm** | **3,214** |

4.5. Fodd bynnag, mae tystiolaeth yn dangos fod y tueddiad yn dechrau gwyrdroi. Wrth gymharu'r cyfnod rhwng Ebrill a Hydref yn 2022 a 2023 gellir gweld fod mwy o eiddo net wedi trosglwyddo yn ôl i Dreth Cyngor nag sydd wedi symud i Ardrethi Annomestig:

**Trosglwyddiadau Rhwng Ardrethi Annomestig a Treth Cyngor, Ebrill i ddiwedd Hydref:**

| | 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|---|
| Treth Cyngor i Ardrethi Annomestig | 246 | 100 |
| Ardrethi Annomestig i Treth Cyngor | 138 | 181 |
| Effaith Net | -108 | 81 |

4.6. Ymddengys felly fod y trothwyon uwch yn cael effaith ar y sefyllfa, ond bydd angen data am gyfnod hirach i weld y tueddiad tymor hir.

Gwaith Ymchwil a Chasgliadau

4.7. Am y tro cyntaf, felly, mae nifer yr ail gartrefi a nifer yr unedau gwyliau hunanddarpar wedi dangos gostyngiad dros y misoedd diwethaf.

4.8. Mae hyn yn awgrymu bod y cynnydd yn y premiwm a / neu tynhau'r rheoliadau ar unedau gwyliau ar gyfer y dreth fusnes wedi newid y patrwm yn arwyddocaol.

4.9. Mae'r patrwm diweddar yma yn ymddangos yn eithaf cyson ar draws y sir, boed hynny mewn cymunedau â chyfran uchel neu chyfran isel o ail gartrefi fel ei gilydd.

4.10. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau sy'n effeithio ar benderfyniadau perchnogion eiddo, gan gynnwys newidiadau yn yr amodau cynllunio trwy rym "Erthygl 4".

4.11. Mae gwaith ymchwil manwl i'r tueddiadau hyn yn cael eu cynnal gan Uned Wybodaeth ac Ymchwil y Cyngor, ond eu casgliad presennol yw nad oes digon o ddata ar gael ar hyn o bryd i allu dod i farn bendant.

4.12. **I grynhoi, roedd y penderfyniad ar lefel y Premiwm ar gyfer 2023/24 yn ganlyniad i waith ymchwil manwl ac ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr. Nid oes tystiolaeth yn bodoli ar hyn o bryd fyddai'n cyfiawnhau gosod lefel wahanol ar gyfer y Premiwm yn 2024/25**.

## 5. EITHRIADAU

5.1. Mae Deddf 1992 yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi'r hawl i Weinidogion Cymru osod eithriadau penodol (mewn dosbarthiadau) lle na ellir gosod premiwm Treth Cyngor. Gwnaethant hynny trwy Mae'r tabl isod yn crynhoi'r eithriadau lle na allwn godi'r premiwm yn unol â Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 (SI 2015/2068) (fel y'i diwygwyd). Mae'r tabl isod yn amlinellu'r eithriadau lle na ellir codi Premiwm:

| **Dosbarthiadau o Anheddau** | **Diffiniad** | **Y math o eiddo sy'n gymwys i'r eithriad rhag talu'r premiwm** |
|---|---|---|
| Dosbarth 1 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar werth - gyda therfyn amser o un flwyddyn | Cartrefi Gwag Hir dymor ac Ail Gartrefi |
| Dosbarth 2 | Anheddau sy'n cael eu marchnata fel rhai ar osod - gyda therfyn amser o un flwyddyn | |
| Dosbarth 3 | Anecsau sy'n ffurfio rhan, neu sy'n cael eu trin fel rhan, o'r brif annedd | |
| Dosbarth 4 | Anheddau fyddai'n unig neu brif breswylfa rhywun pe na bai yn preswylio yn llety'r Lluoedd Arfog | |
| Dosbarth 5 | Safleoedd carafanau ac angorfeydd cychod. | Ail Gartrefi |
| Dosbarth 6 | Annedd y mae'r meddiannaeth yn cael ei gyfyngu gan amod cynllunio—<br>(a) sy'n atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o 28 o ddiwrnodau o leiaf mewn unrhyw gyfnod o flwyddyn;<br>(b) sy'n pennu y gellir defnyddio'r annedd ar gyfer gwyliau yn unig; neu<br>(c) sy'n atal deiliadaeth fel unig neu brif breswylfa person. | |
| Dosbarth 7 | Anheddau cysylltiedig â gwaith | |

5.2. Byddai angen defnyddio Adran 13A o Ddeddf 1992 i gyflwyno unrhyw eithriadau lleol, dewisol. Mater i'r Cabinet yw defnydd Adran 13A, nid yw'n fater sy'n rhaid cael penderfyniad Cyngor llawn.

5.3. Felly, gellir ymdrin ag eithriadau fel mewn adroddiad Cabinet ar wahân cyn diwedd Mawrth 2024.

## 6. DEFNYDD Y PREMIWM

6.1. Ers cyflwyno'r Premiwm ar gychwyn blwyddyn ariannol 2018/19, mae'r arian sy'n cael ei gasglu trwy'r Premiwm wedi cael ei osod mewn cronfa benodol, a hynny er mwyn ariannu prosiectau penodol sydd wedi cael eu hamlinellu yn y Cynllun Gweithredu Tai.

6.2. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi'n glir pa gynlluniau unigol sydd i gael eu hariannu gydag arian y Premiwm.

6.3. Mae hyn yn gyson gyda dyhead aelodau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, sy'n nodi disgwyliad, ond nid gorfodaeth, fod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y maes tai.

6.4. Mae nifer o'r prosiectau yn y Cynllun Gweithredu Tai yn rhai gellir eu ehangu petai mwy o adnoddau ar gael iddynt. Ar y llaw arall, mae chwyddiant yn golygu fod costau prosiectau adeiladu wedi cynyddu yn sylweddol ers mabwysiadu'r Cynllun Gweithredu Tai yn 2020.

6.5. Dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn y pandemig Covid-19, dod â'r Grant Caledi Llywodraeth Cymru i ben, y pwysau ar deuluoedd yn sgil yr argyfwng costau byw a penderfyniad landlordiaid i ddod â thenantiaethau i ben, mae'r pwysau ar Wasanaeth Digartrefedd y Cyngor wedi cynyddu'n aruthrol.

6.6. Byddai pob 50% o gynnydd yn y Premiwm yn cyfrannu oddeutu £3m i'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor.

6.7. Wrth osod lefel y Premiwm ar gyfer 2023/24 penderfynwyd y byddai'r cynnyrch Premiwm ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo i ymdrin â'r gorwariant sylweddol yn y maes digartrefedd, neu i ddargyfeirio peth o'r cynnyrch presennol at y pwrpasau hyn.

6.8. Ar adeg ei fabwysiadu yn 2020, roedd cyfanswm amcangyfrif gost yr holl gynlluniau yn y Cynllun Gweithredu Tai (am y cyfnod 2020/21 – 2026/27) yn £77.1m, gyda £22.9m o hwn yn cael ei ariannu allan o'r Premiwm Treth Cyngor. Ers cymeradwyo'r Cynllun, mae chwyddiant uchel wedi cynyddu amcan bris nifer o'r prosiectau hyn.

## 7. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

7.1. Fel gyda phob penderfyniad pellgyrhaeddol, rhaid i'r Cyngor roi'r ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Cymru 2011 ac i'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.

7.2. Gwnaed y penderfyniad cyntaf i gyflwyno Premiwm yn Rhagfyr 2016, yn dilyn ystyriaeth o Asesiad Effaith Cydraddoldeb oedd wedi ei gynnal yn unol â'r gofynion statudol sydd ar y Cyngor.

7.3. Cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb cynhwysfawr wrth ystyried cynyddu'r Premiwm ym Mawrth 2021. Ers hynny, daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021, sy'n berthnasol i Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn golygu fod rhaid i'r Cyngor, wrth wneud "penderfyniadau strategol" megis penderfynu ar flaenoriaethau a gosod amcanion, ystyried sut y gallai ei benderfyniadau helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Ymddengys y byddai graddfa'r Premiwm ar ail gartrefi ac anheddau gwag hir-dymor yn "benderfyniad strategol" yn unol â'r ddyletswydd yma.

7.4. Fel nodir yn "Cefndir Deddfwriaethol" uchod, cyflwynwyd y grym i godi premiwm gan y Ddeddf Tai, gyda'r disgwyliad sylfaenol fod y rhai sy'n gallu fforddio mwy nag un eiddo yn cynorthwyo awdurdodau lleol yn ariannol i ymdrin â phroblemau tai yn eu hardaloedd, yn arbennig y rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas sy'n methu cael cartref o gwbl.

7.5. Wrth benderfynu yn Chwefror 2021 i argymell i'r Cyngor llawn gynyddu lefel y Premiwm i 100%, ac yna i gynyddu lefel y Premiwm ar ail gartrefi i 150% yn Rhagfyr 2022, nododd aelodau'r Cabinet fod argyfwng tai o fewn y sir. Pwysleisiwyd yr egwyddor fod y Cyngor yn awyddus i drigolion gael cartrefi yn eu cymunedau, i sicrhau cymunedau sydd yn ffynnu. Ategwyd fod tai yn flaenoriaeth ac fod gofyn i sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn gweithredu'r Strategaeth Dai.

7.6. Credwn mai nod greiddiol y Premiwm, felly, ydi lleihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol.

7.7. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn adlewyrchu gofynion a datblygiadau diweddar, amgylchiadau newidiol, a chanlyniadau'r ymgynghoriad cynhwysfawr a gynhaliwyd yn 2022.

7.8. Canlyniad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb a gwblhawyd yn 2022 wrth osod lefel gyfredol y Premiwm yw fod ychydig o dystiolaeth y byddai cynyddu'r premiwm ar ail-gartrefi yn gwahaniaethau yn erbyn grŵp gwarchodedig, gyda data yn awgrymu fod perchnogion ail gartrefi yn tueddu i fod yn bobl hŷn ac yn adnabod eu hunain fel Saeson. Bwriad y polisi o safbwynt Premiwm Treth Cyngor yw cydnabod fod eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn cynyddu rhai o broblemau cymdeithasol Gwynedd, a dylai'r perchnogion wneud cyfraniad ariannol i liniaru peth o'r anfanteision maent yn eu hachosi.

7.9. Mae honiad wedi ei wneud fod y polisi o godi'r Premiwm yn un hiliol oherwydd lle mae perchnogion ail gartrefi yn byw, ond mae nifer o'r rhai sydd wedi ateb yr ymgynghoriad yn nodi mai Cymry sydd yn berchen ar eiddo yng Ngwynedd tra fod eu prif gartref y tu allan i Gymru. Bydd y Premiwm yn cael ei godi yn seiliedig ar nodweddion yr eiddo, nid nodweddion y perchennog, a bydd effaith bositif os ydi teuluoedd lleol yn gallu fforddio prynu eiddo yn eu hardal leol yn hytrach na gorfod symud i ffwrdd i gael cartref. Mae cydnabyddiaeth fod effaith ariannol negyddol ar bobl sy'n byw tu allan i Wynedd, gyda nifer helaeth ohonynt yn adnabod eu hunain fel Saeson. Yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 mae cynyddu lefel y Premiwm yn fodd cymesur o gyflawni nod ddilys, sef ariannu materion yn y maes Tai sy'n mynd i'r afael â peth o'r niwed mae ail gartrefi ac anheddau gwag yn eu hachosi i gymunedau Gwynedd.

7.10. Roedd asesiad 2022 hefyd yn dod i gasgliad y byddai'r Premiwm yn cael effaith bositif ar y cyfan ar yr iaith Gymraeg a chydbwysedd cymunedau gan fod cynnyrch y premiwm yn ariannu'r Cynllun Gweithredu Tai sy'n cynorthwyo teuluoedd lleol i brynu tŷ fforddiadwy. Fodd bynnag, nodir fod hyn yn ganlyniad nifer o ffactorau positif a negyddol sy'n effeithio ar yr Iaith, sy'n cael sylw mewn nifer o fannau yn yr adroddiad yma a'r atodiadau.

## 8. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

8.1. Mae dyletswydd i weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sef ceisio sicrhau fod anghenion y presennol yn cael ei ddiwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Wrth weithredu yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol yma mae angen i'r Cyngor ystyried pwysigrwydd effaith hirdymor, bod yn integredig, cynhwysol, cydweithio ac ataliol wrth ddatblygu a gweithredu'r cynnig gerbron.

8.2. Yn unol â gofynion y Ddeddf, mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu amcanion llesiant. Tynnir sylw penodol at yr amcanion canlynol:

- Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor
- Trigolion sy'n Iach ac yn Annibynnol gyda Safon Bywyd Da

8.3. Mae'r Premiwm presennol yn ariannu Cynllun Gweithredu Tai y Cyngor, sy'n ymgais ragweithiol i gryfhau cynaladwyedd y cymunedau hynny o fewn Gwynedd sydd â nifer uchel o ail gartrefi a thai gwag hir dymor.

8.4. Mae Strategaeth Tai y Cyngor yn nodi'r weledigaeth o "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".

8.5. Mae'r Strategaeth yn adnabod pum amcan yr oedd yn rhaid ceisio eu cyfarch os oedd y Cyngor am gyflawni'r weledigaeth hon:

1. Neb yn ddigartref yng Ngwynedd
2. Tai cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un
3. Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt
4. Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
5. Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

8.6. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o brosiectau sydd, gyda'i gilydd, yn mynd ati i wireddu'r amcanion hyn.

**DOGFENNAU CEFNDIR**

1. Gwaith Ymchwil Tai Gwyliau (Rhagfyr 2020)
2. Strategaeth Tai
3. Cynllun Gweithredu Tai
4. Ail Gartrefi – Datblygu Polisïau Newydd yng Nghymru (Dr Simon Brooks)
5. Ymateb y Cyngor i adroddiad Brooks

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**Swyddog Monitro:**

Fel y nodir yn yr adroddiad mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud penderfyniad ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae'n briodol felly fod penderfyniad ar gyfer Disgowntiau a Premiwm Treth Cyngor yn derbyn ystyriaeth gan y Cyngor llawn. Fe nodir yn yr adroddiad fod proses ymgynghori wedi ei chynnal ar gyfer cynyddu lefel y premiwm i 150% ar gyfer 2022/23. Gan nad yw'r argymhelliad yn gwyro oddi wrth y penderfyniad yma mae'n dderbyniol dod i'r farn nad oes angen ymgynghori eto.

**Pennaeth Cyllid:**

Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CANLLAWIAU

# Treth Gyngor ar dai gwag ac ail gartrefi

Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar bremiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 9 Mawrth 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 9 Mawrth 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cynnwys

Rhagymadrodd

Rhan 1: gweithredu premiwm y dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol yng Nghymru

Rhan 2: gweinyddu a Gorfodi

Rhan 3: monitro ac adrodd ar bremiymau'r dreth gyngor

Rhan 4: apeliadau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Rhagymadrodd

Ers 1 Ebrill 2017, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gallu codi premiwm o hyd at 100% o gyfradd safonol y dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol (y cyfeirir atynt yn fwy cyffredin fel ail gartrefi) yn eu hardaloedd. O 1 Ebrill 2023, bydd y premiymau uchaf y gall awdurdodau lleol eu pennu ar gyfer y dreth gyngor yn cynyddu i 300%. Pwerau disgresiwn yw'r pwerau a roddir i awdurdodau lleol, felly mater i bob awdurdod lleol fydd penderfynu a fydd yn codi premiwm ar eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi (neu'r ddau).

Diben y canllawiau hyn yw sicrhau bod dull teg a chyson yn cael ei ddefnyddio ledled Cymru a helpu awdurdodau lleol i wneud y canlynol:

- penderfynu a ddylid codi premiwm neu ddiwygio premiwm yn eu hardal leol
- gweinyddu a gorfodi premiymau
- cymhwyso'r eithriadau
- monitro ac adrodd ar y defnydd a wneir o bremiymau

Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar bremiwm ar gyfradd safonol y dreth gyngor fel y nodir yn adrannau 12A (3) a 12B (4) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (‘Deddf 1992’) fel y'u mewnosodwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (‘Deddf 2014’).

Ni ddylid trin y canllawiau hyn fel dehongliad o'r ddeddfwriaeth. Mater i'r awdurdod lleol yn y lle cyntaf yw dehongli'r ddeddfwriaeth, a'r llysoedd sy'n gyfrifol am roi dehongliad diffiniol.

# Rhan 1: gweithredu premiwm y dreth gyngor ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## feddiennir yn gyfnodol yng Nghymru

### Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer premiymau'r dreth gyngor

Mae’r adran hon yn amlinellu'r fframwaith cyfreithiol sy'n berthnasol i'r premiwm ar anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol. Caiff gofynion penodol ar gyfer eiddo gwag hirdymor yn Adran 12a, a chaiff gofynion penodol ar gyfer anheddau a feddiennir yn gyfnodol yn Adran 12b.

Adrannau 12A a 12B i alluogi awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) yng Nghymru i ddatgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd i anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol a chymhwyso swm uwch o dreth gyngor (premiwm).

Diwygiodd Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Anheddau Gwag Hirdymor ac Anheddau a Feddiennir yn Gyfnodol) (Cymru) 2022 (‘Rheoliadau 2022’) adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 gan gynyddu'r swm uwch o dreth gyngor y gall awdurdod bilio (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol) ei gymhwyso i anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol i 300% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023 i 2024 a blynyddoedd dilynol.

Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu codi premiwm, rhaid iddo gyhoeddi hysbysiad o'r penderfyniad mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ei ardal o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad.

Yn ogystal, os bydd awdurdod bilio yn penderfynu codi premiwm, bydd hyn yn datgymhwyso unrhyw ddisgownt a ganiatawyd o dan adran 11(2)(a) o Ddeddf 1992 ar gyfer anheddau lle nad oes preswylwyr.

Gall awdurdod bilio wneud, amrywio, neu ddirymu penderfyniad a wnaed o dan adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992, ond dim ond cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddi. Drwy arfer y pwerau hyn, gall

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

awdurdod bilio hefyd benderfynu ar y mathau neu’r dosbarthiadau o eiddo yn y categorïau anheddau gwag hirdymor neu ail gartrefi y byddant yn cymhwyso premiwm iddynt. Mae hyn yn galluogi pob awdurdod i deilwra ei benderfyniadau at amgylchiadau lleol.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau hefyd o dan adran 12A(4) a 12A(5), a 12B(5) a 12B(6) o Ddeddf 1992 i ragnodi, drwy reoliadau, ddosbarthiadau penodol o anheddau na ellir codi premiwm arnynt. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Eithriadau rhag Symiau Uwch) 2015 yn rhagnodi'r eithriadau ac fe'u nodir yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn.

Mae system y dreth gyngor eisoes yn darparu sawl eithriad penodol rhag y dreth gyngor. Mae'r grwpiau esempt wedi'u nodi yng Ngorchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992 (fel y'i diwygiwyd). Mae sawl esemptiad ar gyfer anheddau sydd heb eu meddiannu, er enghraifft:

- pan fo'r preswylydd yn yr ysbyty neu mewn lleoliad gofal preswyl hirdymor
- pan fo adeiladwaith annedd yn cael ei atgyweirio (am hyd at flwyddyn)
- pan fo'r preswylydd wedi marw (am hyd at chwe mis ar ôl y grant profiant neu lythyrau gweinyddu)

Ni ellir codi premiwm ar annedd sy'n esempt rhag y dreth gyngor. Fodd bynnag, os nad yw annedd yn gymwys i gael esemptiad mwyach, ac nid oes neb yn ei meddiannu o hyd, gellir codi premiwm arni os oes un yn gymwys. Yn achos annedd wag, gellir codi premiwm arni ar ôl iddi fod yn wag am gyfnod parhaus o flwyddyn, a bydd hyn yn cynnwys y cyfnod y bydd unrhyw esemptiad wedi cael ei gymhwyso ar ei gyfer.

## Adran 12A: swm uwch ar gyfer anheddau gwag hirdymor

At ddiben yr adran hon, caiff annedd wag hirdymor ei diffinio fel annedd nad yw'n cael ei meddiannu ac sydd heb fawr o ddodrefn am gyfnod parhaus o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

flwyddyn o leiaf.

Os caiff annedd ei dodrefnu neu'i meddiannu am un neu fwy o gyfnodau o chwe wythnos neu lai yn ystod y flwyddyn, ni fydd hyn yn effeithio ar ei statws fel annedd wag hirdymor. Hynny yw, ni all person newid statws annedd fel annedd wag hirdymor drwy feddiannu neu ddodrefnu'r annedd am gyfnod byr.

Os bydd awdurdod lleol yn penderfynu codi premiwm ar anheddau gwag hirdymor, gall bennu canrannau gwahanol ar gyfer anheddau gwahanol yn seiliedig ar y cyfnod y maent wedi bod yn wag. Mae hyn yn galluogi awdurdodau lleol i weithredu fesul cam, gan gynyddu premiymau yn raddol dros amser.

## Adran 12B: swm uwch ar gyfer anheddau a feddiennir yn gyfnodol

At ddiben yr adran hon, caiff ail gartref ei ddiffinio fel annedd nad yw'n unig neu brif gartref person ac sydd wedi'i dodrefnu'n sylweddol. Mae Deddf 1992 yn cyfeirio at yr anheddau hyn fel anheddau a feddiennir yn gyfnodol ond cyfeirir atynt yn gyffredin fel ‘ail gartrefi’.

Er mwyn i bremiwm fod yn gymwys i anheddau a feddiennir yn gyfnodol, rhaid i awdurdod bilio wneud ei benderfyniad cyntaf o dan adran 12B o leiaf flwyddyn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn berthnasol iddi.

O hyn ymlaen, bydd y canllawiau yn cyfeirio at eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

## Penderfynu codi premiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi

Bwriedir i'r disgresiwn a roddir i awdurdodau lleol godi premiwm fod yn adnodd i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

helpu i wneud y canlynol:

- sicrhau bod eiddo gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto er mwyn darparu cartrefi diogel a fforddiadwy
- helpu awdurdodau lleol i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy a gwneud cymunedau lleol yn fwy cynaliadwy

Gall awdurdodau lleol gymhwyso premiymau i eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi neu'r ddau, a gallant bennu premiymau gwahanol i bob dosbarth.

Cafodd y pwerau eu dylunio'n benodol i fod yn bwerau disgresiwn er mwyn galluogi awdurdodau lleol i'w defnyddio yn eu ffyrdd eu hunain i fynd i'r afael â blaenoriaethau lleol ac adlewyrchu'r patrymau gwahanol o ran argaeledd tai a'r angen am dai sydd i'w gweld ledled Cymru.

Mae ystod o ffactorau a allai helpu awdurdodau lleol i benderfynu a ddylid codi premiwm ai peidio. Bydd rhai ffactorau yn benodol i eiddo gwag hirdymor neu ail gartrefi, ond bydd ffactorau eraill yn berthnasol i'r ddau. Mae'r ffactorau hyn wedi'u rhestru isod er mwyn helpu awdurdodau lleol. Nid yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr.

- Nifer a chanrannau'r eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi yn yr ardal leol.
- Dosbarthiad eiddo gwag hirdymor a/neu ail gartrefi a thai eraill ledled yr awdurdod ac asesiad o'u heffaith ar werthoedd eiddo mewn ardaloedd penodol.
- Yr effaith bosibl ar economïau lleol a'r diwydiant twristiaeth.
- Patrymau o ran y galw am gartrefi fforddiadwy a faint ohonynt sydd ar gael.
- Yr effaith bosibl ar wasanaethau cyhoeddus lleol.
- Yr effaith bosibl ar y gymuned leol.
- Yr effaith bosibl ar y Gymraeg.
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn cynyddu'r cyflenwad tai a nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael.
- Mesurau eraill sydd ar gael i awdurdodau er mwyn helpu i sicrhau bod eiddo

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

gwag hirdymor yn cael eu defnyddio unwaith eto.

Fel arfer, bydd penderfyniad awdurdod lleol i godi premiwm o dan adran 12A neu 12B o Ddeddf 1992 yn rhan o broses pennu'r gyllideb gan ei fod yn debygol o effeithio ar benderfyniadau ynghylch gwariant a phennu trethi. Felly, caiff y penderfyniad ei wneud gan y Cyngor llawn fel rheol. Cyn gwneud hynny, rhaid i awdurdod lleol roi ystyriaeth ddyledus i'w ddyletswyddau statudol i gynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng Nghymru a ddaeth i rym yn 2011, yn ogystal ag unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.  Bydd hyn yn cynnwys ystyried sut mae ei bolisi yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn cyfrannu'n benodol at yr amcanion o greu Cymru lewyrchus; Cymru sy'n fwy cyfartal; a Chymru o gymunedau cydlynus.

Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried amseriad unrhyw benderfyniadau i gyflwyno neu amrywio premiwm ar gyfer blwyddyn ariannol. Bydd unrhyw newid i bremiwm yn newid cynlluniau refeniw awdurdod a dylai'r awdurdod gadw hyn mewn cof wrth bennu'r gyllideb. Fel rheol, disgwylir i awdurdod lleol adlewyrchu ei sylfaen drethu arfaethedig, gan gynnwys pob disgownt a phremiwm, erbyn diwedd mis Rhagfyr ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, felly mae unrhyw benderfyniadau a wneir ar ôl hyn yn peryglu hygrededd data cyhoeddedig a gallant arwain at feirniadaeth.

Dylai awdurdod lleol ystyried sut mae'n ymgysylltu ac yn ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys yr etholwyr lleol a pherchnogion ail gartrefi, cyn penderfynu codi premiwm.

Anogir awdurdodau lleol yn gryf i ymgynghori cyn gwneud penderfyniad cyntaf i godi premiwm. Ar gyfer ail gartrefi, rhaid gwneud y penderfyniad cyntaf i godi premiwm o leiaf 12 mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm arfaethedig yn berthnasol iddi. Nid yw hyn yn berthnasol i eiddo gwag ond, gan fod yn rhaid i annedd wag fod yn wag am o leiaf 12 mis cyn y gellir cymhwyso premiwm iddi, awgryma Llywodraeth Cymru y dylid gwneud penderfyniad cyntaf

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

i gymhwyso premiwm i anheddau gwag hirdymor o leiaf chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r premiwm yn berthnasol iddi. Dylai awdurdod lleol gynnal asesiad llawn o'r effeithiau posibl, gan gynnwys ar y boblogaeth leol, ei gymunedau, a'r economi leol.

Rhaid cadarnhau unrhyw fwriad i amrywio neu ddirymu penderfyniad i gymhwyso premiwm cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi. Hefyd, anogir awdurdodau lleol yn gryf i ymgynghori cyn penderfynu cynyddu premiwm uwchlaw 100% gan wneud hynny o leiaf chwe mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'r cynnydd arfaethedig i'r premiwm yn berthnasol iddi. Bydd hyn yn golygu y bydd modd ystyried y premiwm wrth bennu lefelau'r dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf a bydd yn rhoi digon o amser i drethdalwyr ystyried effaith premiwm uwch ar eu hamgylchiadau ariannol personol a gwneud dewisiadau ynghylch eu heiddo.

Ar ôl penderfynu cyflwyno neu amrywio premiwm, yn ychwanegol at y gofyniad i gyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol o fewn 21 diwrnod, dylai awdurdod lleol ystyried sut y bydd yn rhannu gwybodaeth am ei benderfyniad yn ehangach, yn enwedig i'r rhai y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt. Gellir gwneud hyn drwy gyhoeddi datganiadau i'r wasg, darparu gwybodaeth ar dudalennau gwe neu drwy lwybrau eraill er mwyn codi ymwybyddiaeth, er enghraifft, cyfathrebu'n uniongyrchol â'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor ac y mae'n debygol y bydd y premiwm yn gymwys iddynt. Dylai awdurdod lleol hefyd ystyried sut y mae'n hysbysu'r rhai nad ydynt yn byw yn yr ardal leol o bosibl ond y gallai'r penderfyniad effeithio arnynt.

## Eithriadau i bremiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi

Mae adrannau 12A a 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi un dosbarth neu fwy o anheddau na chaiff awdurdod bilio benderfynu cymhwyso premiwm iddynt. Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

(Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru) 2015 wedi'u gwneud o dan y pwerau hyn ni ellir codi premiwm ar annedd sy'n dod o dan eithriad. Rhaid i awdurdod lleol ystyried yr eithriadau hyn cyn penderfynu rhoi premiwm ar waith.

Mae'r rheoliadau yn rhagnodi saith dosbarth o anheddau esempt. Mae dosbarthiadau 1, 2, 3 a 4 yn gymwys i eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae dosbarthiadau 5, 6 a 7 yn gymwys i ail gartrefi yn unig. Amlinellir y dosbarthiadau anheddau yn y tabl canlynol a cheir rhagor o fanylion isod.

## Dosbarth 1: anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu neu lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn gyda therfyn amser o flwyddyn

### Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

## Dosbarth 2: anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod neu lle mae cynnig i rentu'r annedd wedi cael ei dderbyn gyda therfyn amser o flwyddyn

### Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dosbarth 3: anecsau sy'n rhan o'r brif annedd neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd

### Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

## Dosbarth 4: anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa i rywun pe na bai'n byw mewn llety i'r lluoedd arfog

### Cymhwyso

Eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi.

## Dosbarth 5: lleiniau carafanau ac angorfeydd cychod a feddiennir

### Cymhwyso

Ail gartrefi.

## Dosbarth 6: anheddau lle mae amod cynllunio yn nodi na ellir eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn neu'n barhaol, neu'n nodi'n benodol mai dim ond fel llety gwyliau y gellir eu defnyddio, neu'n atal person rhag eu defnyddio fel

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## unig neu brif breswylfa

### Cymhwyso

Ail gartrefi.

## Dosbarth 7: anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

### Cymhwyso

Ail gartrefi.

## Dosbarth 1: anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ar ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid bod annedd ar werth am bris sy'n rhesymol i'r annedd honno. Wrth ystyried a yw pris yn rhesymol ai peidio, dylid ystyried prisiau gwerthu anheddau tebyg yn yr ardal. Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn Rhan 2 Gweinyddu a Gorfodi er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi. Ar ôl i eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gwerthu yn gymwys i gael eithriad arall oni bai ei bod wedi cael ei gwerthu.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dosbarth 2: anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes hawl gan y tenant feddiannu'r eiddo eto am nad yw'r denantiaeth wedi dechrau.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid bod annedd ar y farchnad i'w gosod am rent rhesymol, hynny yw, y rhent y byddai disgwyl i'r eiddo ei sicrhau o ystyried y rhent a godir ar anheddau tebyg. Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn Rhan 2 Gweinyddu a Gorfodi er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi. Ar ôl i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gosod yn gymwys i gael eithriad arall oni bai bod tenantiaeth wedi cael ei rhoi am gyfnod o chwe mis neu fwy ar gyfer yr annedd honno.

## Dosbarth 3: anecsau sy'n rhan o'r brif annedd neu sy'n cael eu trin fel rhan o'r brif annedd

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ar ail gartrefi.

Mae'r eithriad hwn yn gymwys pan fydd perchennog wedi addasu ei annedd i ddarparu anecs ac mae'r anecs bellach yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r brif annedd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dosbarth 4: anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa i rywun pe na bai'n byw mewn llety i'r lluoedd arfog

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ar ail gartrefi.

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i anheddau a fyddai'n unig neu'n brif breswylfa person ond nad yw'n cael ei meddiannu am fod y person hwnnw yn byw mewn llety i'r lluoedd arfog.

Bwriedir bod yr eithriad hwn yn cynnwys aelodau o'r lluoedd arfog nad yw eu cartrefi yn cael eu meddiannu am eu bod yn byw mewn llety i'r lluoedd arfog dramor.

## Dosbarth 5: lleiniau carafanau ac angorfeydd cychod a feddiennir

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n cwmpasu anheddau sy'n cynnwys llain a feddiennir gan garafán neu angorfa a feddiennir gan gwch lle nad oes preswylydd yn byw yn y garafán neu'r cwch ar hyn o bryd, ond y bydd y garafán neu'r cwch yn unig neu'n brif breswylfa person y tro nesaf y cânt eu defnyddio.

## Dosbarth 6: cartrefi tymhorol neu lety gwyliau nad oes modd eu meddiannu drwy gydol y flwyddyn neu'n barhaol

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi. Mae'n gymwys i anheddau sy'n ddarostyngedig i amodau cynllunio sy'n golygu na allant gael eu meddiannu am gyfnod parhaus o 28 diwrnod o leiaf yn ystod unrhyw gyfnod o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

12 mis.

Caiff yr eithriad hwn ei gymhwyso'n aml i gartrefi gwyliau neu gabanau gwyliau a adeiladwyd at y diben sy'n ddarostyngedig i amodau cynllunio sy'n cyfyngu ar feddiannaeth drwy gydol y flwyddyn neu sy'n gwarchod nodweddion lleol, er enghraifft, pan fo safle gerllaw cynefin dan fygythiad y mae angen ei warchod ar adegau penodol o'r flwyddyn. Mae'r eithriad hwn yn seiliedig ar y diffiniad o'r disgownt disgresiwn presennol ar gyfer cartrefi tymhorol (Dosbarth A) yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998.

O 1 Ebrill 2023, caiff Dosbarth 6 ei ymestyn i gynnwys pob annedd a gyfyngir gan amod cynllunio sy'n:

- atal meddiannaeth am gyfnod parhaus o o leiaf 28 diwrnod yn ystod unrhyw gyfnod o flwyddyn
- nodi mai dim ond fel llety gwyliau y dylid ei defnyddio
- atal person rhag meddiannu'r annedd fel ei unig neu brif breswylfa

## Dosbarth 7: anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

Mae'r eithriad hwn ond yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi yn unig ac mae'n gymwys i anheddau a feddiennir gan berson sy'n bodloni'r amodau canlynol:

- person cymhwysol mewn perthynas â'r annedd ond sy'n preswylio mewn annedd arall sy'n gysylltiedig â'i swydd (fel y diffinnir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau)
- person cymhwysol mewn perthynas ag annedd sy'n gysylltiedig â swydd

Caiff person cymhwysol ei ddiffinio fel a ganlyn:

- person sy'n atebol i dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

ddiwrnod penodol, boed hynny ar y cyd â pherson arall ai peidio
- person a fyddai'n atebol i dalu'r dreth gyngor mewn perthynas ag annedd ar ddiwrnod penodol, boed hynny ar y cyd â pherson arall ai peidio os nad oedd yr annedd honno yn perthyn i'r canlynol (i) Dosbarth O o Orchymyn y Dreth Gyngor (Anheddau Esempt) 1992 (ii) Dosbarth E o Reoliadau'r Dreth Gyngor (Atebolrwydd Perchenogion) 1992

Mae'r eithriad hwn yn gymwys pan fo'n ofynnol i berson breswylio mewn annedd sy'n gysylltiedig â'i swydd. Mae'n gymwys i ail gartref a feddiennir yn gyfnodol am ei bod yn ofynnol i berson fyw mewn llety sy'n gysylltiedig â'i swydd rywle arall. Mae'n gymwys hefyd pan fo'r llety sy'n gysylltiedig â'r swydd yn ail gartref person.

Mae'r diffiniad o annedd sy'n gysylltiedig â swydd i'w weld yn yr Atodlen i'r Rheoliadau. Er bod yr eithriad hwn yn debyg i'r disgownt sy'n gysylltiedig â swyddi o dan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, mae'n wahanol am fod y disgownt ond yn gymwys os yw'r annedd sy'n gysylltiedig â swydd yn unig neu'n brif breswylfa person.

Ffordd arall y mae'n wahanol i'r disgownt ar gyfer anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi yw nad yw'n ofynnol i'r trethdalwr dalu'r dreth gyngor ar gyfer dwy annedd, sy'n golygu y gall person sydd â phrif gartref dramor neu annedd sy'n gysylltiedig â swydd dramor gael budd o'r eithriad hefyd.

Mae canllawiau ychwanegol ar gael yn Rhan 2 Gweinyddu a Gorfodi er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriad hwn.

## Lleihau atebolrwydd am bremiymau'r dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi

Wrth arfer y pŵer o dan adran 12A a 12B o Ddeddf 1992, gall awdurdod bilio bennu'r mathau neu ddosbarthiadau penodol o eiddo o fewn y categorïau o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eiddo gwag tymor hir neu ail gartrefi y bydd yn defnyddio premiwm iddynt neu na fydd yn cymhwyso premiwm. At hynny, o dan adran 13A o Ddeddf 1992, mae gan awdurdodau bilio bwerau disgresiwn i leihau atebolrwydd y dreth gyngor fel y gwêl yr awdurdod bilio yn dda. Gellir arfer y pŵer hwn mewn achosion penodol neu wrth benderfynu ar ddosbarth o achosion. Gellir defnyddio'r pŵer i gyflwyno unrhyw lefel o leihad i atebolrwydd y dreth gyngor, gan gynnwys mewn amgylchiadau lle gall awdurdod lleol godi premiwm fel arall. Gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r pwerau hyn, er enghraifft, i leihau neu ddatgymhwyso premiwm ac, o bosibl, fel ffordd o dargedu'r modd y maent yn defnyddio premiymau.

Dyma rai enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gall awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn:

- pan fo rhesymau pam nad oes modd byw yn yr annedd fel preswylfa barhaol
- pan fo rhesymau pam na ellir gwerthu neu osod annedd
- pan fo cynnig wedi cael ei dderbyn ar eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto ac mae cyfnod yr eithriad wedi dod i ben
- pan fo defnydd y perchennog o eiddo yn cael ei gyfyngu gan amgylchiadau nas cwmpesir gan eithriad rhag y premiwm
- lle gallai codi premiwm achosi caledi

Nid yw’r rhestr uchod yn gynhwysfawr a bydd awdurdodau bilio am ystyried pob ffactor sy'n berthnasol yn eu barn nhw wrth benderfynu lleihau atebolrwydd y dreth gyngor ar gyfer eiddo penodol neu ddosbarth o eiddo ac asesu'r effaith bosibl.

## Llety hunanddarpar

O 1 Ebrill 2023, os na fydd llety hunanddarpar yn cyrraedd y trothwyon gosod newydd a sefydlwyd gan Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio'r Diffiniad o Eiddo Domestig) (Cymru) 2022, caiff ei gyfrif fel eiddo domestig a bydd yn atebol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

i dalu'r dreth gyngor. Os bydd yr awdurdod lleol wedi penderfynu cymhwyso premiwm i ail gartrefi, bydd y perchennog yn atebol i dalu'r ffi ychwanegol hefyd oni bai bod eithriad yn gymwys i'w eiddo, neu bod yr awdurdod lleol wedi penderfynu peidio â chodi premiwm ar gyfer y math hwnnw neu’r dosbarth hwnnw o eiddo.

Gall rhai achosion godi lle byddai eiddo hunanddarpar yr ystyrir ei fod yn anaddas i fyw ynddo'n barhaol yn dod yn ddarostyngedig i'r dreth gyngor a phremiwm am nad oes eithriad yn gymwys iddo. Yn yr achosion hyn, anogir awdurdodau lleol i ystyried defnyddio eu pwerau disgresiwn i deilwra penderfyniad neu i leihau atebolrwydd y dreth gyngor er mwyn cymedroli'r effaith gan leihau'r premiwm i bob pwrpas. Byddai cadw'r atebolrwydd i dalu cyfradd safonol y dreth gyngor ar gyfer eiddo nad yw'n bodloni'r meini prawf gosod yn cyd-fynd â'r nod o sicrhau bod pawb sy'n berchen ar eiddo yn ‘gwneud cyfraniad teg’ i'w cymunedau lleol. Dyma rai enghreifftiau lle gall awdurdod lleol ystyried defnyddio'r pwerau hyn:

- tai allan neu ysguboriau a gaiff eu haddasu a'u troi yn llety gwyliau fel rhan o ymdrechion i arallgyfeirio ffermydd
- anecsau neu garejis wedi'u haddasu sy'n rhan o brif breswylfa perchennog
- carafannau neu gabanau gwyliau

Mater i'r awdurdod lleol yw penderfynu a fydd yn defnyddio'r pwerau disgresiwn yn adrannau 12A, 12B neu 13A i leihau atebolrwydd y dreth gyngor mewn perthynas â phremiwm neu i leihau rhwymedigaeth safonol y dreth gyngor, neu’r ddau, fel y bo’n briodol. Dylai’r polisi hwn gwmpasu amrywiaeth o sefyllfaoedd lle byddai awdurdod lleol yn ystyried defnyddio ei bwerau dewisol, gan gynnwys eiddo nad ydynt yn bodloni’r meini prawf i gael eu dosbarthu fel rhai annomestig. Er mwyn sicrhau tegwch a thryloywder, dylai fod gan awdurdod lleol bolisi clir ynghylch a gaiff y pwerau hyn eu defnyddio a sut. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod ystyried pob achos yn unigol ar ôl pwyso a mesur amgylchiadau'r achos.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Dylid nodi bod ystyriaethau ynghylch defnyddio pwerau disgresiwn adran 13A yn debygol o fod yn wahanol os ystyrir eu bod yn lleihau atebolrwydd y dreth gyngor sy'n deillio o bremiwm o gymharu â lleihau atebolrwydd o gyfradd safonol y dreth gyngor. Y rheswm am hyn yw bod anheddau sy'n atebol i dalu premiwm eisoes yn atebol i dalu cyfradd safonol y dreth gyngor.

## Defnyddio refeniw ychwanegol sy'n deillio o bremiymau'r dreth gyngor

Gall awdurdod lleol gadw unrhyw arian ychwanegol sy'n dod i law drwy weithredu'r premiymau ac mae diwygiadau wedi cael eu gwneud i sylfaen drethu'r dreth gyngor er mwyn hwyluso hyn. Caiff addasiadau eu gwneud er mwyn cynyddu'r premiwm uchaf y gellir ei godi o 1 Ebrill 2023. Gall awdurdodau ddefnyddio'r refeniw ychwanegol at unrhyw ddiben, ond fe'u hanogir i'w ddefnyddio er mwyn helpu i ddiwallu anghenion tai lleol, yn unol â bwriadau polisi'r premiymau.

Caiff gofynion penodol mewn perthynas ag adrodd ar unrhyw refeniw ychwanegol a gynhyrchir a'r defnydd a wneir ohono wedyn eu cynnwys yn Rhan 3 Monitro ac adrodd ar bremiymau'r dreth gyngor.

# Rhan 2: gweinyddu a Gorfodi

## Pennu atebolrwydd ar gyfer premiymau'r dreth gyngor a chymhwystra ar gyfer eithriadau

Wrth benderfynu codi premiwm, bydd angen i awdurdod lleol nodi a yw annedd yn eiddo gwag hirdymor neu'n ail gartref ac a fyddai, felly, yn atebol i dalu premiwm.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Mae'n rhesymol i awdurdod lleol ofyn am dystiolaeth fel biliau cyfleustodau sy'n dangos y defnydd a wneir o wasanaethau, trwydded yrru fel prawf o gyfeiriad, neu dderbynebau neu dystiolaeth arall o gostau symud os dywedir bod eiddo wedi'i feddiannu (nad yw'n wag) neu wedi'i feddiannu fel unig neu brif gartref (nad yw'n ail gartref). Bydd y broses yn debyg i'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd i asesu cymhwystra ar gyfer eithriadau a disgowntiau'r dreth gyngor.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhagnodi eithriadau penodol o ran premiymau'r dreth gyngor a chyfrifoldeb person atebol fydd gwneud cais i awdurdod lleol am eithriad os yw'n credu ei fod yn gymwys, a darparu tystiolaeth i gefnogi ei gais. Dylai pob awdurdod lleol nodi'n glir ac egluro'r dystiolaeth sydd ei hangen er mwyn bod yn dryloyw ac yn deg.

Yn yr un modd â threfniadau i fonitro a gorfodi eithriadau a disgowntiau presennol y dreth gyngor, disgwylir i awdurdodau lleol gymryd camau i gadarnhau'r dystiolaeth a ddarperir i gefnogi cais am eithriad. Gall awdurdod lleol hefyd gynnal arolygiadau neu ymweliadau rheolaidd â'r safle i gadarnhau bod eiddo yn parhau i fod yn gymwys.

Bydd awdurdodau lleol yn ymwybodol y gellir rhoi cosbau sifil i berson sy'n cyflenwi gwybodaeth anghywir yn fwriadol o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Mae'r adrannau canlynol yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol er mwyn helpu awdurdodau lleol i gymhwyso'r eithriadau yn benodol ar gyfer:

- anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu
- anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod
- anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Dosbarth 1: anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gwerthu. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig i brynu'r annedd wedi cael ei dderbyn ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau eto.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid bod annedd ar werth am bris sy'n rhesymol i'r annedd honno. Rhaid i berchennog atebol fodloni awdurdod lleol fod ei eiddo ar werth am bris rhesymol, h.y., pris y byddai'n rhesymol disgwyl iddo ei sicrhau ar y farchnad agored.

Wrth ystyried cais am eithriad, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried amrywiaeth o ffactorau'n ymwneud â gwerthu anheddau, fel y canlynol:

- am ba hyd y mae gwahanol eiddo yn yr ardal wedi bod ar werth
- pris cyfartalog eiddo tebyg yn yr ardal leol a'r cyfnod cyfartalog y bu'r eiddo ar y farchnad
- a oes amodau cyfyngol afresymol, fel y pris, yn cael eu gosod ar yr annedd i'w hatal rhag cael ei gwerthu
- unrhyw ffactorau rhesymol eraill

Er mwyn penderfynu a yw annedd ar y farchnad i'w gwerthu go iawn, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried gwahanol fathau o dystiolaeth a allai gynnwys y canlynol:

- hysbyseb ar wefannau, er enghraifft gwefannau asiantiaid eiddo, Rightmove a Zoopla, neu dystiolaeth o ffyrdd eraill y mae'r eiddo yn cael ei farchnata
- contract ag asiant eiddo
- rhestrau asiant eiddo neu fanylion gwerthu os caiff yr eiddo ei farchnata'n breifat
- tystysgrif Perfformiad Ynni (sy'n ofynnol pan gaiff eiddo ei adeiladu neu'i

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

werthu)

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi ond gellir ei ymestyn os bydd cynnig wedi cael ei dderbyn ar yr eiddo ond nad yw'r gwerthiant wedi cael ei gwblhau fwy na blwyddyn ar ôl i'r eithriad ddod i rym. Byddai'r eithriad yn dod i rym ar ddyddiad gwerthu'r eiddo. Ar ôl i eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gwerthu yn gymwys i gael eithriad arall oni bai ei bod wedi cael ei gwerthu.

## Dosbarth 2: anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod

Mae'r eithriad hwn hefyd yn gymwys i'r premiwm ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi. Mae'n eithrio anheddau sydd ar y farchnad i'w gosod. Mae hefyd yn cwmpasu anheddau lle mae cynnig rhentu wedi cael ei dderbyn ond nad oes hawl gan y tenant feddiannu'r eiddo eto am nad yw'r denantiaeth wedi dechrau.

I fod yn gymwys ar gyfer yr eithriad hwn, rhaid i berchennog atebol fodloni awdurdod lleol bod yr eiddo ar y farchnad i'w osod am bris rhesymol, h.y., y rhent y byddai'n rhesymol disgwyl i'r eiddo ei sicrhau o ystyried y rhent a godir ar anheddau tebyg.

Wrth ystyried a yw'r eithriad yn gymwys, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried amrywiaeth o ffactorau sy'n ymwneud â gosod anheddau, fel y canlynol:

- am ba hyd y mae gwahanol eiddo yn ei ardal wedi bod ar gael i'w rentu
- rhent cyfartalog eiddo rhent tebyg yn yr ardal leol a'r cyfnod cyfartalog y bu'r eiddo ar y farchnad
- a oes amodau cyfyngol afresymol, fel y rhent, yn cael eu gosod ar yr eiddo i'w atal rhag cael ei osod
- unrhyw ffactorau rhesymol eraill

Er mwyn i awdurdod lleol benderfynu a yw perchennog atebol yn marchnata ei

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

eiddo i'w rentu go iawn, efallai yr hoffai awdurdod lleol ystyried gwahanol fathau o dystiolaeth a allai gynnwys y canlynol:

- contract ag asiantaeth gosod eiddo
- rhestrau asiantiaid eiddo neu lyfrynnau asiantiaid gosod eiddo
- cofrestru a thrwyddedu landlord ac asiant ar gyfer annedd sydd ar y farchnad i'w gosod, drwy Rhentu Doeth Cymru
- rhestrau o eiddo a gynigir i'w rhentu a ddarperir gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- tystysgrif Perfformiad Ynni (sy'n ofynnol pan gaiff eiddo ei adeiladu neu'i osod)
- tystysgrif diogelwch nwy ddilys sy'n ofynnol ar gyfer cartrefi a gaiff eu gosod

Mae'r eithriad yn para am gyfnod o flwyddyn o'r dyddiad y caiff yr eithriad ei roi. Ar ôl i'r eithriad ddod i ben, ni fydd annedd sydd ar y farchnad i'w gosod yn gymwys i gael eithriad arall oni bai bod tenantiaeth wedi cael ei rhoi am gyfnod o chwe mis neu fwy ar gyfer yr annedd honno.

Mae eithriadau 3 i 6 yn ddosbarthiadau mwy penodol ac ni chânt eu trafod ymhellach yn y rhan hon o'r canllawiau.

## Dosbarth 7: anheddau sy'n gysylltiedig â swyddi

Mae'r eithriad hwn ond yn gymwys i'r premiwm ar ail gartrefi yn unig ac mae'n gymwys i anheddau a feddiennir gan berson cymhwysol. Mae'r meini prawf ar gyfer person cymhwysol wedi eu nodi o dan Dosbarth 7 yn Rhan 1.

Wrth ystyried cymhwystra ar gyfer yr eithriad hwn, gall awdurdod lleol ofyn am fathau penodol o dystiolaeth i brofi ei bod yn ofynnol i berson atebol fyw mewn annedd sy'n gysylltiedig â'i swydd. Gallai hyn gynnwys y canlynol:

- contract cyflogaeth

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- hysbysiad galw am dalu'r dreth gyngor (i ddangos atebolrwydd mewn perthynas ag eiddo arall os yw'r prif gartref neu'r ail gartref yn y DU)
- ffurflenni treth neu ddatganiadau talu
- llythyr enwadol (mewn perthynas â Gweinidog Crefyddol)
- llythyr neu gontract ysgrifenedig gan y Weinyddiaeth Amddiffyn (mewn perthynas â'r lluoedd arfog)

# Rhan 3: monitro ac adrodd ar bremiymau'r dreth gyngor

Yn ystod haf 2021, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar. Ystyriwyd effeithiolrwydd y pwerau disgresiwn a roddwyd i awdurdodau lleol gymhwyso premiymau'r dreth gyngor i ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor. Galwodd llawer o ymatebion ar i awdurdodau lleol fod yn fwy tryloyw ynghylch sut maent yn gwario'r arian sy'n cael ei godi drwy'r premiwm.

Er mwyn asesu effeithiolrwydd y premiymau a sicrhau bod gwybodaeth ynghylch sut y cânt eu defnyddio ar gael yn glir i'r rhai sy'n talu'r dreth gyngor yn lleol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol adrodd ar y modd y caiff y premiymau eu gweithredu a'r refeniw ychwanegol a gynhyrchir.

Wrth ystyried y canllawiau hyn, dylai awdurdodau lleol hefyd roi ystyriaeth ddyledus i gyhoeddi gwybodaeth i gynorthwyo aelodau o'r cyhoedd a rhaid iddynt roi gwybodaeth i Weinidogion Cymru ar gais.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn cyflwyno'r wybodaeth ganlynol am bremiymau drwy ffurflen statudol CT1 (Anheddau'r Dreth Gyngor). Caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i lunio'r datganiadau ystadegol blynyddol ar gasglu'r dreth gyngor.

- nifer yr eiddo sy'n atebol i dalu'r premiymau

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- canran y premiwm a gymhwysir i gartrefi gwag hirdymor
- canran y premiwm a gymhwysir i ail gartrefi

O 1 Ebrill 2023, anogir awdurdodau lleol i gyhoeddi manylion am yr incwm a gynhyrchwyd drwy godi premiwm ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ar eu gwefannau.

Dylid cynnwys y canlynol o leiaf:

- cyfanswm nifer yr (i) Eiddo gwag hirdymor a (ii) ail gartrefi
- nifer yr eiddo a oedd yn atebol i dalu pob premiwm (i) Eiddo gwag hirdymor a (ii) ail gartrefi
- faint o incwm a gynhyrchwyd drwy godi premiwm ar eiddo gwag hirdymor
- faint o incwm a gynhyrchwyd drwy godi premiwm ar ail gartrefi
- sut mae'r incwm ychwanegol a godwyd wedi cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r problemau a gaiff eu hachosi gan eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi, neu fynd i'r afael â phroblemau tai lleol eraill

# Rhan 4: apeliadau

Os bydd person yn anfodlon â'i awdurdod lleol o ganlyniad i benderfyniad a wnaed ynghylch cyfrifo ei dreth gyngor, gan gynnwys ei atebolrwydd i dalu premiwm, dylai gysylltu â'r awdurdod lleol yn gyntaf i drafod y penderfyniad.

Os bydd person yn anfodlon o hyd ar ôl trafod â'i awdurdod lleol, gall gyflwyno apêl i'w awdurdod lleol.

Os bydd person yn anghytuno â chanlyniad proses apêl yr awdurdod lleol neu os na fydd yr awdurdod lleol yn darparu penderfyniad o fewn yr amserlenni gofynnol, gall y person gyflwyno apêl i Dribiwnlys Prisio Cymru. Ni chaiff person wneud hyn oni bai ei fod wedi dilyn proses apêl yr awdurdod lleol ac wedi

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

cydymffurfio ag unrhyw brosesau sy'n ofynnol gan y Tribiwnlys cyn y gellir cyflwyno apêl.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/treth-gyngor-ar-dai-gwag-ac-ail-gartrefi-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y Cyngor Llawn** |
| **DYDDIAD:** | **7 Rhagfyr 2023** |
| **AELOD CABINET:** | **Y Cynghorydd Ioan Thomas,**<br>**Aelod Cabinet Cyllid** |
| **TEITL:** | **CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2024/25** |
| **AMCAN:** | **Cadarnhau parhad y Cynllun Lleol cyfredol ar gyfer darparu cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2024** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** |

**PENDERFYNIAD A GEISIR**

1. **Fod Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am y flwyddyn yn cychwyn 1 Ebrill 2024 yn parhau fel ag yr oedd yn ystod 2023/24. Felly, bydd yr amodau canlynol (a – c isod) ynghylch yr elfennau disgresiwn yn parhau:**
   a) **Gweithredu diystyrwch o 100% i bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a hawlwyr oed gweithio fel ei gilydd.**

   b) **Peidio cynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r pedair wythnos safonol sy'n y Cynllun Rhagnodedig.**

   c) **Peidio cynyddu'r cyfnod ôl-ddyddio i bensiynwyr a hawlwyr oed gwaith o'r tri mis safonol sydd wedi'i nodi ar hyn o bryd yn y Cynllun Rhagnodedig.**

2. **Lle'n briodol, dirprwyo'r grym i'r Pennaeth Cyllid, mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet dros Gyllid, i wneud mân addasiadau i'r cynllun am 2024/25, ar yr amod na fydd yn newid sylwedd y cynllun.**

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r trefniadau ar gyfer gweithredu'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor ac i'w gymeradwyo ar gyfer 2024/25.

1.2 Mae gofyn statudol i'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn yn flynyddol, hyd yn oed os nad oes newid yn y cynllun ers y flwyddyn flaenorol. Dyna'r achos eleni –argymhellir dim newid i'r cynllun a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 1 Rhagfyr 2022.

1.3 **Gofynnir i aelodau nodi fod yr adroddiad hwn yn berthnasol i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor YN UNIG, sef cynllun cymorth sydd yn seiliedig ar brawf modd mae'n rhaid cyflwyno cais ffurfiol amdano gan y Gwasanaeth Budd-dal. NID YW'R CYNLLUN HWN, NA'R ADRODDIAD YMA, yn berthnasol i unrhyw gynllun disgownt neu eithriad Treth Cyngor arall (e.e. disgownt person sengl, eithriad eiddo gwag sy'n cael ei adnewyddu, tai myfyrwyr)**.

## 2. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

2.1 Yn unol â *Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 (2013/3029)*, rhaid i bob awdurdod lleol ddarparu cynllun er mwyn pennu pa ostyngiadau fydd ar gael fel cymorth tuag at dalu'r Dreth Cyngor. Mabwysiadwyd cynllun lleol cyfredol Cyngor Gwynedd (h.y. ar gyfer 2023/24) gan y Cyngor Llawn ar 1 Rhagfyr 2022.

2.2 Mae'r Rheoliadau'n mynnu fod rhaid i'r Cyngor llawn fabwysiadu'r Cynllun lleol, a hynny erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol.

2.3 Dan y cynllun lleol, gall trethdalwyr cymwys barhau i dderbyn gostyngiad hyd at 100% o werth eu biliau Treth Cyngor (lle'n derbyn rhai budd-daliadau).

2.4 Cymeradwywyd Cynllun Lleol Cyngor Gwynedd am 2023/24 gan y Cyngor Llawn ar 1 Rhagfyr 2022. Mae'r Rheoliadau yn rheoli gweithrediad cynlluniau gostyngiadau ar draws Cymru gyfan ac wedi'u cynllunio i sicrhau bod pob awdurdod lleol yn cyflwyno cymorth i drethdalwyr Cymreig ar ffurf gyson.

## 3. CYNLLUN GOSTYNGIADAU 2024/25

3.1 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 18) yn datgan fod **rhaid i awdurdod ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun** neu ei amnewid gan gynllun arall **ar gyfer pob blwyddyn ariannol**; rhaid i'r awdurdod wneud unrhyw ddiwygiad yn ei gynllun, neu unrhyw gynllun a amnewidir, **ddim hwyrach na 31 Ionawr** yn y flwyddyn ariannol sy'n rhagflaenu'r flwyddyn ariannol pan fo'r diwygiad neu'r cynllun a amnewidir i gael effaith.

3.2 Mae'r Rheoliadau (Rheoliad 12) yn datgan na ellir dirprwyo'r swyddogaeth o wneud y cynllun i'r Cabinet, a **rhaid ei benderfynu gan y Cyngor llawn**.

3.3 Felly, bwriad yr adroddiad yma yw bodloni'r gofyn i'r Cyngor ystyried a ddylai ddiwygio ei gynllun lleol.

3.4 Mae disgresiwn cyfyngedig o dan y Cynllun Rhagnodedig i gynghorau ystyried y 3 elfen dewisol penodol canlynol. Gellir defnyddio disgresiwn i wneud yn elfennau hyn yn fwy hael na'r cynllun cenedlaethol, ond nid yn llai hael.

Pensiynau anabledd rhyfel a phensiynau gweddwon rhyfel
*(argymhelliad 2.1(a) uchod)*

3.5 Mae disgresiwn i gynyddu'r diystyrwch o bensiynau anabledd rhyfel, a phensiynau gweddwon rhyfel, ar gyfer pensiynwyr a phobl oed gwaith fel ei gilydd.

Ar hyn o bryd, mae £10 cyntaf pensiwn anabledd a phensiwn gweddwon rhyfel wythnosol yn cael ei ddiystyru dan y rheoliadau. Fodd bynnag, mae gan awdurdodau lleol ddisgresiwn i ddiystyru hyd at 100% o'r gwir swm dros y £10 cyntaf. Ers 1 Ebrill 1996, penderfynodd Cyngor Gwynedd, fel y mwyafrif o Awdurdodau eraill yng Nghymru, ddiystyru 100% o bensiynau rhyfel dros £10. Oherwydd hyn, mae'r ddarpariaeth berthnasol eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb sylfaenol ar gyfer 2023/24. Ym mis Tachwedd 2023, roedd 25 o hawlwyr yn manteisio o'r disgresiwn yma (roedd 27 yn Tachwedd 2022).

Argymhellir fod caniatáu'r disgresiwn lleol hwn yng Ngwynedd yn parhau.

Cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith
*(argymhelliad 2.1(b) uchod)*

3.6 Mae disgresiwn i gynyddu'r cyfnodau estynedig o ostyngiadau i bobl oed gwaith o'r pedair wythnos safonol wedi iddynt ddychwelyd yn ôl i'r gwaith, hynny os iddynt fod wedi derbyn budd dal perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo ond byddai goblygiadau ariannol. Amcangyfrifir y bydd cost 4 wythnos safonol o gyfnod estynedig yn 2023/24 oddeutu £336. Yn 2023/24 hyd at ganol Tachwedd, roedd 3 achos lle roedd “taliadau estynedig” o’r fath wedi eu caniatáu yn unol â’r Cynllun Rhagnodedig (roedd 15 achos yn yr un cyfnod yn 2022/23).

Argymhellir parhau i beidio addasu’r pedair wythnos o gyfnod estynedig sy’n y Cynllun Rhagnodedig.

<u>Cyfnod ôl-ddyddio ceisiadau hwyr</u>
*(argymhelliad 2.1(c) uchod)*

3.7 Mae disgresiwn i gynyddu’r cyfnod ôl-ddyddio cais hwyr tu hwnt i’r cyfnod tri mis safonol. Ni cheir unrhyw gyfyngiad ar y cyfnod hiraf gallant gael eu hymestyn iddo. Amcangyfrifir mai £26,403 fydd cost caniatáu’r ôl ddyddio cyfredol (3 mis) yn 2023/24, a hyd at ganol Tachwedd mae 186 hawliad wedi cael peth elfen o ôl-ddyddio yn 2023/24. Yn yr un cyfnod yn 2022/23 roedd 112 hawliad o’r fath, gyda chost o £22,973.

Mae’r Cynllun Gostyngiadau presennol yn caniatáu ôl-ddyddio ceisiadau hwyr am gyfnod hyd at dri mis. Byddai ymestyn y cyfnod yn cynyddu cost y cynllun.

Argymhellir parhau i beidio cynyddu’r cyfnod ôl-ddyddio o’r tri mis safonol sy’n y Cynllun Rhagnodedig.

**3.8 Mae’r argymhellion uchod ar gyfer 2024/25 yn unol â threfniadau cyfredol 2023/24.**

## 4. YMGYNGHORI

4.1 Petai’r Cyngor am addasu ei gynllun lleol – i bob pwrpas trwy newid y 3 maes o ddisgresiwn lleol a ddisgrifir ym mharagraffau 4.5 i 4.7 – byddai’n rhaid iddo ymgynghori gydag “unrhyw un sydd â diddordeb”.

4.2 Yn unol â Rheoliad 18(6), nid oes angen ymgynghori pellach gan nad oes bwriad i addasu’r Cynllun Lleol eleni.

## 5. ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

5.1 Fel nodir ym Rhan 4 o’r adroddiad yma, yng nghyd-destun y Cynllun Rhagnodedig sydd yn ei le ar gyfer holl hawlwyr Gostyngiad Treth Cyngor ar draws Cymru gyfan, cyfyngedig iawn yw’r disgresiwn lleol sydd ar gael i awdurdodau lleol i addasu’r cynllun cenedlaethol, ar wahân i dri maes penodol iawn.

5.2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad effaith rheoleiddiol ar y cynllun cenedlaethol, sy'n cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb. Cynhaliwyd astudiaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb lleol yn 2013 pan newidiwyd y drefn o'r Budd-dal Treth Cyngor i'r Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, a bryd hynny gwnaethpwyd y penderfyniad i gyflwyno'r cynllun lleol tra'n cydnabod mai cynllun rhagnodedig yw hwn a'r baich yn disgyn ar yr holl grwpiau.

5.3 Mae'r Cyngor angen penderfynu, felly, yw os ydi'r penderfyniadau a geisir yn 2.1 a) – c) yn effeithio ar unrhyw un sydd ag un neu fwy o'r nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig mewn ffordd wahanol i'r boblogaeth gyfan. Ar wahân i'r ariannu ar lefel y Cyngor, nid yw'r cynllun a gynigir ar gyfer 2023/24 yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o'r cynllun sy'n weithredol ers 2013. Mae asesiad a gynhaliwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn yn awgrymu fod casgliadau asesiad 2013 yn parhau'n ddilys ac na fydd y penderfyniadau cyfyngedig hyn a geisir yn effeithio unrhyw un o'r grwpiau gwarchodedig yn wahanol i'r boblogaeth gyfan.

**6. ADNODDAU**

6.1 Ar sail adolygiad refeniw diwedd Awst 2023, disgwylir y bydd y Cynllun Gostyngiadau Treth Cyngor yn costio oddeutu £9.95m yn ystod 2023/24 ac mae hynny o fewn y gyllideb sydd wedi ei osod.

6.2 Nid oes dewis ond wynebu cost parhaus y Cynllun, a bydd hyn wedi'i ystyried yn briodol wrth lunio cyllideb 2024/25.

---

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

## Adroddiad i gyfarfod Llawn Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **7fed o Ragfyr, 2023** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 - 2033** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Ian Jones**<br>**Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol** |

### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gofynnir i'r Cyngor Llawn fabwysiadu Strategaeth Iaith 2023-2033.

### 2. Y RHESWM PAM FOD ANGEN Y PENDERFYNIAD

Gan fod cyfnod y Strategaeth Iaith bresenol (Cynllun Hubu'r Gymraeg yng Ngwynedd) yn dod i ben, mae disgwyl i'r strategaeth iaith nesaf gael ei chyhoeddi ar gyfer Gwynedd erbyn diwedd 2023.

---

### 3. CYFLWYNIAD

3.1 Gosodir gofyn ar y Cyngor o fewn Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i lunio strategaeth 5 mlynedd sydd yn nodi sut y maent yn bwriadu mynd ati i hyrwyddo a hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir, a sut mae'n bwriad cyfrannu at amcanion cenedlaethol Cymraeg 2050 i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg.

3.2 Gan fod cyfnod y strategaeth hybu bresennol yn dod i ben yn yr Hydref, dechreuwyd ar broses adolygu yn gynnar yn 2023. Cynhaliwyd sesiynau trafod yn ystod mis Ionawr gydag aelodau Cabinet, aelodau'r Pwyllgor Iaith ac aelodau

Fforwm Iaith Gwynedd er mwyn hel syniadau a chael eu mewnbwn ar gynnwys posib y strategaeth.

3.3 Lluniwyd drafft ymgynghori o’r strategaeth newydd ar sail y trafodaethau hynny a chynhaliwyd cyfnod ymgynghori ar y strategaeth ddrafft rhwng **17 Ebrill a 21 o Fai 2023**.

3.4 Cafodd y strategaeth ddrafft, felly, ei chreu fel dilyniant i waith y strategaeth bresennol (*Cynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23)* er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo’r iaith ar draws y sir ac i fodloni’r gofynion statudol a osodir o fewn Safonau’r Gymraeg. Y weledigaeth yw creu strategaeth gynhwysol sy’n ceisio cynyddu defnydd o’r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

## 4. CRYNODEB O GANFYDDIADAU’R YMGYNGHORIAD

4.1 Lluniwyd holiadur, oedd yn gofyn nifer o gwestiynau er mwyn casglu barn y cyhoedd ar gynnwys y strategaeth ddrafft, yr amcanion oedd wedi eu nodi, a’r meysydd gweithredu oedd yn cael eu hawgrymu.

4.2 Cafwyd **159 o ymatebion** i’r ymgynghoriad ar lein, ac mae’r adroddiad dadansoddi sydd wedi ei gyflwyno yn **Atodiad 1** yn adlewyrchu’r ymatebion hynny. Derbyniwyd 1 ymateb dros e-bost (nad oedd yn dilyn y templed cwestiynau ymgynghori).

4.3 Cafwyd trawstoriad da o ymatebion o bob rhan o’r sir. Roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr rhwng 35 a 74 oed. Dim ond 3 ymateb gafwyd gan bobl dan 34 oed, sydd ychydig yn bryderus, a bydd angen i ni ystyried yn ofalus sut yr ydym yn casglu barn y garfan yma o’r gymuned yn y dyfodol.

4.4 Yn gyffredinol, roedd yr ymateb i gynnwys y strategaeth ddrafft yn dda. Roedd y gyfradd gytuno ar gyfer ffrydiau gwaith pob maes gweithredu yn uchel. Roedd 72.3% o’r ymatebwyr yn cytuno gyda’r bwriad i ganolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg.

4.5 O ran y themâu cyffredin oedd yn codi o’r ymatebion, roedd sicrhau cyfleoedd digonol ac addas i bobl ddysgu Cymraeg ac i fagu hyder wrth siarad Cymraeg yn thema a gododd yn rheolaidd, ac mewn ymateb i sawl cwestiwn. Roedd sylwadau llai cadarnhaol megis na ddylai’r Cyngor ddefnyddio’r Gymraeg fel ffordd o wahaniaethu, ac na ddylid gwastraffu adnoddau prin ar yr iaith hefyd yn themâu a gododd fwy nag unwaith.

4.6 Cyflwynwyd dadansoddiad o’r ymgynghoriad i’r Pwyllgor Iaith ar 27 Mehefin a rhoddwyd cyfle i'r aelodau gynnig unrhyw sylwadau ar y cynnwys a’r ymatebion ac am addasiadau posib i'r strategaeth derfynol mewn ymateb i'r ymgynghoriad.

**5. ADDASIADAU**

5.1 Er bod nifer o sylwadau wedi eu derbyn yn yr holiaduron, prin oedd yr awgrymiadau neu syniadau ymarferol oedd yn cael eu cynnig y gellir eu hychwanegu at y strategaeth derfynol. Cafwyd cynnig penodol gan Adra i gydweithio ar eu Strategaeth Gymunedol, a bydd trafodaeth bellach yn cael ei chynnal am hynny cyn ychwanegu targed at y rhaglen waith. Man addasiadau sydd wedi eu gwneud i'r strategaeth ar y cyfan felly,

5.2 Mae newidiadau wedi eu gwneud i adran 4.2 (sydd wedi ei ailenwi o’r drafft o Heriau i Dylanwadau ar ddefnydd iaith) er mwyn ymateb i'r pwysigrwydd a roddwyd ar rai materion yn yr ymgynghoriad. Teimlwyd bod angen rhoi sylw penodol i agweddau pobl, ac hefyd i’r heriau economaidd sydd yn effeithio ar ddefnydd o’r Gymraeg. Penderfynwyd bod cynnwys y rhain yn bwysicach na’r darnau am heriau demograffig a sylfaen tystiolaeth yn sgil sylwadau yn yr ymgynghoriad.

5.3 Y prif addasiad a wnaed yn sgil yr ymgynghori oedd rhoi mwy o sylw i dechnoleg o dan bob maes gweithredu gan bod nifer wedi ei nodi fel her ymhob maes. Er ein bod wedi bwriadu i dechnoleg gyfeirio at y rhychwant cyfan o ffyrdd y mae technoleg yn rhan o’n bywydau, o hunanwasanaeth, apiau i ddefnydd o’r we a chyfryngau cymdeithasol, mae’n ymddangos nad oedd hyn yn gwbl glir yn y drafft ymgynghori ac roedd nifer o ymatebwyr wedi nodi dylanwad cyfryngau

cymdeithasol fel her felly bydd angen ystyried a oes yna unrhyw gamau penodol y gallwn eu cymryd i geisio cynyddu presenoldeb y Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol wrth ddatblygu'r rhaglen waith.

5.4 Cyflwynwyd canlyniadau'r ymgynghoriad i gyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd ar y 10fed o Hydref, 2023 er eu sylwadau. Cafodd yr addasiadau eu cefnogi yn unfrydol. Mae copi o'r Strategaeth Iaith yn dilyn yr addasiadau uchod i'w weld yn **Atodiad 2**, er ei fabwysiadu.

## 6. GWEITHREDU A MONITRO'R STRATEGAETH

6.1 Mae rhaglen waith gychwynnol wedi ei llunio ar gyfer y strategaeth sydd yn adlewyrchu rhai o'r cynlluniau sydd ar waith ar hyn o bryd i fynd i'r afael a'r amcanion. Rhaid pwysleisio bod hon yn rhaglen waith fyw, gyda phrosiectau a thargedau yn cael eu hychwanegu wrth iddynt gael eu hadnabod. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda gwasanaethau a phartneriaid ynghylch y rhaglen waith dros y misoedd nesaf. Gellir gweld copi o'r rhaglen waith gychwynnol ar ffurf drafft yn **Atodiad 4**.

6.2 Bydd angen sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gael i weithredu prosiectau'r rhaglen waith a chyflwyno bidiau am arian pan fo hynny'n briodol drwy'r system bidiau corfforaethol. Bydd y rhaglen waith yn cael ei hadolygu yn rheolaidd. Bydd adrannau yn adrodd ar eu cyfraniadau fel rhan o'u hadroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Iaith, a disgwylir iddynt fod rannu data gyda'r Uned Iaith a Chraffu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Bydd yr Uned Iaith a Chraffu yn diweddaru'r Cabinet ar gynnydd y rhaglen waith a gweithrediad y Strategaeth fel rhan o'u hadroddiad blynyddol am y maes iaith.

## 7. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

7.1 Gosodir gofyn ar y Cyngor o fewn Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) i lunio strategaeth 5 mlynedd sydd yn nodi sut y byddwn mynd ati i hyrwyddo a hybu defnydd o'r Gymraeg o fewn y sir. Gan fod cyfnod y Strategaeth Iaith bresenol (Cynllun Hubu'r Gymraeg yng Ngwynedd) yn dod i ben, mae disgwyl i'r strategaeth iaith nesaf gael ei chyhoeddi ar gyfer Gwynedd erbyn diwedd 2023.

7.2 Asesiad Effaith

Mae asesiad effaith wedi ei lunio ar gyfer y strategaeth sydd yn rhagweld effaith gadarnhaol ar boblogaeth Gwynedd. Mae'r asesiad yn cydnabod y posibilrwydd y gallai rhai trigolion deimlo eu bod yn profi effeithiau negyddol, yn gysylltiedig efo nodweddion hil ac anabledd, ac yn nodi sut y mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau cyfle cyfartal i bob un o drigolion Gwynedd gael gweld, dysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'n nodi bylchau o ran y sylfaen tystiolaeth, a hynny yn bennaf oherwydd diffyg asesiadau effaith unigol ar rai prosiectau sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor ac oherwydd nad yw data Cyfrifiad 2021 wedi ei ddadansoddi yn llawn eto. Mae hefyd yn nodi bwlch tystiolaeth yn sgil diffyg ymateb gan bobl ifanc i'r ymgynghoriad.

7.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau llesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Mae'r Strategaeth wedi ei baratoi gan ddal sylw at y gofynion yma ac yn unol a'r 5 ffordd o weithio.

7.4 Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i dyletswyddau sector gyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector gyhoeddus Cymreig). Yn unol a'r dyletswyddau cyfreithiol yma wrth wneud penderfyniadau mae rhaid i'r Cynghorau dalu sylw dyledus i'r angen (1) i ddiddymu gwahaniaethu anghyfreithiol (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasau da ar sail y nodweddion gwarchodedig a dal sylw dyledus at y dyletswydd cymdeithasol economaidd dan Adran 1 o'r Ddeddf. Paratowyd asesiad ardrawiad cydraddoldeb sydd wedi ei atodi yn **Atodiad 3**. Nid yw yr asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad negyddol penodol yn deillio o'r penderfyniad.

**8. BARN SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Nid oes gennyf sylwadau ar gynnwys y Strategaeth o safbwynt priodoldeb ariannol.

Mae paragraff 6.2 o'r adroddiad yn cyfeirio at yr adnoddau fydd ar gael yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r Strategaeth; mae trefniadau penodol yn eu lle yn yCyngor er mwyn cyflwyno ceisiadau am adnoddau ychwanegol a disgwyliaf bydd unrhyw gais am adnoddau i gefnogi'r Strategaeth Iaith yn cael eu cyflwyno yn unol â'r trefniadau hynny.

**Atodiadau sydd wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad hwn:**

Atodiad 1: Dadansoddiad o ganlyniadau Ymgynghoriad Strategaeth Iaith
Atodiad 2: Strategaeth Iaith 2023 - 2033
Atodiad 3: Asesiad Effaith Strategaeth Iaith

Atodiad 4: Rhaglen Waith Gychwynnol Strategaeth Iaith

**Cynnwys**

1. Cyflwyniad
2. Bwriad y Strategaeth
3. Meysydd Gweithredu
4. Effaith y Cynllun
5. Atodiad A - Cwestiynau Cydraddoldeb
6. Atodiad B – Llythyr yn ymateb i'r ymgynghoriad

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth iaith yn cael ei chreu fel rhan o ofynion statudol Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Cynhaliwyd ymgynghoriad er mwyn casglu barn y cyhoedd am gynnwys fersiwn drafft o Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033. Mae'r strategaeth ddrafft yn adlewyrchu ymrwymiad Cyngor Gwynedd i hyrwyddo'r iaith Gymraeg ledled y sir ac yn tynnu sylw at y prosiectau a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan y Cyngor a'r cyfleoedd newydd i hyrwyddo defnydd o'r iaith. Y nod yw cyhoeddi'r strategaeth derfynol cyn diwedd y flwyddyn.

Roedd yr ymgynghoriad yn fyw o **17eg o Ebrill hyd at 21ain o Fai**. Derbyniwyd un llythyr yn ymateb i'r ymgynghoriad. Gweler y llythyr yn Atodiad B.

Cafwyd 159 o ymatebion i'r holiadur, i gyd wedi'u derbyn ar-lein. Mae tabl 1 yn dangos ym mha ardal roedd yr ymatebwyr yn byw. Gweler Atodiad A ar gyfer nodweddion cydraddoldeb yr ymatebwyr.

**Tabl 1: Ymatebwyr fesul 13 Ardal Adfywio Gwynedd**

| Ardal | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ardal Pen Llŷn | 12 | 8.0% |
| Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth | 10 | 6.7% |
| Bro Ardudwy | 17 | 11.3% |
| Bro Dysynni | 11 | 7.3% |
| Bro Ffestiniog | 6 | 4.0% |
| Bro Lleu / Nantlle | 11 | 7.3% |
| Bro Ogwen | 11 | 7.3% |
| Bro Peris | 9 | 6.0% |
| Dalgylch Bala / Penllyn | 4 | 2.7% |
| Dalgylch Bangor | 13 | 8.7% |
| Dalgylch Caernarfon | 12 | 8.0% |
| Dalgylch Dolgellau | 10 | 6.7% |
| Dalgylch Pwllheli | 14 | 9.3% |
| Heb nodi yn llawn | 9 | 6.0% |
| Tu allan i Wynedd | 1 | 0.7% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100.0%** |

Bu i 150 o'r ymatebwyr ymateb i'r ymgynghoriad fel unigolion, gyda 6 wedi ateb unai fel rhan o'u swydd neu ar ran busnes gyda 3 arall wedi ateb fel "arall".

## 2. Bwriad y Strategaeth


Bwriad y Strategaeth yw gosod gweledigaeth y cyngor ar gyfer hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd. Roedd y strategaeth ddrafft yn nodi meysydd gweithredu ac amcanion posib ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir. Roedd hefyd yn cynnig targed ar gyfer cynyddu nifer siaradwyr.

### 2.1 Cynyddu Cyfleoedd

Mae'r strategaeth yn nodi mai'r bwriad yw canolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda hyn yng nghwestiwn 1 yr ymgynghoriad.

Mae'r graff 1 isod yn dangos yr ymateb, ble roedd 72.3% (n=115) o'r ymatebwyr yn cytuno, 18.2% (n=29) yn anghytuno, tra bod 9.4% (n=15) unai heb farn neu heb ateb y cwestiwn.

**Graff 1: Cytuno neu anghytuno gyda'r bwriad i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**




Bu i 112 o'r ymatebwyr fynd ymlaen i esbonio pam roeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r bwriad i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Gwelir y prif resymau yn tabl 2 isod. Roedd modd iddynt nodi mwy nac un rheswm.

**Tabl 2: Rhesymau pam yn cytuno neu anghytuno – wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| **Cytuno** - angen cynyddu'r cyfleoedd i siarad Cymraeg | 36 | 32% |
| **Cytuno** - angen mwy o gyfleoedd i ddysgwyr allu ymarfer defnyddio eu Cymraeg | 24 | 21% |
| **Cytuno** - angen annog y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg ei ddefnyddio ar bob achlysur | 23 | 21% |
| **Cytuno** - gan bod defnydd o'r iaith wedi dirywio | 11 | 10% |
| **Cytuno** - Cymraeg ddylai'r brif iaith fod yng Nghymru | 10 | 9% |
| **Anghytuno** - dewis personol ddylai defnyddio'r iaith Gymraeg | 10 | 9% |
| **Anghytuno** - dim digon o adnoddau i wireddu hyn pan mae cymaint o broblemau eraill | 9 | 8% |

| | | |
|---|---|---|
| **Anghytuno** - Ni ddylai'r Cyngor defnyddio'r Iaith Gymraeg fel esgus i wahaniaethu | 8 | 7% |
| **Cytuno** - angen gwerthu'r iaith fel sgil werthfawr ym myd gwaith | 5 | 4% |
| **Cytuno** - ond dylai Cymraeg a Saesneg gael yr un statws | 5 | 4% |
| **Anghytuno** - dim digon o alw am ddefnyddio'r iaith tu allan i Gymru | 4 | 4% |
| **Cytuno** - Troi i'r Saesneg wedi mynd yn rhy gyffredin | 4 | 4% |
| **Cytuno** - angen deddfu bod rhaid i fusnesau ddefnyddio Cymraeg | 3 | 3% |
| **Cytuno** - gormod o gyfathrebu Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol | 2 | 2% |
| **Anghytuno** - gwersi Cymraeg dwi wedi bod arnynt yn warthus | 1 | 1% |
| **Anghytuno** - dydy safon sgiliau Saesneg plant ddim digon da | 1 | 1% |

## 2.2 Prif Heriau


Rhoddwyd rhestr o’r prif heriau sy’n wynebu’r iaith Gymraeg yng Ngwynedd yng nghwestiwn 2 a chyfle i’r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda nhw.

- Trosglwyddo’r iaith o fewn y teulu
- Defnydd iaith pobl ifanc
- Statws y Gymraeg yn y gymuned
- Cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned
- Creu siaradwyr newydd
- Dylanwad technoleg
- Sylfaen tystiolaeth
- Heriau demograffig a daearyddol

Mae graff 2 isod yn dangos y canlyniadau gyda’r her gafodd ei chydnabod fwyaf ar y chwith. Mae technoleg yn chwarae rôl gynyddol amlwg ym mywydau pobl, gyda’r Saesneg yn aml yn brif iaith creu a defnyddio technoleg, ac roedd 69% (n=109) yn cytuno gyda’r her yma o Ddylanwad Technoleg ar yr iaith. Yr her gyda mwyaf o farn gymysg oedd Sylfaen Tystiolaeth sef yr her o ddiffyg ymchwil a thystiolaeth gyfredol i brofi cyswllt ac effaith ffactorau penodol, megis yr economi a thwristiaeth, ar yr iaith. Tra roedd 50% (n=79) yn cytuno gyda’r her yma nid oedd 30% (n=48) ddim yn siŵr am yr her yma a gyda 17% (n=27) yn anghytuno.

Mae’r canlyniadau yn eithaf cyson ar draws y gwahanol heriau a nodwyd.

**Graff 2**: Cytuno neu anghytuno gyda'r prif heriau sy'n wynebu'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd




Roedd gan yr ymatebwyr gyfle i ychwanegu unrhyw her arall oeddynt yn credu y dylid eu hystyried. Bu i 66 ymatebwr wneud sylw.

**Tabl 3: Heriau ychwanegol – wedi eu grwpio i themau**

| Her | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cefnogi ac annog dysgwyr i ddefnyddio eu Cymraeg i gynyddu eu hyder | 16 | 24% |
| Problem ail gartrefi yn ein cymunedau a mewnlifiad pobl di-Gymraeg | 10 | 15% |
| Dylanwad cyfryngau cymdeithasol | 9 | 14% |
| Ni ddylai'r Cyngor defnyddio'r Iaith Gymraeg fel esgus i wahaniaethu | 7 | 11% |
| Angen defnyddio'r Gymraeg o fewn sector celfyddydau a diwylliant | 6 | 9% |
| Angen mwy o gyfleon gwaith yng Ngwynedd | 5 | 8% |
| Sicrhau na fydd pobl di-Gymraeg yn cael eu dieithrio - angen cael y balans yn gywir | 5 | 8% |
| Gweithio gyda busnesau lleol i annog defnydd y Gymraeg | 5 | 8% |
| Y pwyslais ar addysg Gymraeg yn llesteirio dyfodol plant | 5 | 8% |
| Annog Cymraeg fel iaith naturiol sgwrs hyd yn oed os oes rhai Saesneg yn bresennol | 4 | 6% |
| Y Cyngor i ddefnyddio llai o iaith Gymraeg ffurfiol | 4 | 6% |
| Cadw pobl yn eu cymunedau | 3 | 5% |
| Diffyg gwasanaethau yn ardaloedd gwledig yn arwain at ddirywiad yn y niferoedd sy'n siarad Cymraeg | 2 | 3% |
| Pwyslais ar bwysigrwydd darllen llyfrau Cymraeg yn yr ysgolion | 2 | 3% |
| Polisîau tai a chynllunio gwlad a thref yn allweddol i ddiogelu strwythur ein cymunedau | 2 | 3% |
| Annog mwy o ddisgyblion i wneud pynciau yn yr ysgol drwy'r iaith Gymraeg | 1 | 2% |
| Does dim angen na diddordeb mewn dysgu Cymraeg | 1 | 2% |
| Sicrhau cefnogaeth ariannol i gylchoedd meithrin | 1 | 2% |
| Angen gadael i'r iaith ddatblygu yn naturiol | 1 | 2% |


## 2.3 Gosod targed - Cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd

Roedd y strategaeth ddrafft yn cynnig dau fwriad ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yng Ngwynedd a rhoddwyd y cyfle i'r ymatebwyr gytuno neu anghytuno ar ddwy ffordd mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud hyn yng nghwestiwn 4.

- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg, i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus
- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid

Wrth edrych ar y canlyniadau yn graff 3 nid oedd gwahaniaeth amlwg yn y nifer sydd yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffyrdd awgrymedig o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

**Graff 3: Cyfleoedd i gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg**




I'r rhai oedd yn anghytuno gydag unrhyw un o'r heriau roedd modd iddynt nodi eu rhesymau. Bu i 16 ymatebwr anghytuno gyda'r cyfle i gynyddu siaradwyr Cymraeg ymysg plant a phobl ifanc, tra roedd 20 ymatebydd yn anghytuno gyda'r cyfle ymysg oedolion. Mae tabl 4 isod yn cyfuno rhesymau ar gyfer plant a phobl ifanc ac oedolion.

**Tabl 4: Rhesymau pam yn cytuno neu anghytuno – wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heb roi rheswm | 6 | 29% |
| Gwastraff arian cyhoeddus | 5 | 24% |
| Saesneg ydy iaith y byd | 3 | 14% |
| Llawer rhy anodd dysgu iaith newydd pan yn oedolyn - dylid canolbwyntio ar blant a phobl ifanc | 2 | 10% |
| Gwneud i bobl di-Gymraeg deimlo yn ddinasyddion ail-ddosbarth | 2 | 10% |
| Safon addysg Saesneg yn warthus yng Ngwynedd | 1 | 5% |
| Rhieni gwrth gymreig yn llesteirio unrhyw obaith cael plant di-Gymraeg i ddysgu'r iaith yn yr ysgol | 1 | 5% |
| Bydd yn rhoi hwb i genedlaetholdeb Cymreig | 1 | 5% |

Rhoddwyd y siawns i’r ymatebwyr gynnig unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill y dylid eu cynnwys er mwyn cynyddu’r nifer o siaradwyr Cymraeg. Bu i 59 wneud sylw pellach. Mae’r sylwadau wedi eu crynhoi yn tabl 5 isod.

**Tabl 5: Syniadau eraill sut i gynyddu siaradwyr Cymraeg – wedi eu grwpio i themau**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwersi/sesiynau anffurfiol Cymraeg hygyrch i bawb, boed yn ddysgwr neu yn siaradwr Cymraeg angen gwella sgiliau | 17 | 29% |
| Rhoi cymhelliad ariannol i fusnesau i gael polisi dwyieithog | 7 | 12% |
| Rhoi'r dewis i bobl pa iaith mae nhw eisiau defnyddio | 7 | 12% |
| Cynnal mwy o weithgareddau dwyieithog | 6 | 10% |
| Gwastraff arian llwyr | 5 | 8% |
| Ni ddylai fod plant Gwynedd yn ddi-Gymraeg gan eu bod yn derbyn addysg Gymraeg | 4 | 7% |
| Rôl y gymuned yn helpu dysgwyr - bod fwy goddefgar o ddysgwyr | 4 | 7% |
| Mwy o angen am addysg cyfrwng Saesneg na Chymraeg | 4 | 7% |
| Creu cyfleoedd economaidd i gadw siaradwyr Cymraeg yn lleol | 3 | 5% |
| Polisi enwau Cymraeg yn unig | 2 | 3% |
| Gwella cefnogaeth i gylchoedd meithrin | 2 | 3% |
| Sicrhau trosglwyddo iaith yn y teulu | 2 | 3% |
| Creu cynllun 'Cymraeg i Rieni' ar gyfer rhieni di-Gymraeg i ddysgu'r iaith ar yr un pryd ag y mae eu plant yn ei dysgu yn yr ysgol | 2 | 3% |
| Rhagrith ymysg y rhai sydd yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg | 2 | 3% |
| Angen chwalu'r myth bod angen gallu siarad Cymraeg perffaith i wiethio i Gyngor Gwynedd | 1 | 2% |
| Angen defnyddio llawer mwy ar gyfryngau cymdeithasol i hybu'r iaith | 1 | 2% |
| Cyngor i ddefnyddio iaith llai ffurfiol mewn dogfennau swyddogol | 1 | 2% |
| Pwysau ar werthwyr tai i hysbysebu mai ardal Gymraeg ydy Gwynedd pan yn gwerthu tai | 1 | 2% |
| Dylai lles a ffyniant y Gymraeg fod yn amod wrth bennu bwriadau polisïau economaidd | 1 | 2% |
| Targedu cefnogaeth ar gyfer y sectorau ble mae wir angen gweithlu Cymraeg | 1 | 2% |

## 3 Meysydd Gweithredu


Rhoddwyd cyfle i’r ymatebwyr roi y meysydd gweithredu mewn trefn o ran pwysigrwydd yng ngwestiwn 3, gyda’r mwyaf pwysig yn cael ranc 1 i'r lleiaf pwysig yn cael ranc 5.

- Iaith Blynyddoedd Cynnar
- Iaith Dysgu
- Iaith Gwaith a Gwasanaeth
- Iaith y Gymuned
- Technoleg ac Ymchwil

Mae graff 4 isod yn dangos y canlyniadau. Gellir gweld yn glir mae’r maes gweithredu mae’r ymatebwyr yn gredu sydd bwysicaf ydi Iaith Blynyddoedd Cynnar gyda 65% (n=103) wedi ei nodi unai

fel blaenoriaeth 1 neu 2. Ar y llaw arall y maes gweithredu Technoleg ac Ymchwil sydd wedi derbyn y ganran isaf o flaenoriaeth 1 a 2 gyda 17% (n=27).

**Graff 4: Trefn pwysigrwydd y meysydd gweithredu**




Yng nghwestiynau 5 i 9, rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi barn ar rai o'r amcanion posib y mae'r Cyngor wedi eu hadnabod o dan bob un o'r meysydd blaenoriaeth, ac fe welir ddadansoddiad o'r ymatebion isod.

### 3.1 Blynyddoedd Cynnar

Mae'r Cyngor wedi adnabod 5 ffrwd gwaith o fewn y maes gweithredu Blynyddoedd Cynnar. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffrydiau gwaith yma, ac os oeddynt yn anghytuno i nodi rheswm pam. Rhestrir y ffrydiau gwaith yn tabl 6 isod sydd hefyd yn nodi'r ganran oedd yn cytuno neu anghytuno.

**Tabl 6: Ffrydiau gwaith maes blaenoriaeth Blynyddoedd Cynnar**

| | Cytuno | Anghytuno | Dim barn / heb ateb |
|---|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth rhieni am y gyfundrefn addysg Gymraeg ac amlygu'r cyfleoedd sydd yna iddynt gael eu cyflwyno i'r Gymraeg cyn i'r plant gyrraedd oed ysgol | 76% | 14% | 10% |
| Ystyried cyfleoedd anffurfiol i rieni ymarfer a magu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg – megis sesiynau sgwrsio/dysgu tra bod y plant mewn gwersi a chlybiau ar ôl ysgol | 75% | 13% | 12% |
| Sicrhau bod gan bob teulu y modd i gael gafael ar adnoddau cyfrwng Cymraeg | 74% | 13% | 13% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Parhau i sicrhau amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer teuluoedd ifanc | 72% | 13% | 15% |
| Cydweithio rhwng y Cyngor a'r Mudiad Meithrin er mwyn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau bod grwpiau Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin yn cael y gefnogaeth briodol i dyfu a ffynnu | 68% | 13% | 19% |

Mae tabl 7 yn nodi y rhesymau roddwyd pam eu bod yn anghytuno. Bu i 29 o ymatebwyr anghytuno gyda o leiaf un o'r ffrydiau gwaith.

**Tabl 7: Rhesymau pam yn anghytuno - wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heb roi rheswm | 15 | 52% |
| Ni ddylai neb gael ei orfodi i siarad Cymraeg | 8 | 28% |
| Gwynedd yn rhoi argraff nad ydy mewnfudwyr yn cael eu croesawu | 4 | 14% |
| Gwastraff adnoddau prin | 4 | 14% |
| Ni ddylai'r Cyngor defnyddio'r Iaith Gymraeg fel esgus i wahaniaethu | 3 | 10% |
| Pwyslais ar y Gymraeg yn stopio buddsoddiad economaidd yn yr ardal | 2 | 7% |

Holwyd, ar gyfer y maes Blynyddoedd Cynnar os oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill ddylid eu cynnwys. Bu i 32 (20%) bod ganddynt awgrymiadau. Gwelir themâu'r awgrymiadau hyn yn tabl 8 isod.

**Tabl 8: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Addysgu rhieni pa mor bwysig ydy gallu siarad dwy iaith | 8 | 25% |
| Gwynedd yn rhoi argraff nad ydy mewnfudwyr yn cael eu croesawu | 6 | 19% |
| Gwella gweithgareddau ieuenctid mewn ardaloedd llai Cymraeg | 4 | 13% |
| Heb nodi'r awgrym | 3 | 9% |
| Annog rhieni i ddefnyddio Cymraeg gyda eu plant | 3 | 9% |
| Angen helpu mudiadau meithrin - gormod ohonynt yn cau | 2 | 6% |
| Angen i'r Cyngor fod yn prynu tai gwag i ddefnydd pobl leol | 2 | 6% |
| Angen sicrhau felly bod gwaith yn yr ardal er mwyn cadw siaradwyr Cymraeg yma | 2 | 6% |
| Sicrhau bod profiad rhieni di-gymraeg yn un pleserus pan maent yn mynychu gweithgareddau Cymraeg | 1 | 3% |
| Rhoi amod ar grantiau cymunedol bod angen defnyddio'r Gymraeg | 1 | 3% |
| Angen cymorth ar blant gyda anghenion dysgu ychwanegol drwy'r iaith Gymraeg | 1 | 3% |
| Dysgu pobl am ddiwylliant a hanes Cymru | 1 | 3% |
| Angen chwalu'r myth bod angen gallu siarad Cymraeg perffaith i weithio i Gyngor Gwynedd | 1 | 3% |
| Angen llawer mwy o apiau Cymraeg | 1 | 3% |
| Diddymu 'r rheolau cynllunio tai i bobl leol | 1 | 3% |

### 3.2 Iaith y Gymuned

Mae'r Cyngor wedi awgrymu 6 ffrwd gwaith o fewn y maes gweithredu Iaith y Gymuned. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffrydiau gwaith yma, ac os oeddynt yn anghytuno i nodi rheswm pam. Rhestrir y ffrydiau gwaith yn tabl 9 isod sydd hefyd yn nodi y ganran oedd yn cytuno neu anghytuno.

**Tabl 9: Ffrydiau gwaith maes blaenoriaeth Iaith y Gymuned – wedi eu grwpio i themau**

| | Cytuno | Anghytuno | Dim barn / heb ateb |
|---|---|---|---|
| Ceisio cefnogi mwy o fentrau cymunedol i greu gweithgareddau a chynlluniau economaidd fydd yn elwa'r cymunedau eu hunain | 74% | 13% | 13% |
| Annog mwy o gynlluniau cyfeillion a sesiynau sgwrsio er mwyn cynorthwyo a magu hyder dysgwyr i wneud y cam o ddysgu mewn gwersi i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned | 74% | 14% | 12% |
| Datblygu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol, yn enwedig felly yn y cymunedau digidol | 70% | 20% | 10% |
| Edrych ar ffyrdd o fesur defnydd iaith yn gymunedol er mwyn gallu blaenoriaethau a chynllunio ymyraethau | 67% | 18% | 15% |
| Dadansoddi data'r cyfrifiad ac edrych ar y wybodaeth o wahanol ymgynghoriadau, ac o waith asesu llesiant y sir er mwyn datblygu dealltwriaeth o be mae "cymuned" yn ei olygu yn y Gwynedd fodern | 64% | 13% | 23% |
| Cydweithio gyda phartneriaid Fforwm Iaith Sirol er mwyn canfod cyfleoedd i gynyddu'r cyfleoedd cymdeithasu cyfrwng Cymraeg a sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu mewn ardaloedd lle mae diffyg cyfleoedd ar hyn o bryd | 64% | 19% | 17% |

Mae tabl 10 yn nodi y rhesymau roddwyd pam eu bod yn anghytuno. Bu i 46 o ymatebwyr anghytuno gyda o leiaf un o'r ffrydiau gwaith.

**Tabl 10: Rhesymau pam yn anghytuno – wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heb roi rheswm | 30 | 65% |
| Gwastraff adnoddau - problemau eraill angen blaenoriaeth | 7 | 15% |
| Pwyslais ar y Gymraeg yn stopio buddsoddiad economaidd yn yr ardal | 2 | 4% |
| Ni ddylid gorfodi addysg Gymraeg | 2 | 4% |
| Does dim awch na'r angen gan bobl i ddysgu Cymraeg | 1 | 2% |
| Angen cyd-lynu gwell rhwng gwaith mentrau cymdeithasol / Y Cyngor a'r Cynghorau Cymuned | 1 | 2% |
| Dim pwynt trio cael oedolion i ddysgu Cymareg - rhy anodd | 1 | 2% |
| Angen blaenoriaethu'r un peth sydd am wneud y gwahaniaeth mwyaf | 1 | 2% |
| Mae'r byd yn newid ac yn anffodus Saesneg ydi'r iaith | 1 | 2% |
| Canlyniadau'r cyfrifiad ddim yn ddibynadwy | 1 | 2% |
| Siaradwyr Cymraeg yn y lleiafrif | 1 | 2% |

Holwyd, ar gyfer y maes Iaith y Gymuned os oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill ddylid eu cynnwys. Bu i 24 (15%) nodi bod ganddynt awgrymiadau. Gwelir themâu'r awgrymiadau hyn yn tabl 11 isod.

**Tabl 11: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cefnogi mentrau cymdeithasol/mudiadau sydd yn bodoli yn barod | 7 | 29% |
| Clybiau sgwrsio | 5 | 21% |
| Dathlu ein cymunedau dwy-ieithog a pheidio gwahaniaethu | 3 | 13% |
| Peidio gwastraffu adnoddau prin ar yr Iaith Gymraeg | 2 | 8% |
| Gwersi Cymraeg hygyrch | 2 | 8% |
| Cefnogaeth ariannol i fusnesau sy'n gweithredu drwy'r Gymraeg | 1 | 4% |
| Sicrhau bob pawb yn siarad Cymraeg | 1 | 4% |
| Gwario llai ar strategaethau a pholisiau a gwario'r arian ar ein system addysg i feithrin siaradwyr Cymraeg i'r dyfodol | 1 | 4% |
| Angen esbonio pwysigrwydd yr iaith Gymraeg a hanes Cymru i ddisgyblion | 1 | 4% |
| Rhoi blaenoriaeth i geisiadau grant ar gyfer digwyddiadau Cymraeg | 1 | 4% |
| Dylai'r Cynllun Datblygu Lleol ddiwallu anghenion trigolion lleol drwy sicrhau mantais i siaradwyr Cymraeg | 1 | 4% |
| Hunaniaeth ar ei newydd wedd i sicrhau amodau i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf | 1 | 4% |
| Cyd-weithio mwy gyda Chomisiynydd yr Iaith | 1 | 4% |
| Cael ffordd well o adnabod niferoedd dysgwyr | 1 | 4% |

## 3.3 Iaith Dysgu

Mae'r Cyngor wedi adnabod 5 ffrwd gwaith o fewn y maes gweithredu Iaith Dysgu. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffrydiau gwaith yma, ac os oeddynt yn anghytuno i nodi rheswm pam. Rhestrir y ffrydiau gwaith yn tabl 12 isod sydd hefyd yn nodi y ganran oedd yn cytuno neu anghytuno.

**Tabl 12: Ffrydiau gwaith maes blaenoriaeth Iaith Dysgu**

| | Cytuno | Anghytuno | Dim barn / heb ateb |
|---|---|---|---|
| Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ac achrediadau i bobl ifanc drwy'r gwasanaeth ieuenctid | 72% | 14% | 14% |
| Cefnogi a datblygu sgiliau hyfforddwyr cymunedol | 71% | 15% | 14% |
| Codi ymwybyddiaeth rhieni am addysg ddwyieithog a gwerth y Gymraeg fel sgil | 70% | 21% | 9% |
| Annog mwy o staff y Cyngor i ddysgu'r Gymraeg ac i wella eu sgiliau llafar ac ysgrifenedig | 69% | 21% | 10% |
| Annog darparwyr cyrsiau sydd yn gysylltiedig efo'r cynllun Prentisiaethau i gynnig cymaint o'u darpariaeth ag sy'n bosib trwy gyfrwng y Gymraeg | 65% | 26% | 9% |

Mae tabl 13 yn nodi y rhesymau roddwyd pam eu bod yn anghytuno. Bu i 48 o ymatebwyr anghytuno gyda o leiaf un o'r ffrydiau gwaith.

**Tabl 13: Rhesymau pam yn anghytuno – wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heb roi rheswm | 20 | 42% |
| Gwastraff adnoddau - problemau eraill angen blaenoriaeth | 7 | 15% |
| Prentisiaethau Cymraeg yn unig yn gwahaniaethu rhwng y rhai Cymraeg a di-gymraeg | 5 | 10% |
| Pwyslais ar y Gymraeg yn stopio buddsoddiad economaidd yn yr ardal | 5 | 10% |
| Addysg Gymraeg yn dal disgyblion/myfyrwyr yn ôl | 5 | 10% |
| Mae cael prentisiaeth dda yn llawer pwysicach na chael o yn Gymraeg | 3 | 6% |
| Ni ddylai'r Cyngor fod yn hyrwyddo'r Gymraeg | 3 | 6% |
| Y gofyn i siarad Cymraeg i allu gweithio yn Gwynedd yn enghraifft o wahaniaethu | 2 | 4% |
| Swydd i'r person gorau ddim i'r un sydd yn gallu siarad Cymraeg | 2 | 4% |
| Rhaid annog staff Cyngor Gwynedd di-gymraeg i ddysgu Cymraeg | 1 | 2% |
| Y Cyngor i ddarparu gwersi Cymraeg i bobl - nid yn unig staff y Cyngor | 1 | 2% |
| Angen chwyldro mawr i newid pethau | 1 | 2% |
| Cymryd bod pob gweithiwr i Gyngor Gwynedd yn siarad Cymraeg yn barod | 1 | 2% |

Holwyd, ar gyfer y maes Iaith y Gymuned os oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill ddylid eu cynnwys. Bu i 31 (19%) bod ganddynt awgrymiadau. Gwelir themâu'r awgrymiadau hyn yn tabl 14 isod.

**Tabl 14: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Angen darbwyllo rhieni / plant, ac athrawon, o werth amhrisiadwy y Gymraeg/dwy-ieithrwydd iddynt ym myd gwaith | 8 | 26% |
| Dysgu staff Cyngor sydd yn delio gyda pobl yn bwysig | 5 | 16% |
| Peidio defnyddio'r iaith Gymraeg fel ffordd o wahaniaethu | 5 | 16% |
| Pwyslais fod ar addysg drwy Saesneg | 2 | 6% |
| Mwy o ddosbarthiadau Cymraeg yn y cymunedau gwledig | 2 | 6% |
| Cyngor i geisio peidio defnyddio Cymraeg ffurfiol mewn holiaduron/gohebiaeth | 1 | 3% |
| Codi ymwybyddiaeth mewnfudwyr am werth yr iaith a'r parch ddylid ei roi iddi | 1 | 3% |
| Gwastraff adnoddau prin | 1 | 3% |
| Sicrhau nad ydy'r bwyslais ar allu siarad Cymraeg yn cadw pobl broffesiynol rhag symud i'r ardal | 1 | 3% |
| Safon iaith Cyngor Gwynedd wedi dirywio yn ofnadwy | 1 | 3% |
| Gwella cyflwr ein hysgolion er mwyn gwneud ysgolion Cymraeg yn ddeiniadol i ddisgyblion | 1 | 3% |
| Canolbwyntio ymdrechion mewn ardaloedd sydd wedi gweld dirywiad yn nifer y siaradwyr | 1 | 3% |
| Edrych i ddefnyddio technoleg i helpu pobl ddysgu Cymraeg | 1 | 3% |
| Dylid annog staff busnesau/gwasanaethau i gyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg hyd yn oed ambell air | 1 | 3% |
| Pennu mwy o ysgolion yn Ysgolion Cymraeg yn hytrach na dwy-ieithog | 1 | 3% |

### 3.4 Iaith Gwaith a Gwasanaeth

Mae'r Cyngor wedi adnabod 6 ffrwd gwaith o fewn y maes gweithredu Iaith Gwaith a Gwasanaeth. Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda'r ffrydiau gwaith yma, ac os oeddynt yn anghytuno i nodi rheswm pam. Rhestrir y ffrydiau gwaith yn tabl 15 isod sydd hefyd yn nodi y ganran oedd yn cytuno neu anghytuno.

**Tabl 15: Ffrydiau gwaith maes blaenoriaeth Iaith Gwaith a Gwasanaeth**

| | Cytuno | Anghytuno | Dim barn / heb ateb |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil a datblygu dealltwriaeth pobl o bob oed am y galw yn y byd gwaith | 70% | 20% | 10% |
| Cydweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus i weld sut y gallwn ni drosglwyddo rhai o'r arferion da yma i sefydliadau eraill, ac hefyd i gydweithio i wella profiadau'r defnyddwyr | 68% | 20% | 12% |
| Annog busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg, er mwyn sicrhau cymaint a phosib o gyfleoedd i'r trigolion ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau dyddiol | 67% | 25% | 8% |
| Annog mwy o gyrff cyhoeddus i arddel y cynnig rhagweithiol, gwneud defnydd effeithiol o gyfarfodydd a gweithredu yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg | 66% | 25% | 9% |
| Sicrhau bod y Gymraeg yn cael sylw teg wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau recriwtio, datblygu sgiliau gweithlu a chefnogi ddysgwyr | 66% | 26% | 8% |
| Treialu cynlluniau o fewn y Cyngor i annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor, yn enwedig gwasanaethau ar-lein | 64% | 26% | 10% |

Mae tabl 16 yn nodi y rhesymau roddwyd pam eu bod yn anghytuno. Bu i 50 o ymatebwyr anghytuno gyda o leiaf un o'r ffrydiau gwaith.

**Tabl 16: Rhesymau pam yn anghytuno – wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heb roi rheswm | 24 | 48% |
| Ni ddylid rhoi mwy o bwyslais ar un iaith na'r llall | 10 | 20% |
| Ni ddylid cyflogi rhywun ar sail yr iaith maent yn siarad | 9 | 18% |
| Dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar safon y gwasanaeth | 7 | 14% |
| Mae'n teimlo fel nad ydy pobl o du allan i Gymru yn cael eu croesawu | 6 | 12% |

Holwyd, ar gyfer y maes Iaith y Gymuned os oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill ddylid eu cynnwys. Bu i 28 (18%) bod ganddynt awgrymiadau. Gwelir themâu'r awgrymiadau hyn yn tabl 17 isod.

**Tabl 17: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cynnig gwell hyfforddiant Cymraeg i weithwyr di-gymraeg | 5 | 18% |
| Sicrhau safonau dwy-ieithog i fusnesau | 3 | 11% |
| Stopiwch wneud mewnfudwyr deimlo nad oes croeso iddynt | 3 | 11% |
| Angen edrych ar wasanaethau cyfieithu gwell | 3 | 11% |
| Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal | 3 | 11% |
| Gwobrwyo busnesau sydd yn llwyddo i hybu defnydd y Gymraeg | 3 | 11% |
| Dysgu hanes yr iaith i blant a theuluoedd newydd i'r ardal - ysgogi nhw i ddysgu | 3 | 11% |
| Dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar safon y gwasanaeth | 3 | 11% |
| Cyngor angen polisi iaith cryfach | 1 | 4% |
| Angen edrych ar poisiau cynllunio | 1 | 4% |
| Stopio mewnfudwyr hawlio tir comin | 1 | 4% |
| Papurau Bro am ddim i ardaloedd di-gymraeg | 1 | 4% |
| Angen ffurflenni Cymraeg haws i'w deall | 1 | 4% |
| Gwefan y Cyngor beidio mynd yn syth i'r dudalen Saesneg wrth chwilio | 1 | 4% |
| Mwy o ddefnydd arwyddion/bathodynau "dechreuwch bob sgwrs yn Gymraeg" | 1 | 4% |

## 3.5 Technoleg ac Ymchwil

Mae’r Cyngor wedi adnabod 2 ffrwd gwaith o fewn y maes gweithredu Technoleg ac Ymchwil. Rhoddwyd cyfle i’r ymatebwyr nodi os oeddynt yn cytuno neu anghytuno gyda’r ffrydiau gwaith yma, ac os oeddynt yn anghytuno i nodi rheswm pam. Rhestrir y ffrydiau gwaith yn tabl 18 isod sydd hefyd yn nodi y ganran oedd yn cytuno neu anghytuno.

**Tabl 18: Ffrydiau gwaith maes blaenoriaeth Technoleg ac Ymchwil**

| | Cytuno | Anghytuno | Dim barn / heb ateb |
|---|---|---|---|
| Parhau i godi ymwybyddiaeth am yr apiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, er mwyn annog pobl i ddefnyddio mwy ar y Gymraeg ar -lein | 70% | 17% | 13% |
| Ystyried a ddylid galw am sefydlu cronfa wybodaeth ac ymchwil ganolog, lle mae posib cael gafael yn rhwydd ar waith ymchwil perthnasol | 50% | 18% | 32% |

Mae tabl 19 yn nodi y rhesymau roddwyd pam eu bod yn anghytuno. Bu i 37 o ymatebwyr anghytuno gyda o leiaf un o’r ffrydiau gwaith.

**Tabl 19: Rhesymau pam yn anghytuno – wedi eu grwpio i themau**

| Rheswm | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heb roi rheswm | 23 | 62% |
| Gwastraff amser ac adnoddau | 9 | 24% |
| Ymchwil o safon - beth bynnag fo'r iaith | 3 | 8% |
| Mae'r pwyslais ar wneud bob dim yn Gymraeg yn niweidiol i sgiliau saesneg plant | 2 | 5% |
| Dylid gadael hyn i'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg | 1 | 3% |

Holwyd, ar gyfer y maes Iaith y Gymuned os oedd gan yr ymatebwyr unrhyw awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill ddylid eu cynnwys. Bu i 22 (14%) nodi bod ganddynt awgrymiadau. Gwelir themâu'r awgrymiadau hyn yn tabl 20 isod.


**Tabl 20: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth o apiau Cymraeg - defnydd o enwogion i hyrwyddo | 3 | 14% |
| Dylai'r Cyngor ganolbwyntio ar safon y gwasanaeth | 3 | 14% |
| Dylanwadau ar gwmniau megis Apple/Google i gynyddu defnydd o Gymraeg | 3 | 14% |
| Angen mewnbwn pobl ifanc | 2 | 9% |
| Apiau i ddefnyddio enwau lleoedd yn Gymraeg yn unig | 2 | 9% |
| Sicrhau mae Cymraeg ydy iaith rhagosod gwefanau | 1 | 5% |
| Angen i sgop fod llawer mwy na just apiau Cymraeg - angen edrych ar oblygiadau AI | 1 | 5% |
| Cofio nad ydy cysylltiad wê ym mhob ardal o Wynedd i'r un safon | 1 | 5% |
| Cyfeiriad e-bost Cymru i bawb | 1 | 5% |
| Gwersi Cymraeg am ddim i weithwyr o dramor | 1 | 5% |
| Dysgu Cymraeg yn yr ysgolion | 1 | 5% |
| Gwella technoleg gyfieithu fel nad oes angen dysgu'r iaith | 1 | 5% |
| Templedi ar gyfer gwefanau dwy-ieithog | 1 | 5% |
| Heb y gwaith ymchwil nid oes modd gwybod beth sydd ei angen | 1 | 5% |
| Dylai prosiectau yma gael eu ariannu yn breifat | 1 | 5% |

## 4 Effaith y Cynllun


Holwyd yr ymatebwyr a oeddynt yn credu bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn mynd i gael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg yng Ngwynedd yng nghwestiwn 10. Mae graff 5 isod yn dangos bod 40% (n=64) yn cytuno bod y cynllun am gael effaith gadarnhaol, gyda 26% (n=41) yn anghytuno a 33% (n=54) ddim yn siŵr beth fyddai effaith y cynllun ar y Gymraeg yng Ngwynedd.

**Graff 5: Ydych chi'n credu bod y cynllun yn ei gyfanrwydd yn mynd i gael effaith cadarnhaol ar y Gymraeg yng Ngwynedd**




Roedd cyfle i'r ymatebwyr awgrymu os oes camau penodol all y Cyngor eu cymryd i sicrhau bod y strategaeth yn un gynhwysol, yn annog a chynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg grwpiau penodol o'r gymdeithas, yn arbennig pobl gyda nodweddion gwarchodedig cydraddoldeb. Gwelir yr ymateb yn graff 6 isod.

**Graff 6: Oes camau penodol i'w cymryd i sicrhau strategaeth gynhwysol**




I'r rhai atebodd "oes" roedd cyfle iddynt nodi sut y gellid cyflawni hyn. Mae awgrymiadau'r 49 ymatebydd i'w gweld yn tabl 21 isod.

**Tabl 21: Awgrymiadau o ran addasiadau neu syniadau eraill – wedi eu grwpio i themau**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ymgynghori gyda grwpiau o bob math i sicrhau cynrychiolaeth a chyd-berchnogaeth | 16 | 33% |
| Sicrhau bod y strategaeth yn gynhwysol i bob un o drigolion Gwynedd | 12 | 24% |
| Ni ddylid hyrwyddo'r Gymraeg i'r fath raddau fel ei fod yn ffordd o wahaniaethu rhwng y rhai hynny sydd yn ddi-gymraeg | 9 | 18% |
| Gwersi Cymraeg am ddim i oedolion / grwpiau lleiafrifol | 7 | 14% |
| Heb nodi eu awgrym | 5 | 10% |
| Cael gwared ar y stigma am ddysgu Cymraeg a pheidio cywiro y rhai sydd yn ceisio ei dysgu | 3 | 6% |
| Angen hyfforddiant i oflawyr er mwyn iddynt allu cyfathrebu drwy'r Gymraeg | 2 | 4% |
| Sicrhau nad ymarfer papur yn unig ydy'r strategaeth | 2 | 4% |
| Pendantrwydd i roi'r Gymraeg yn gyntaf ar bob achlysur | 2 | 4% |
| Angen cydweithio gyda busnesau annibynnol | 1 | 2% |
| Angen defnyddio llawer mwy ar y cyfryngau cymdeithasol i hybu'r iaith | 1 | 2% |
| Annog plant sy'n symud o cynradd i uwchradd i barhau i ddefnyddio eu Cymraeg | 1 | 2% |
| Pwyslais ar addysg Gymraeg yn niweidiol i'r plant a anghenion swyddi yn y dyfodol | 1 | 2% |
| Angen mwy o gynghorwyr di-gymraeg | 1 | 2% |
| Defnyddio enwau Cymraeg yn unig ar lefydd | 1 | 2% |
| Rhoi pwyslais ar y manteision o fod yn ddwyieithog | 1 | 2% |
| Angen mwy o ddeunyddiau ar gyfer y rhai nad ydynt yn gallu siarad | 1 | 2% |
| Newid polisiau Gwynedd sy'n mynnu bod gweithwyr yn gallu siarad Cymraeg | 1 | 2% |
| Gwastraff amser ac adnoddau | 1 | 2% |
| Angen rhoi pwysau ar weddill Cymru i wneud mwy i hybu'r Gymraeg | 1 | 2% |
| Edrych ar y diffyg cartrefi sydd ar gael i gadw pobl ifanc yn yr ardal | 1 | 2% |

Yn olaf yng nghwestiwn 11, roedd cyfle i'r ymatebwyr nodi unrhyw sylwadau eraill oedd ganddynt ar gynnwys y strategaeth. Bu i 38% (n=54) wneud sylw pellach. Ceir crynodb o'r sylwadau yma yn tabl 22 isod.

**Tabl 22: Unrhyw sylwadau eraill – wedi eu grwpio i themau**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Teimlo'n obeithiol wedi darllen y strategaeth | 14 | 26% |
| Gwastraff amser ac adnoddau prin | 8 | 15% |
| Dathlu dwyieithrwydd a dim creu cymuned ranedig | 7 | 13% |
| Pwyslais ar y Gymraeg yn stopio buddsoddiad economaidd yn yr ardal | 6 | 11% |
| Angen cynyddu'r nifer disgyblion sydd yn derbyn addysg Gymraeg yn yr uwchradd/cwblhau arholiadau drwy'r Gymraeg | 4 | 7% |
| Angen sicrhau bod swyddi gwerth uchel yn yr ardal i gadw ein pobl ifanc yn yr ardal | 4 | 7% |
| Addysg Gymraeg yn anfanteisiol | 4 | 7% |
| Rhaid canolbwyntio ar newid meddylfryd plant a phobl ifanc am yr iaith | 3 | 6% |
| Rhaid canolbwyntio ar wneud yr iaith yn iath gymdeithasol | 2 | 4% |
| Bwlch rhwng yr iaith ffurfiol a chymdeithasol yn gwneud yn anodd i ddysgwyr | 2 | 4% |
| Peidio defnyddio'r iaith fel ffordd i wahaniaethu | 2 | 4% |

| | | |
|---|---|---|
| Defnyddio'r iaith yn ddyddiol i fagu hyder | 1 | 2% |
| Ysgolion i sicrhau eu bod yn rhoi cymorth angenrheidiol i'r rhieni di-gymraeg | 1 | 2% |
| Diffyg siaradwyr Cymraeg i ddysgwyr ymarfer gyda nhw | 1 | 2% |
| Angen taclo'r anghyfiawnderau megis perchnogaeth tŷ i helpu gyda sefyllfa'r iaith | 1 | 2% |
| Angen rhoi pwysau ar weddill Cymru i wneud mwy i hybu'r Gymraeg | 1 | 2% |
| Pryderu bod poblogaeth Gwynedd yn gostwng | 1 | 2% |
| Peidio denu mwy o drigolion di-gymraeg i Wynedd | 1 | 2% |
| Angen hysbysebu'r ymgynghoriadau yn well | 1 | 2% |
| Yr unig fesur gwerth i'w gael ydi'r nifer siaradwyr | 1 | 2% |

**Atodiad A** **Canlyniadau Cwestiynau Cydraddoldeb**

Bydd yr adran yma yn dangos canlyniadau i'r cwestiynau cydraddoldeb a holwyd ar ddiwedd yr holiadur.

**Tabl 23: Rhyw**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Dyn / Gwryw | 55 | 34.6% |
| Dynes / Benyw | 87 | 54.7% |
| Dwi'n uniaethu mewn ffordd wahanol | 1 | 0.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 14 | 8.8% |
| Heb ateb | 2 | 1.3% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100.0%** |

**Tabl 24: Oed**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| 25 - 34 oed | 3 | 1.9% |
| 35 - 44 oed | 21 | 13.2% |
| 45 - 54 oed | 36 | 22.6% |
| 55 - 64 oed | 35 | 22.0% |
| 65 - 74 oed | 37 | 23.3% |
| 75 - 84 oed | 14 | 8.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 12 | 7.5% |
| Heb ateb | 1 | 0.6% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100.0%** |

**Tabl 25: Sgiliau Cymraeg**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Siarad, darllen ac ysgrifennu yn rhugl | 84 | 52.8% |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu, ond ddim yn hyderus iawn | 14 | 8.8% |
| Siarad, darllen ac ysgrifennu – wrthi'n dysgu | 12 | 7.5% |
| Siarad, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu | 5 | 3.1% |
| Ddim yn gallu siarad na deall Cymraeg | 14 | 8.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 16 | 10.1% |
| Arall | 14 | 8.8% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100.0%** |

**Tabl 26: Cenedligrwydd neu hunaniaeth genedlaethol**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cymreig | 88 | 55.3% |
| Seisnig | 19 | 11.9% |
| Prydeinig | 34 | 21.4% |
| Arall | 6 | 3.8% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 10 | 6.3% |
| Heb ateb | 2 | 1.3% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100.0%** |

**Tabl 27: Hil**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Gwyn | 134 | 84.3% |
| Cymysg / sawl grŵp ethnig | 2 | 1.3% |
| Asiaidd | 1 | 0.6% |
| Du / Affricanaidd / Caribiaidd | 1 | 0.6% |
| Arall | 1 | 0.6% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 17 | 10.7% |
| Heb ateb | 3 | 1.9% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100.0%** |

**Tabl 28: Crefydd**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cristion | 67 | 42.1% |
| Dim crefydd | 61 | 38.4% |
| Bwdhaidd | 1 | 0.6% |
| Iddewig | 1 | 0.6% |
| Arall | 9 | 5.7% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 19 | 11.9% |
| Heb ateb | 1 | 0.6% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100.0%** |

**Tabl 29: Rhywioldeb**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Heterorywiol / Strêt | 122 | 76.7% |
| Dynes hoyw / lesbiaidd | 1 | 0.6% |
| Dyn hoyw | 4 | 2.5% |
| Deurywiol (Bisexual) | 2 | 1.3% |
| Arall | 3 | 1.9% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 24 | 15.1% |
| Heb ateb | 3 | 1.9% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100.0%** |

**Tabl 30: Hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydi | 3 | 1.9% |
| Nac ydi | 135 | 84.9% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 17 | 10.7% |
| Heb ateb | 4 | 2.5% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100.0%** |

**Tabl 31: Anabledd (yn ôl diffiniad Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010)**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydw | 21 | 13.2% |
| Nac ydw | 118 | 74.2% |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 17 | 10.7% |
| Heb ateb | 3 | 1.9% |
| **Cyfanswm** | **159** | **100.0%** |

# Strategaeth Iaith Gwynedd

2023-2033

Uned Iaith

CYNGOR GWYNEDD



gwynedd.llyw.cymru

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad....................................................................................1**

**2. Datganiad o weledigaeth.......................................................2**

**3. Cyd-destun gweithredu.........................................................3**

**4. Sefyllfa gyfredol - crynodeb o'r sefyllfa ystadegol a'r heriau...................7**

4.1 4.1 Sefyllfa ystadegol.................................................................7

4.2 Dylanwadau ar ddefnydd iaith?..............................................9

**5. Camau nesaf...........................................................................12**

5.1 Targed Cynyddu nifer siaradwyr
(Thema 1 Cymraeg 2050)...............................................................13

5.2 Amcanion a Chamau Gweithredu ar gyfer cynyddu Defnydd
(Thema 2 Cymraeg 2050)...............................................................13

5.3 Amcanion a Chamau Gweithredu ar gyfer Creu Amodau Ffafriol
(Thema 3 Cymraeg 2050)...............................................................26

5.4 Monitro a mesur.........................................................................28

# 1. Cyflwyniad

Mae'r strategaeth hon wedi ei chreu fel dilyniant i waith ***Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23*** (sef strategaeth iaith flaenorol y Cyngor) er mwyn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor i hybu a hyrwyddo'r iaith ar draws y sir ac i fodloni'r gofynion statudol a osodir o fewn Safonau'r Gymraeg. Mae'n dangos rhywfaint o'r prosiectau a gwaith sydd yn cael eu cynnal gan y Cyngor ar hyn o bryd, a rhai o'r materion yr hoffem fynd i'r afael â nhw dros y blynyddoedd nesaf.

Mae'r strategaeth hon wedi ei llunio ar sail gwaith ymgynghori mewnol ac allanol. Cafwyd trafodaethau gydag Aelodau Cabinet y Cyngor, y Pwyllgor Iaith ac aelodau Fforwm Iaith Gwynedd (sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o fudiadau a sefydliadau partner a chymunedol) a chynhaliwyd cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn ystod mis Mai 2023.

Mae'r strategaeth yn gosod gweledigaeth ar gyfer cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir gyfan, ac mae'r cynlluniau neu brosiectau sydd yn cael eu cynnig yn canolbwyntio ar feysydd lle y mae gan y Cyngor rym a dylanwad i weithredu.

Rydym yn gosod y strategaeth am gyfnod o 10 mlynedd. Bydd hyn yn golygu fod cyfnod y strategaeth yn cyd-fynd gyda chyhoeddi ystadegau'r cyfrifiad, ac yn rhoi dull mesur mwy effeithlon i ni. Byddwn yn adolygu'r strategaeth yn ffurfiol ar ôl cyfnod o 5 mlynedd, ac yn ceisio cryfhau'r sylfaen tystiolaeth yn rheolaidd yn ystod y cyfnod hwnnw, er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau yn adlewyrchu anghenion datblygol y cymunedau a'n bod yn ymateb yn amserol i unrhyw heriau sydd yn codi.

Un peth y bydd angen i ni edrych arno yn ystod cyfnod cyntaf y strategaeth yw sicrhau bod llais pobl ifanc yn cael ei glywed, a'n bod yn gwybod beth yw'r heriau sydd yn eu hwynebu a beth yw eu dyheadau o ran cynyddu defnydd o'r Gymraeg.

Mae cyfrifoldeb arnom, fel y nodwyd uchod, i gymryd camau penodol i warchod yr iaith Gymraeg fel iaith leiafrifol, ac i sicrhau nad yw presenoldeb cynyddol yr iaith Saesneg yn bygwth hyfywedd y Gymraeg a'i defnydd fel cyfrwng cyfathrebu a mynegiant naturiol gan drigolion y sir.

# 2. Datganiad o weledigaeth

Rydym yn bwriadu creu strategaeth gynhwysol, gyda'r prif nod o gynyddu cyfleoedd i bob un o drigolion Gwynedd weld a defnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

Drwy weithio ar godi statws a chynyddu defnydd pobl o'r iaith ym mhob rhan o'u bywydau, byddwn hefyd gobeithio yn cynyddu'r cymhelliant i eraill ddysgu'r iaith.

Rydym am roi sylw penodol i geisio cynyddu defnydd iaith pobl ifanc dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys dangos iddynt werth yr iaith fel sgil i'r byd gwaith, a cheisio cynyddu'r cyfleoedd anffurfiol iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol.

Byddwn hefyd yn ceisio rhoi sylw penodol i sut y gallwn ni gael dylanwad cadarnhol ar y ffordd mae'r trigolion yn defnyddio'r Gymraeg yn yr amrywiol ddulliau y mae technoleg yn rhan o'u bywydau.

# 3. Cyd-destun gweithredu

Mae'n bwysig nodi bod y Cyngor yn gweithredu cynlluniau mewn nifer o feysydd perthnasol lle mae arweiniad statudol a pholisi ar lefel genedlaethol, ac hefyd yn gweithredu cynlluniau ar lefel leol sydd yn cael effaith ar gymunedau'r sir, a'r Gymraeg, neu sydd yn ymwneud mewn rhyw ffordd efo ymdrechion i geisio cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg.

Mae'r gwaith sydd yn cael ei gyflawni yn y meysydd yma - Tai, Addysg, Economi, Cynllunio Gwlad a Thref er enghraifft – yn rhan bwysig o wireddu amcanion cyffredinol y strategaeth yma, ac mae'r ymyraethau sydd yn cael eu gweithredu gan y Cyngor i warchod ac annog ffyniant cymunedau Gwynedd yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar y boblogaeth yn y cymunedau hynny, ac felly ar siaradwyr Cymraeg. Er bod prif bwyslais y ddogfen strategol yma ar brosiectau a chynlluniau sydd y tu hwnt i'r polisïau a strategaethau yma – gan roi sylw i waith sydd eisoes ar droed, ac ar adnabod y cyfleoedd newydd sydd yna i fynd y tu hwnt i ofynion darparu gwasanaethau i hybu defnydd o'r Gymraeg – mae'n bwysig ein bod hefyd yn cyfeirio at y cynlluniau strategol yma, er mwyn dangos sut y mae'r Cyngor yn blaenoriaethu'r Gymraeg drwy ei holl gynlluniau.

Mae nifer o'r cynlluniau hyn yn mynd y tu hwnt i'r arweiniad cenedlaethol yn eu meysydd ac yn ceisio mynd i'r afael â'r heriau penodol sydd yn wynebu cymunedau a phoblogaeth Gwynedd, ac o ganlyniad yn effeithio ar ffyniant y Gymraeg.

## Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Cynllun sydd yn ateb gofynion adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, ac yn gosod y weledigaeth o gael cyfundrefn addysg Gymraeg a dwyieithog sydd yn rhoi anghenon ein holl ddysgwyr yn ganolog i'n darpariaeth. Mae'r Cynllun yn gosod ymrwymiad a chyfeiriad clir ar gyfer sicrhau bod dysgwyr Gwynedd yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

## Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd

Mae anallu'r boblogaeth leol – ac yn benodol felly y rhwystrau sydd yna i bobl ifanc allu fforddio prynu tai fydd yn eu galluogi i aros o fewn eu cymunedau – wedi bod yn destun trafod ers rhai blynyddoedd, ac yn cael ei weld fel bygythiad mawr i sefyllfa'r Gymraeg yn y sir gan ei fod yn gorfodi pobl i symud o'u cymunedau. Mae Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21-2026/27 yn gynllun gwerth dros £140m ac yn cynnwys 30 o brosiectau uchelgeisiol sydd yn ceisio gwireddu'r nod o sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd. Mae enghreifftiau o gynlluniau sydd eisoes ar waith ac sy'n dwyn ffrwyth yn cynnwys Cynllun Prynu Cartref Gwynedd, Cynllun Prynwyr Tro Cyntaf i adnewyddu tai gwag a chynlluniau prynu a chodi tai fforddiadwy.

## Cynllun Datblygu Lleol

Y cynllun a ddefnyddir gan y Cyngor i arwain a rheoli gwaith datblygu, a rhoi y sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae hyn yn effeithio ar lle a phryd y caiff tai eu hadeiladu, ac ar faint o dai fforddiadwy sydd ar gael. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd ynghlwm i'r CDLl yn galluogi'r Cyngor i ofyn am asesiadau effaith rhai datblygiadau ar y Gymraeg ac i osod amodau ar ddatblygiadau preswyl a busnes fydd yn ceisio hybu'r iaith.

## Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy

Trwy gydweithio ar ddatblygu'r Cynllun ac adnabod trefniadau cydweithio newydd mae'r ddau gorff yn ymrwymo i weithredu er mwyn gweld "economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri"

Mae hwn yn gynllun sy'n torri tir newydd ac yn cyflwyno ffordd newydd o fesur effaith yr economi ymweld yn ei gyfanrwydd ar ein hardal gan ystyried effeithiau ar ein iaith, diwylliant a threftadaeth, yr amgylchedd ac ar ein cymunedau.

## Cynlluniau Adfywio Ardal Ni

Yn 2021, cytunodd Bwrdd Adfywio Cyngor Gwynedd i ddatblygu Fframwaith Adfywio newydd. Bwriad y Fframwaith yw sicrhau bod camau rhagweithiol yn eu lle er mwyn sicrhau cydweithio i wella'r ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol. Mae'r sir wedi ei rhannu i 13 o ardaloedd adfywio. Un o flaenoriaethau'r cynlluniau adfywio yw i adnabod Cynlluniau sy'n rhoi cefnogaeth i weithgareddau sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant ac sy'n cefnogi dysgwyr yr iaith.

Mae 13 cynllun adfywio unigryw wedi cael eu datblygu yn dilyn gwaith ymgynghori Ardal Ni yn 2022, er mwyn adlewyrchu dyheadau cymunedau lleol Gwynedd.

## Cyd-destun ariannol:

Mae'n rhaid cydnabod hefyd ein bod yn gweithredu mewn cyfnod heriol iawn yn ariannol, ac na fydd y cyfyngiadau cyllidol yn caniatáu i ni wneud pob dim yr hoffem ei wneud dros gyfnod y strategaeth, nac i wneud pob dim ar unwaith. Bydd angen bod yn ofalus ac yn realistig am yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn yr adnoddau sydd ar gael , gwneud yn fawr o gyfleoedd cydweithio er mwyn rhannu adnoddau, ac adolygu'r rhaglen waith a'r prosiectau pan fydd y sefyllfa ariannol yn newid. Byddwn yn gwneud cymaint a phosib gyda'r adnoddau sydd gennym, neu drwy adnabod cyfleoedd cydweithio gyda sefydliadau eraill.

## Cyd-destun polisi cynllunio ieithyddol:

## Cymraeg 2050

Cymraeg 2050 yw strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru, sydd yn amlinellu sut maent yn bwriadu mynd ati i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg a gweithio tuag at y nod o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Cafodd Cynllun Gweithredu 5 mlynedd ei gyhoeddi ar gyfer 2021 i 2026, sydd yn rhoi pwyslais cryf ar gynyddu nifer siaradwyr Cymraeg drwy'r gyfundrefn addysg, ond mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys amcanion a thargedau ar gyfer cynyddu defnydd iaith ym mhob rhan o fywyd. Mae tri phrif thema neu amcan i waith y Llywodraeth, sef:

- Cynyddu nifer siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu defnydd o'r Gymraeg a
- Creu amodau ffafriol

Er bod gwaith strategaeth Gwynedd wedi ei rhannu yn 5 prif faes gweithredu, rydym hefyd yn dangos sut mae amcanion y strategaeth yma yn cyfrannu at 3 maes gweithredu strategaeth Cymraeg 2050.

# 4. Sefyllfa gyfredol - crynodeb o'r sefyllfa ystadegol a'r heriau

## 4.1 Sefyllfa ystadegol

### Cyfrifiad

Ar ddiwrnod Cyfrifiad 2021 roedd 73,560 o bobl (3 oed a hyn) yn gallu siarad Cymraeg yng Ngwynedd sy'n cyfateb i 64.4%.

Yn 2011 roedd nifer y siaradwyr yng Ngwynedd yn 77,000 a'r ganran gyfatebol yn 65.4%, felly mae'r cyfran wedi gostwng 1%.

Er mai gostyngiad bychan iawn yn nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn y sir oedd i'w weld, mae dal yn newid i'r cyfeiriad anghywir.

Rydym wedi gosod amcan penodol ar gyfer cyfnod cychwynnol y strategaeth iaith newydd yma i edrych yn fanwl ar ganlyniadau'r cyfrifiad, er mwyn deall yr union newidiadau sydd yn digwydd ar draws y gwahanol grwpiau oedran, ac ardaloedd o'r sir. Yn syth wedi i ganlyniadau'r cyfrifiad gael eu cyhoeddi, aeth ein gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg ati i edrych ar y proffil ieithyddol, gan gyflwyno dadansoddiad cychwynnol i Bwyllgor Iaith y Cyngor ac i'r Aelodau Cabinet. Gwelir linc i'r dadansoddiad isod. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gwneud rhywfaint o waith pellach yn dechrau cymharu y gwahanol setiau data sydd ar gael o'r cyfrifiad.

Newyddlen Iaith Gymraeg

# Arolwg Defnydd Iaith Cenedlaethol

Y sylfaen tystiolaeth arall sydd gennym yw'r Arolwg Defnydd Iaith cenedlaethol, sydd yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd yr arolwg diweddaraf yn ystod 2012-22 ac mae'n nodi sefyllfa gyffredinol Gwynedd fel a ganlyn:

Mae'r ganran o'r bobl a gymerodd ran yn yr arolwg o Wynedd ac a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn 64% ar gyfer 2019-20 ac yn codi i 69% ar gyfer 2021-22.

Roedd y gyfran a oedd yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg yn ddyddiol, a mwy na ambell air, yn 61% yn 2019-20 ac yn 60% ar gyfer 2021-22.

Mae rhaid nodi mai arolwg - gyda sampl penodol a chyfyngedig o bobl - yw'r Arolwg Defnydd, a bod y Cyfrifiad, mewn cyferbyniad, yn arolwg sydd yn cynnwys y boblogaeth gyfan. Rhaid bod yn ofalus felly wrth wneud unrhyw gymhariaeth rhwng y gwahanol ffigyrau. Mae'n ddifyr nodi, serch hynny, bod y ganran yn ymddangos yn uwch yn yr arolwg defnydd, ac mae'n awgrymu bod y darlun ystadegol yn ddibynnol iawn ar y cwestiwn sydd yn cael ei ofyn yn y ddau arolwg.  Rydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn edrych ar y gwahaniaethau yma ar hyn o bryd wrth edrych ar y data fydd ei angen yn y dyfodol.

Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol SatsCymru

Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru. Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020 LLYW.CYMRU

Un mater o bryder ar hyn o bryd yw'r posibilrwydd na fydd cyfrifiad cenedlaethol arall yn cael ei gynnal ymhen 10 mlynedd.  Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wrthi yn ymgynghori ar ddyfodol y cyfrifiad ar ei ffurf bresennol, ac mae oblygiadau sylweddol i'r data sydd gennym am yr iaith Gymraeg petai penderfyniad yn cael ei wneud i beidio cynnal cyfrifiad eto. Bydd angen i'r Cyngor gadw golwg ar y sefyllfa yma ac ystyried yr angen i gynnal arolygon sirol ein hunain er mwyn gallu monitro defnydd iaith ac hefyd llwyddiant y strategaeth hon.

# 4.2 Dylanwadau ar ddefnydd iaith?

Er mwyn i ni allu canfod y cyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg ac i gynyddu nifer y siaradwyr o fewn y sir, mae angen i ni hefyd allu cydnabod yr heriau a'r rhwystrau sydd yn atal hynny. Mae angen i ni allu adnabod y ffactorau sosio-economaidd sydd yn effeithio ar ein cymunedau, a deall sut mae'r rheiny yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar statws a defnydd iaith, ac hefyd ar agweddau pobl tuag at yr iaith Gymraeg. Rhaid edrych ar y sefyllfaoedd a'r amgylchiadau lle mae pobl yn defnyddio llai o'r iaith yn eu bywyd dyddiol, a pa ffactorau sydd yn effeithio ar ddefnydd personol unigolyn o'r iaith.

**Yn sicr ddigon, cael pobl i ddefnyddio'r sgiliau a'r gallu sydd ganddyn nhw i siarad Cymraeg yn hyderus, a hynny mewn cymaint â phosib o gyd-destunau, yw un o'r ffactor bwysig i ffyniant yr iaith yng Ngwynedd.**

O safbwynt cynllunio ieithyddol, mae sawl ffactor allweddol i'w ystyried wrth drafod yr hyn sydd yn effeithio ar ddefnydd iaith unigolion. Mae'r rhain wedi eu disgrifio fel a ganlyn gan Gomisiynydd y Gymraeg: (Pwynt 3.36 Canllaw arfer da Safonau Hybu CyG )

**dilyniant** – parhad profiadau a chyfleoedd o addysg gynradd i uwchradd; o addysg uwchradd i addysg bellach neu uwch; o addysg i fyd gwaith, hamdden, magu teuluoedd, yn ogystal â rhwng profiadau cymdeithasol a chymunedol a rhwng dysgu Cymraeg a dod yn rhugl.

**cyfle** – mae ansawdd a hwylustod cyfleoedd yn gallu effeithio'n fawr ar ddefnydd a chynnal defnydd o'r iaith i'r dyfodol.

**agweddau** – mae'n bwysig ystyried sut mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo am eu gallu a'u defnydd o'r iaith a'r modd maen nhw'n gweithredu ar hynny neu ddim, a sut mae pobl ddi-Gymraeg yn teimlo am yr iaith a'r modd y caiff hyn ei gyfleu a'i ganfod.

**hyder** – mae hyder siaradwyr Cymraeg yn gallu amrywio yn ôl sefyllfa (ee. ffurfiol ac anffurfiol) ac felly mae angen ystyried sut a ble i dargedu cefnogaeth yn effeithiol.

**Dyma rhai o'r prif faterion sydd yn dylanwadu ar ddefnydd iaith ac hefyd ar nifer siaradwyr yng Ngwynedd ar hyn o bryd:**

### Trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu:

Teuluoedd ddim yn trosglwyddo'r iaith i'w plant gan arwain at golli'r Gymraeg fel iaith y cartref. Rhieni di-Gymraeg ddim yn cael digon o anogaeth a chefnogaeth i gyflwyno'r Gymraeg i'w teulu cyn i blant gyrraedd yr ysgol.

### Defnydd iaith pobl ifanc:

Nid yw defnydd iaith i weld yn adlewyrchu nifer y siaradwyr ymysg y genhedlaeth iau, ac mae pryder ein bod yn "colli" nifer o siaradwyr erbyn iddynt adael addysg ffurfiol. Mae angen mwy o anogaeth ar bobl ifanc i weld yr iaith fel ased a sgil berthnasol, ac i weld bod lle iddi fel cyfrwng addysg, cymdeithasu a gweithio.

### Statws a chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned:

Mae natur cymdeithas a chymunedau wedi bod yn newid yn gyson dros y degawdau diwethaf, gyda'r cydbwysedd rhwng y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn newid yn raddol. Mae mwy o weithgareddau cymdeithasol yn cael eu cynnal yn ddwyieithog neu yn Saesneg erbyn hyn, a digwyddiadau uniaith Gymraeg yn prinhau. Mae statws gweledol y Gymraeg hefyd yn cael ei heffeithio gan ddiffyg defnydd gan y sector breifat a gwirfoddol. Mae angen codi statws yr iaith fel iaith gwaith a chwarae, a chanfod ffyrdd i argyhoeddi mwy o fusnesau i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r cyhoedd. Mae hefyd angen sicrhau cefnogaeth briodol i grwpiau cymunedol er mwyn ehangu'r cyfleoedd sydd ar gael ac i sicrhau bod pobl o bob cefndir ieithyddol a chymdeithasol yn cael eu cynnwys mewn gweithgarwch cymunedol.

## Creu siaradwyr newydd:

Mae nifer o drigolion a newydd-ddyfodiad o fewn y sir sydd ag awydd a brwdfrydedd i ddysgu'r Gymraeg, ond mae angen sicrhau bod cyfleoedd amrywiol, amserol a hwylus ar gael iddynt, nid yn unig i ddysgu ond i ymarfer eu Cymraeg er mwyn dod yn siaradwyr hyderus.

## Dylanwad technoleg:

Mae technoleg yn chwarae rôl gynyddol amlwg ym mywydau pobl, yn gymdeithasol ac mewn bywyd cyhoeddus. Mae'r defnydd a'r dylanwad wedi dwyshau ers cyfnod y pandemig. Mae'r heriau yn rhai amrywiol, gan fod technoleg yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sydd yn newid arferion byw pobl – o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus ar–lein yn lle wyneb yn wyneb, defnydd cynyddol o beiriannau hunanwasanaeth, a dewis cynyddol o blatfformau cymdeithasol ar-lein. Mae'n rhaid cydnabod na all y Gymraeg byth gystadlu gyda'r Saesneg a'i bresenoldeb cynyddol, ond mi allwn edrych ar ffyrdd o gynyddu defnydd o'r Gymraeg lle mae gwasanaethau digidol Cymraeg ar gael ac ar ffyrdd o gynyddu defnydd o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, fel bod mwy o bobl yn troi a chadw at y Gymraeg yn fwy naturiol wrth ddefnyddio technoleg.

## Tai a Gwaith – heriau economaidd

Er na fydd y strategaeth yma yn ceisio mynd i'r afael a'r materion anferth a chymhleth yma yn uniongyrchol (mae cynlluniau strategol eraill ar waith gan y Cyngor yn y meysydd hynny ac nid ydym am ddyblygu) mae rhaid cydnabod bod yr heriau economaidd sydd yn wynebu ein cymunedau yn cael effaith ar siaradwyr Cymraeg. Mae diffyg cyfleoedd cyflogaeth amrywiol yn arwain at allfudo o'r ardaloedd gwledig a chyflogau cyfartalog isel yn golygu bod nifer yn cael trafferth fforddio tai o fewn eu cymunedau lleol pan fyddant eisiau aros.

## Agweddau pobl:

Rydym yn byw mewn cyfnod o begynnu barn, ac mae hynny yr un mor wir wrth edrych ar agweddau pobl tuag at yr iaith Gymraeg. Mae cyfrifoldeb arnom i geisio magu agweddau cadarnhaol tuag at yr iaith, ymysg siaradwyr Cymraeg cynhenid, rhai sydd yn newydd i'r iaith a rhai sydd ddim yn siarad neu ddim eisiau siard yr iaith ac ddim yn gweld diben iddi.. Mae angen magu dycnwch a chadernid iaith ymysg y siaradwyr Cymraeg, er mwyn gwneud yn siŵr nad ydynt yn colli hyder ac yn troi at y Saesneg, ac mae angen ceisio codi ymwybyddiaeth ac ennyn parch ymysg y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg at yr iaith fel iaith fyw yn ein cymunedau.

# 5. Camau nesaf

Bydd y prif sylw y blynyddoedd nesaf yn mynd ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg, ac ar sicrhau bod pob un sydd yn gallu ei siarad yn gwneud hynny mewn cymaint o sefyllfaoedd ac mor aml â phosib. O ganlyniad, mae prif weithgareddau'r strategaeth yn dod o dan Thema 2 Strategaeth Cymraeg 2050, sef Cynyddu Defnydd o'r Gymraeg.

Ond rydym hefyd yn nodi beth yw'r bwriad o ran cynyddu niferoedd -Thema 1 Cymraeg 2050 - a'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud o ran gosod y sylfeini cadarn a chywir ar gyfer datblygu defnydd o'r Gymraeg yn y sir - Thema 3 Cymraeg 2050, Creu amodau ffafriol.

Mae Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, hefyd yn gofyn ni osod targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr yn ystod cyfnod y strategaeth.

## 5.1 Targed Cynyddu nifer siaradwyr (Thema 1 Cymraeg 2050)

Rydym am osod targed cyffredinol i weld cynnydd yn y defnydd rheolaidd o'r Gymraeg. Rydym hefyd eisiau gweld 100% o blant Gwynedd yn cael y cyfle i siarad Cymraeg a defnyddio'r iaith yn rheolaidd.

| Sut byddwn yn cynyddu nifer siaradwyr? | Sut byddwn yn mesur ar lefel leol, ac yn ystod cyfnod y strategaeth? |
|---|---|
| Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg (e.e. newydd-ddyfodiaid, plant sydd ddim yn derbyn addysg prif ffrwd), i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. | Nifer plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Nifer plant sydd yn cael cefnogaeth drwy'r gyfundrefn drochi'r adran addysg. |
| Rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid. | Nifer gweithwyr y Cyngor sydd yn derbyn gwersi dysgu Cymraeg.<br><br>Darpariaeth cyrsiau dysgu Cymraeg cymunedol. |

## 5.2 Amcanion a Chamau Gweithredu ar gyfer cynyddu Defnydd (Thema 2 Cymraeg 2050)

Rydym wedi llunio 5 maes gweithredu cyffredinol, ac mae 4 ohonynt yn ateb amcanion thema 2 Cymraeg 2050. Dan bob maes rydym wedi ceisio amlinellu beth yw'r heriau, beth sydd yn digwydd yn y meysydd hynny yn barod a beth yw'r camau posib y gallwn eu cymryd dros gyfnod y strategaeth.

Ar gyfer pob maes, rydym hefyd wedi nodi mesurau posib, fydd yn ein helpu i fesur llwyddiant y strategaeth.

Mae'r mesurau a nodir dan bod maes yn adlewyrchu ymrwymiadau'r Cyngor ar adeg cyhoeddi'r strategaeth.  Gallai'r mesurau hyn newid dros amser ac yn ôl y blaenoriaethau fydd yn cael eu hadnabod ar wahanol adeg yn ystod cyfnod y strategaeth.  Bydd y rhaglen waith sydd yn cyd-fynd efo'r strategaeth hon yn cael ei hadolygu yn rheolaidd ac yn cynnwys y mesurau diweddaraf.

## **Maes gweithredu 1:** Iaith y blynyddoedd cynnar

### Sylfaen tystiolaeth

*– Ar ba sail ydym ni yn gweld angen i weithredu? Beth ydi'r heriau? Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni?*

Mae rhoi'r cychwyn gorau i deuluoedd a phlant o ran defnydd o'r Gymraeg yn hanfodol.

Mae hefyd angen sicrhau bod rhieni yn trosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf, a bod pob anogaeth a chefnogaeth yn cael ei roi i alluogi rhieni a darpar rieni i ddysgu Cymraeg.

Rydym yn ymwybodol bod cyfnod y pandemig wedi cael effaith sylweddol ar ddefnydd iaith teuluoedd a phlant ifanc, gyda'r diffyg cyfleoedd cymdeithasu y tu allan i'r cartref yn golygu bod nifer o deuluoedd wedi colli y cyfle allweddol yna i gael cyflwyniad cynnar i'r Gymraeg.

Mae'r heriau rydym yn eu hwynebu o safbwynt costau byw hefyd yn golygu bod posib i rai teuluoedd fod yn methu allan ar gyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg yn fuan oherwydd cost adnoddau a chostau teithio i weithgareddau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod nod o agor 60 o grwpiau meithrin cyfrwng Cymraeg newydd ar draws Cymru erbyn 2026 (Cynllun Cymraeg 2050 – 2012 i 2026) ac rydym yn gobeithio gweld rhai o'r grwpiau hynny yng Ngwynedd.

Mae angen ymdrech arbennig nawr felly, nid yn unig i ailadeiladu'r rhwydweithiau cymunedol yna – a chynyddu nifer y plant sydd yn mynychu Cylchoedd Meithrin a grwpiau Ti a Fi – ond hefyd i fagu hyder ymysg rhieni, yn siaradwyr Cymraeg, dysgwyr , a'r rhai sydd heb eto gymryd y cam i ddechrau dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg ac i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant.

## Beth sydd yn cael ei wneud yn barod?
*- prosiectau neu gynlluniau sydd yn rhan o waith y Cyngor neu bartneriaid, sydd eisoes yn cael eu gweithredu, ac a fydd yn parhau i gyfnod y strategaeth nesaf.*

**Polisïau a gwaith strategol perthnasol i'r maes yma:**
Mae'r maes hwn yn cael sylw penodol yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) ac mae mesurau penodol wedi eu llunio i fonitro cynnydd:
"Sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, a sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen"

**Prosiectau a chynlluniau eraill:**
Mae'r Cyngor a phartneriaid eraill yn cynnal nifer o weithgareddau sydd wedi eu hanelu yn benodol at gynnig profiadau anffurfiol i rieni a babanod. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd, er enghraifft, yn cynnal nifer o sesiynau stori a chan rheolaidd.

Mae'r fenter iaith hefyd yn cynnal gweithgareddau ar gyfer teuluoedd, ac wedi cynnal gweithdai yn y gorffennol i ddarparwyr gweithgareddau a gofal er mwyn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd.

Mae gwaith y Mudiad Meithrin a darparwyr gofal cyn oed ysgol yn allweddol yma.

## Beth arall sydd angen sylw?
*- beth fyddwn ni'n gweithio arno neu yn gobeithio rhoi sylw iddo yn ystod cyfnod y strategaeth nesaf?*

Mae angen codi ymwybyddiaeth rhieni am y gyfundrefn addysg Gymraeg ac amlygu'r cyfleoedd sydd yna iddynt gael eu cyflwyno i'r Gymraeg cyn i'r plant gyrraedd oed ysgol.

Mae hefyd angen sicrhau bod gan bob teulu y modd i gael gafael ar adnoddau - yn llyfrau, posteri, cerddoriaeth Gymraeg a gwybodaeth am apiau a gweithgareddau - er mwyn eu galluogi i gyflwyno'r Gymraeg mor fuan â phosib.

Mae lle i dybio nad yw'r grwpiau Ti a Fi a'r cylchoedd meithrin yn y sir mewn sefyllfa mor iach ag yr arferent fod, ac y gallai hynny fod yn rhannol oherwydd effeithiau cyfnod y pandemig. Maent yn cael trafferthion recriwtio staff a denu gwirfoddolwyr i weithredu ar eu pwyllgorau. Bydd angen i'r Cyngor a'r Mudiad Meithrin gydweithio er mwyn asesu'r sefyllfa yn ofalus ac ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau bod cymaint â phosib o blant y sir yn gallu manteisio ar y cyfleoedd addysg cyn ysgol yma ac i sicrhau bod grwpiau Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin yn cael y gefnogaeth briodol i dyfu a ffynnu.

Mae angen ystyried cyfleoedd anffurfiol i rieni ymarfer a magu hyder yn eu defnydd o'r Gymraeg.
Un syniad sydd wedi ei grybwyll yw bod angen creu cyfleoedd sydd yn cyd-fynd gyda bywydau prysur y teulu – megis sesiynau sgwrsio/dysgu tra bod y plant mewn gwersi a chlybiau ar ôl ysgol.

Bydd parhau i sicrhau amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer teuluoedd ifanc yn allweddol, a hynny gan wasanaethau'r Cyngor a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus a chymunedol. Mae hefyd angen edrych ar gyfleoedd i deuluoedd ymwneud mewn gweithgareddau gyda'i gilydd (yn rhy aml mae gweithgareddau yn cael eu hanelu at y plant, yn hytrach na bod yn weithgareddau sydd yn cynnwys y teulu cyfan) er mwyn annog y cyfathrebu a'r siarad rhwng y teulu cyfan.

Dylid hefyd edrych ar rôl technoleg yn y maes hwn, ac wrth gefnogi defnydd iaith ar yr aelwyd – o hyrwyddo apiau a gwefannau all helpu teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cartref cyn iddynt gychwyn mewn addysg ffurfiol, i gynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth darpar rieni di-Gymraeg am y gyfundrefn addysg a ffyrdd syml ac effeithiol y gallant gyflwyno'r Gymraeg i'w plant.

## Beth fyddwn ni'n ei fesur?

1. Data cyrhaeddiad y CSGA o ran nifer y lleoliadau gofal plant, a nifer plant sydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg.

2. Nifer cylchoedd Ti a Fi, grwpiau Rhiant a Phlentyn sydd yn cael eu cefnogi/cynnal.

3. Nifer y gweithgareddau sydd yn cael eu targedu yn benodol at deuluoedd ifanc/rhieni a babanod gan wasanaethau'r Cyngor.

4. Nifer y gweithgareddau teuluol sydd yn cael eu trefnu gan y fenter iaith.

5. Nifer ymgyrchoedd rhannu adnoddau a gwybodaeth.

## Sylfaen tystiolaeth

*– Ar ba sail ydym ni yn gweld angen i weithredu? Beth ydi'r heriau? Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni?*

Mae nifer o heriau wedi eu hadnabod o safbwynt addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir, gan gynnwys yr angen i sicrhau cysondeb yng ngweithrediad y polisi, yr angen i sicrhau bod digon o anogaeth a chyfleoedd yn cael eu cynnig i ddisgyblion i ddilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg, a datblygu'r gwasanaeth trochi ymhellach. Mae sicrhau cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg mewn addysg Ôl-16 yn her benodol, ac mae cyswllt amlwg gyda'r angen i sicrhau bod y sgiliau cywir ymysg y boblogaeth i allu darparu gwasanaethau'r dyfodol.. Mae angen clir hefyd i gryfhau sefyllfa asesu ac arsylwi cyfrwng Cymraeg ar gyfer cyrsiau sydd yn gysylltiedig gyda phrentisiaethau. Mae'r elfennau yma eisoes yn cael sylw gan Cyngor ac mae targedau ar gyfer datblygiad yn y meysydd hyn wedi eu hadnabod yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a gyhoeddwyd yn 2022 (Cynllun-Strategol-Y-G ymraeg-mewn-Addysg.pdf (llyw.cymru)).

Mae sicrhau cyfleoedd amrywiol, addas, i bobl o bob oed ddysgu'r Gymraeg yn allweddol yn yr ymdrech i gynyddu niferoedd a hyder siaradwyr Cymraeg. Mae gan y Cyngor rôl bwysig i chwarae wrth gynnig cyfleoedd dysgu a datblygu sgiliau acwrth annog pob aelod o'n gweithlu i wella eu sgiliau neu ddysgu'r Gymraeg. Yn ystod 2022-23, cafodd 29 elod o staff gefnogaeth y Cyngor i ddysgu Cymraeg drwy gyrsiau oedd wedi eu comisiynu yn benodol i ffitio o gwmpas amgylchiadau gwaith, a chafodd cyfanswm o 83 unigolyn fynediad i hyfforddiant iaith yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn ymwybodol iawn bod angen cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddilyn cyrsiau neu hyfforddiant anffurfiol, , ochr yn ochr â'r cyfleoedd dysgu mwy ffurfiol. Mae'r adran hon yn cwmpasu cyfleoedd dysgu anffurfiol hefyd, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddiant cymunedol a'r cyfleoedd dysgu mwy anffurfiol hynny sydd yn digwydd fel rhan o waith y Cyngor a phartneriaid, megis cymwysterau a hyfforddiant i bobl ifanc.

Un her amlwg yw diffyg cynnig Cymraeg gan ddarparwyr cymwysterau ac achrediadau cenedlaethol. Gwelwn bod y gwasanaethau ieuenctid, a phartneriaid eraill yng Ngwynedd yn aml yn gorfod addasu neu ymgyrchu yn hir i gael darpariaeth Gymraeg, yn hytrach na bod dealltwriaeth ehangach am yr angen a'r galw i gynnig y cyfleoedd hyn yn Gymraeg.

Rydym yn cydnabod bod nifer fawr o gyfleoedd hyfforddi cymunedol, yn enwedig clybiau chwaraeon megis pêl-droed, rygbi, hoci, karate ac ati, yn digwydd yn y Gymraeg, ac yn rhoi cyfleoedd cwbl naturiol ac anfesuradwy i bobl ifanc ddefnyddio a chlywed y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth ac addysg ffurfiol. Fodd bynnag, mae cadernid y cyfrwng iaith yn nifer o'r clybiau hyn yn gwanhau , a a nifer o weithgareddau yn troi i fod yn rhai dwyieithog neu Saesneg, a hynny naill oherwydd diffyg gwirfoddolwyr i gynnal y gweithgareddau neu oherwydd diffyg hyder yr arweinwyr i gynnal gweithgareddau yn Gymraeg. Rhaid ceisio cymryd camau i warchod y gofodau naturiol Gymraeg yma a rhoi cefnogaeth i arweinwyr deimlo yn hyderus i beidio gorfod troi y gweithgaredd i'r Saesneg heb fod angen.

Mae cynlluniau fel Cynllun Prentisiaethau'r Cyngor, sydd yn rhoi cyfleoedd dysgu cysylltiedig i waith hefyd yn berthnasol i'r maes yma, ac yn faes eto lle mae heriau wedi codi yn ddiweddar. Mae diffyg darpariaeth hyfforddiant Cymraeg, neu ddwyieithog, wedi ei adnabod fel rhwystr ar gyfer y cynllun prentisiaethau, ac yn enwedig felly prentisiaethau uwch, ac yn rhywbeth y mae'r Cyngor yn rhoi sylw iddo ar hyn o bryd.

## Beth sydd yn cael ei wneud yn barod?

*- prosiectau neu gynlluniau sydd yn rhan o waith y Cyngor neu bartneriaid, sydd eisoes yn cael eu gweithredu, ac a fydd yn parhau i gyfnod y strategaeth nesaf.*

**Polisïau a gwaith strategol perthnasol i'r maes yma:**
Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael ei weithredu gan Adran Addysg y Cyngor, ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â thargedau Cymraeg 2050). Mae 7 blaenoriaeth, neu ddeilliant, sydd wedi eu nodi isod, ac a fydd yn gweithio ar gynyddu nifer y plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg yn y sir, sicrhau bod disgyblion yn parhau i wella sgiliau wrth drosglwyddo rhwng cyfnodau allweddol, ac yn cynyddu darpariaeth a nifer y disgyblion sydd yn dilyn pynciau cyfrwng Cymraeg.
7 deilliant y Cynllun:

1. Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/5oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg
3. Mwy o blant yn parhau i wella sgiliau wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg i'r llall.
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio Cymraeg fel pwnc a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
5. Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau
6. Gwella darpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion ADY.
7. Cynyddu nifer staff sydd yn gallu addysgu yn Gymraeg

Mae un prosiect penodol wedi ei nodi dan Gynllun y Cyngor hefyd, sef y Prosiect Moderneiddio amgylchedd ddysgu Ôl-16.

**Prosiectau a chynlluniau eraill:**
Mae'r gwasanaeth **Dysgu a Datblygu** yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwella sgiliau, ac yn trefnu cyrsiau a hyfforddiant dysgu Cymraeg, er mwyn sicrhau bod holl staff y Cyngor yn cyrraedd, neu yn gweithio tuag at gyrraedd dynodiad iaith eu swyddi.

Mae **Gwasanaeth Ieuenctid** y Cyngor yn cynnig cyfleoedd i ennill cymwysterau galwedigaethol.

Mae gan y Cyngor **Gynllun Prentisiaethau**, sydd yn rhoi cyfleoedd profiad gwaith a magu sgiliau i bobl ifanc ochr yn ochr ag ennill cymwysterau yn eu meysydd.

## Beth arall sydd angen sylw?

*- beth fyddwn ni'n gweithio arno neu yn gobeithio rhoi sylw iddo yn ystod cyfnod y strategaeth nesaf?*

O ganlyniad i'r rhwystr sydd wedi ei adnabod gyda darpariaeth cymwysterau prentisiaethau, mae swyddogion y Cyngor wedi bod yn gweithio i ddwyn perswâd ac annog darparwyr cymwysterau cysylltiedig er mwyn eu cael i gynnig cymaint o'u darpariaeth ag sy'n bosib trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwaith ar y gweill i asesu a deall yr union sefyllfa o ran cyfrwng iaith y ddarpariaeth a gynigir, gyda'r nod o gydweithio gyda'r partneriaid ym maes addysg bellach i adnabod cyfleoedd i wella'r ddarpariaeth, i adnabod adnoddau ychwanegol i'w cynnig yn y Gymraeg yn ogystal â chyfleoedd pellach i hyrwyddo'r Gymraeg.

Byddwn yn annog mwy o staff y Cyngor i ddysgu'r Gymraeg ac i wella eu sgiliau llafar ac ysgrifenedig. Byddwn yn edrych ar sut y gallwn wneud y gorau o wahanol ddulliau o hyfforddi a chyflwyno gwybodaeth i wneud hyn, gan amrywio o gynnal sesiynau wyneb yn wyneb i ddefnyddio gwahanol gyfryngau digidol, megis e-fodiwlau a seminarau ar-lein, er mwyn ffitio o gwmpas patrymau gwaith ac arddulliau dysgu.

Byddwn yn parhau i gynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol cyfrwng Cymraeg i bobl ifanc drwy waith y gwasanaeth ieuenctid, ac yn gweithio i sicrhau bod mwy o achrediadau ar gael iddynt drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn edrych ar gyfleoedd i gefnogi gwirfoddolwyr sydd yn cynnal cyfleoedd dysgu a hyfforddi cymunedol, drwy gydweithio efo partneriaid fel yr Urdd a rhannu gwybodaeth am adnoddau megis yr Ap Geirfa Chwaraeon gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Byddwn yn trafod cyfleoedd cydweithio pellach gyda'r Coleg Cymraeg ac yn ystyried cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cadernid iaith cymunedol (sut i beidio newid iaith i'r Saesneg yn ddiofyn ac i ddylanwadu ar ddefnydd iaith eraill).

O ran cefnogi gwaith yr adran addysg a'r gwaith sydd yn cael ei wneud yn yr ysgolion.
Mae angen ystyried ffyrdd o godi ymwybyddiaeth pobl ifanc, a'u rhieni, o werth sgiliau Cymraeg a'r galw amdanynt yn y byd gwaith, a hynny er mwyn cynyddu'r cymhelliant i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a pharhau i ddatblygu sgiliau cadarn yn y ddwy iaith. Rhaid gwneud yn siŵr bod ysgolion ac athrawon yn hyrwyddo a trafod opsiynau ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn agored gyda phobl ifanc wrth iddynt wneud penderfyniadau am ddewisiadau.

Mae hefyd angen ystyried sut rydym yn gallu cefnogi rhieni di-Gymraeg i fagu eu hyder i gefnogi eu plant drwy addysg cyfrwng Cymraeg, ac edrych ar sut y gallwn gael gwared ar y rhagdybiaethau am addysg ac ysgolion "fwy Seisnig".

## Beth fyddwn ni'n ei fesur?

1. Ystadegau monitro CSGA
2. Nifer staff y Cyngor sydd yn derbyn hyfforddiant i wella sgiliau
3. Nifer prentisiaethau sydd yn cael eu cynnig gan y Cyngor
4. Nifer cyfleoedd hyfforddi/achrediadau sydd yn cael eu cynnig gan y gwasanaeth ieuenctid.

## Sylfaen tystiolaeth
*– Ar ba sail ydym ni yn gweld angen i weithredu? Beth ydi'r heriau? Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni?*

Mae safonau'r Gymraeg yn gosod gofyn ar yr awdurdod a chyrff cyhoeddus eraill i gynnig gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae tystiolaeth yn dangos, fodd bynnag, bod nifer y boblogaeth sydd yn defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r Cyngor, yn is o lawer na nifer y siaradwyr sydd wedi eu cofnodi.

Er gwaethaf gosod y Safonau iaith ar fwy o gyrff dros y blynyddoedd diweddar, a dealltwriaeth ehangach am yr angen i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, mae anghysondeb mawr yn dal i fodoli hefyd o ran y gwasanaethau cyhoeddus y mae posib i drigolion eu defnyddio, ac mae Cyngor Gwynedd yn aml yn arwain y blaen ac yn sefyll ar eu pen eu hunain wrth alw ar eraill i gynyddu a gwella g wasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Nod y Cyngor yn y maes hwn ydi edrych y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau, ac edrych ar ffyrdd o annog defnydd o'r gwasanaethau cyfrwng Cymraeg gan y cyhoedd. Drwy gynyddu'r defnydd gallwn brofi yr angen yn fwy effeithiol.

Rydym hefyd yn cydnabod bod rhaid gweithio yn barhaus i gynnal a datblygu sgiliau iaith gweithwyr, er mwyn gwneud yn siŵr bod y gweithlu addas gennym i gynnig y gwasanaethau angenrheidiol.
Mae nifer o wasanaethau yn wynebu heriau recriwtio eithriadol ar hyn o bryd, a bydd yn hollbwysig bod y Gymraeg yn cael sylw teg wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau recriwtio/datblygu gweithlu.

Y tu hwnt i'r Cyngor, mae rhwystrau yn dal i fodoli gyda'r sector gyhoeddus a phreifat, ac mae diffyg defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau a'r cwsmeriaid yn cael effaith ar statws y Gymraeg yn y gymuned.

## Beth sydd yn cael ei wneud yn barod?
*- prosiectau neu gynlluniau sydd yn rhan o waith y Cyngor neu bartneriaid, sydd eisoes yn cael eu gweithredu, ac a fydd yn cario mlaen i gyfnod y strategaeth nesaf.*

**Polisïau a gwaith strategol perthnasol i'r maes yma:**
**Mwy na Geiriau** – Rydym yn cymryd camau i wella gwasanaethau Cymraeg yn y maes gofal a gwasanaethau cymdeithasol. Mae cydweithio ar lefel y Cyngor, rhanbarth ac yn genedlaethol i adnabod arfer da a gweithredu ymyraethau i wella'r cynnig rhagweithiol i'r cyhoedd ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal.

**Prosiectau a chynlluniau eraill:**
**Cynlluniau Gofal** – Mae prosiectau sydd wedi eu nodi yn Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023 – 2028 fydd yn edrych ar wella ac ail-ddylunio gwasanaethau gofal y Cyngor. Bydd sicrhau gwasanaethau dwyieithog effeithiol a gweithredu egwyddor y "cynnig rhagweithiol" yn rhan allweddol o unrhyw waith i wella'r maes hynod bwysig yma.

**Prosiect Cynllunio'r Gweithlu** - Mae'r prosiect yma wedi ei nodi yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023 - 2028 mewn ymateb i heriau recriwtio diweddar, ac eto, bydd sicrhau bod gan y gweithlu a'r gwasanaethau y sgiliau ieithyddol angenrheidiol i gynnig y gwasanaeth gorau i'r cyhoedd yn rhan allweddol o'r gwaith.

Mae'r gwasanaeth Dysgu a Datblygu yn cynnig nifer o gyfleoedd i staff ddysgu a datblygu eu sgiliau i eithyddol, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Rydym hefyd wedi bod yn rhan o gynllun ymchwil Arfer, gan Brifysgol Bangor, sydd yn edrych ar newid arferion ieithyddol timau gwaith.

Mae prosiect wedi ei adnabod gan yr adran Economi hefyd sydd yn anelu i roi cefnogaeth i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith. Mae cynllun Arfor – cynllun rhanbarthol ar draws 4 sir Mon, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i ddatblygu cynlluniau economaidd sydd hefyd yn rhoi lle blaenllaw i gefnogi defnydd o'r Gymraeg - yn cynnig cefnogaeth ariannol i fusnesau dyfu a datblygu, gyda phwyslais ar fusnesau sydd yn gweithredu yn Gymraeg, sydd eisiau datblygu eu defnydd o'r Gymraeg, ac sydd yn cynnig cyfleoedd gwaith i'r boblogaeth leol.

Mae'r Cyngor hefyd yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – lle maent yn cydweithio gyda'r cyrff cyhoeddus eraill er mwyn gwella profiad y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau yn Gymraeg.

## Beth arall sydd angen sylw?
*- beth fyddwn ni'n gweithio arno neu yn gobeithio rhoi sylw iddo yn ystod cyfnod y strategaeth nesaf?*

Mae nifer o wasanaethau yn wynebu heriau recriwtio eithriadol ar hyn o bryd, a bydd yn holl-bwysig bod y Gymraeg yn cael sylw blaenllaw wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau recriwtio/datblygu gweithlu a'n bod yn hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil, ac yn datblygu dealltwriaeth pobl o bob oed am y galw yn y byd gwaith am sgiliau llafar ac ysgrifenedig.

Byddwn yn treialu cynlluniau o fewn y Cyngor i annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau ar-lein y Cyngor. Byddwn yn edrych ar y ffordd rydym yn cyflwyno gwybodaeth i'r cyhoedd drwy'r wefan a systemau hunan-wasanaeth, er mwyn sicrhau fod yr iaith yn glir a dealladwy ac yn cynyddu'r siawns o ddefnyddio'r Gymraeg yn hytrach na'r Saesneg.

Mae angen gweld mwy o gyrff cyhoeddus yn dilyn esiampl y Cyngor o safbwynt arddel y cynnig rhagweithiol, gwneud defnydd effeithiol o gyfieithu mewn cyfarfodydd a gweithredu yn fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn parhau i gydweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus (drwy'r Bwrdd Gwasanaethau), yn ogystal â'r Comisiynydd a Llywodraeth Cymru i weld sut y gallwn ni drosglwyddo rhai o'r arferion da yma i sefydliadau eraill, a hefyd i gydweithio i wella profiadau'r defnyddwyr.

Bydd gwaith cefnogi dysgwyr a datblygu sgiliau'r gweithlu yn parhau o fewn y Cyngor, gyda'r bwriad o sicrhau bod pob aelod o staff yn gweithio tuag at gyrraedd y lefel iaith sydd wedi ei nodi ar gyfer eu swyddi, a bod y sgiliau ysgrifenedig priodol ganddynt i sicrhau bod iaith glir, safonol, a hawdd ei deall yn cael ei defnyddio wrth gyfathrebu a chyflwyno gwasanaethau i'r cyhoedd. Byddwn hefyd yn parhau i gymryd rhan yng nghynllun Arfer, drwy gyflwyno'r ymyrraeth mewn mwy o dimau, ac hefyd yn datblygu cynlluniau cyfeillio.

Rydym hefyd yn gweld bod angen edrych eto ar y gefnogaeth a'r anogaeth sydd yn cael ei roi i'r sector breifat i ddefnyddio'r Gymraeg, er mwyn sicrhau cymaint â phosib o gyfleoedd i'r trigolion ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau dyddiol. Mae hwn yn faes sydd wedi profi yn anodd cael canlyniadau ynddo dros y blynyddoedd, a bydd adnabod y ffynonellau cefnogaeth allanol cyfredol (megis Comisiynydd y Gymraeg a chynllun Helo Blod) yn bwysig er mwyn gallu symud pethau ymlaen.

Byddwn yn defnyddio unrhyw gyfleoedd sydd ar gael i'r Cyngor, megis drwy ddyfarnu cytundebau caffael a chynnig cymorth ariannol, i ddylanwadu a gosod amodau ieithyddol. Bydd cefnogaeth benodol yn cael ei roi i fusnesau a grwpiau cymunedol drwy grantiau gwedd 2 Cynllun Arfor, ac amodau am ddatblygu defnydd iaith yn cael eu gosod o fewn y broses ymgeisio ac amodau grant. Bydd cynllun Arfor yn rhoi sylwi i fusnesau sydd yn gweithredu yn Gymraeg, sydd eisiau datblygu eu defnydd o'r Gymraeg ac sydd yn cynnig cyfleoedd gwaith i'r boblogaeth leol.

## Beth fyddwn ni'n ei fesur?

1. Nifer busnesau sydd yn derbyn cymorth ariannol drwy gynllun Arfor
2. Nifer staff sydd yn derbyn cefnogaeth i ddysgu Cymraeg neu ddatblygu sgiliau
3. Nifer staff sydd yn cymryd rhan mewn cynlluniau cyfeillio/pencampwyr.

## Sylfaen tystiolaeth

*– Ar ba sail ydym ni yn gweld angen i weithredu? Beth ydi'r heriau? Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni?*

Mae nifer o newidiadau wedi bod yn ein cymdeithas a ffordd o fyw dros y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi cael effaith sylweddol ar gymunedau Gwynedd. Rydym yn dal i ddod i ddeall sgil effeithiau cyfnod y pandemig o ran arferion pobl a chyfleoedd cymdeithasu cymunedol, ac mae hefyd angen ystyried bod arferion pobl o ran cymdeithasu ac ymwneud efo'u cymunedau wedi newid.

Mae'r symud graddol dros y ddegawd neu ddwy ddiwethaf o ymwneud o fewn cymunedau daearyddol uniongyrchol (pentrefi a threfi) i gymdeithasu fwy mewn cymunedau o ddiddordeb, neu ar sail gweithgareddau plant, yn golygu ein bod yn edrych ar "gymuned" mewn ffordd eang iawn.

Mae yno hefyd heriau sylweddol i hyfywedd cymunedau daearyddol yn sgil diffyg cyfleoedd cyflogaeth amrywiol a phwysau ar y farchnad dai, sydd yn golygu bod pobl yn gorfod symud i gymunedau eraill er mwyn byw a gweithio. Nid yw'r sefyllfa dai ac allfudo yn broblemau newydd, ond mae teimlad eu bod wedi dwysau yn sgil cyfnod y pandemig.

Mae pryderon ymysg y boblogaeth am y materion hyn, a'r pwysau cynyddol sydd ar gymunedau yn sgil y diwydiant twristiaeth a'r economi llety ymweld, yn golygu bod y Cyngor wedi gorfod cymryd camau i geisio rheoli'r sefyllfa, ac wedi datblygu sawl cynllun strategol sydd yn mynd i'r afael a'r meysydd yma.

Mae'r strategaeth hon yn ceisio edrych y tu hwnt i'r ymyraethau hynny ac ystyried be arall allwn ni ei wneud i gefnogi'r iaith yn ein cymuned ac i annog mwy o bobl i'w defnyddio mewn gwahanol gyd-destunau.

## Beth sydd yn cael ei wneud yn barod?

*- prosiectau neu gynlluniau sydd yn rhan o waith y Cyngor neu bartneriaid, sydd eisoes yn cael eu gweithredu, ac a fydd yn cario mlaen i gyfnod y strategaeth nesaf.*

**Polisïau a gwaith strategol perthnasol i'r maes yma:**

- Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy
- Cynllun Gweithredu Tai Gwynedd 2020/21 - 2026/27 - cynllun sydd yn mynd i'r afael a'r gwahanol heriau o safbwynt tai yng Ngwynedd, gyda sylw penodol yn cael ei roi i helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartrefi yn eu cymunedau
- Ardal Ni 2035 – cynhaliwyd gwaith ymgynghori ac ymgysylltu helaeth gyda chymunedau Gwynedd yn ystod 2022 ac mae 13 cynllun adfywio lleol wrthi yn cael eu datblygu ar gyfer arfogi a chefnogi cymunedau Gwynedd dros y 15 mlynedd nesaf.

*Rhwng 2023 a 2025 ardaloedd blaenoriaeth Menter Iaith Gwynedd fydd Pen Llyn, Bala a Phenllyn a Bangor/ Ogwen/ Y Felinheli. Dewiswyd Pen Llyn fel un ardal blaenoriaeth er mwyn gweithio i sicrhau gwaddol i ymweliad yr Eisteddfod Genedlaethol.*
*Bydd y fenter iaith yn canolbwyntio ar gefnogi grwpiau, mudiadau, clybiau, cymdeithasau, digwyddiadau a mentrau cymunedol i barhau i weithredu drwy'r Gymraeg ond ar yr un pryd yn rhoi arweiniad ar sut i groesawu newydd ddyfodiaid a hynny heb newid o'r Gymraeg.*

*Byddant hefyd yn edrych ar ymyraethau i gynyddu defnydd y Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc ac yn cydweithio gydag ysgolion a phartneriaid i sicrhau digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu mewn a thu allan i'r ysgol.*

*Yn ogystal a'r gweithgarwch, byddant yn mynd ati i greu ymgyrchoedd fydd gyda negeseuon i holl gynulleidfaoedd amrywiol y sir, megis; pobl o wahanol oedrannau, pobl gyda gwahanol agweddau at y Gymraeg, pobl gydag amrywiol sgiliau defnyddio'r Gymraeg ayyb. Bydd yr ymgyrchoedd hyn yn canolbwyntio ar newid ymddygiadau fel bod agweddau at y Gymraeg, ac arferion defnyddio'r Gymraeg, yn cryfhau.*

O ran blaenoriaethau'r Cyngor yn y maes hwn, byddwn yn cydweithio efo partneriaid y Fforwm Iaith Sirol – Ffermwyr Ifanc, yr Urdd, cynrychiolwyr mentrau cymunedol, er enghraifft – i drafod sut y gallwn gynyddu'r cyfleoedd cymdeithasu cyfrwng Cymraeg yn y gymuned, a sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu mewn unrhyw ardaloedd lle mae diffyg cyfleoedd ar hyn o bryd.

Bydd hefyd angen gweld mwy o gynlluniau cyfeillion a sesiynau sgwrsio er mwyn cynorthwyo a magu hyder dysgwyr i wneud y cam o ddysgu mewn gwersi i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned.

Drwy gynlluniau fel Arfor, byddwn yn ceisio cefnogi mwy o fentrau cymunedol i greu gweithgareddau a chynlluniau economaidd fydd yn elwa'r cymunedau eu hunain. Mae nifer o fentrau cymunedol llwyddiannus iawn yng Ngwynedd, ac mae gan y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu gwasgaru yn gyfartal ar draws y sir, a bod cymunedau eraill yn cael cefnogaeth i ddatblygu mentrau hefyd.

## Beth fyddwn ni'n ei fesur?

1. **Nifer gweithgareddau wedi eu cynnal gan wasanaethau'r Cyngor a'r fenter iaith ar gyfer gwahanol grwpiau**
2. **Nifer mentrau cymunedol sydd yn cael eu cefnogi drwy gynlluniau Adfywio ac Economi**

# 5.3 Amcanion a Chamau Gweithredu ar gyfer Creu Amodau Ffafriol (Thema 3 Cymraeg 2050)

## **Maes gweithredu 5:** Ymchwil a thechnoleg

### Sylfaen tystiolaeth

*– Ar ba sail ydym ni yn gweld angen i weithredu? Beth ydi'r heriau? Beth ydym ni'n ceisio ei gyflawni??*

Mae'r ddau faes yma yn cael eu gosod yn fwriadol gyda'i gilydd gan y bydd datblygiadau ym maes technoleg yn ddibynnol i raddau ar ganlyniadau gwaith ymchwil i ddeall arferion pobl.

Mae technoleg yn chwarae rhan gynyddol amlwg yn ein bywydau oll, ac yn datblygu yn sydyn. Mae'n her sylweddol i'r Gymraeg, fel unrhyw iaith leiafrifol, i ddal i fyny efo'r datblygiadau parhaus, ac i ganfod ei le o fewn y byd yma sydd yn cael cymaint o ddylanwad ar fywydau pawb.

Mae lle i gredu bod arferion iaith pobl wrth ymwneud efo technoleg yn wahanol iawn i'w harferion iaith ar lafar ac wyneb yn wyneb hefyd. Mae hyn oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- bod technoleg, y we ac apiau yn gyffredinol wedi eu datblygu yn Saesneg yn gyntaf a bod pobl wedi mynd i'r arfer ag ymwneud efo technoleg drwy'r Saesneg.
- bod algorithmau peiriannau chwilio a cyfryngau cymdeithasol yn aml yn mynd yn groes i ddewis iaith ac yn golygu bod pobl yn gweld y dewis Saesneg yn gyntaf, hyd yn oed pan fydd dewis iaith Gymraeg ar gael.
- rhwystrau wrth ddatblygu apiau, sydd yn aml yn golygu bod pobl yn gorfod cymryd camau ychwanegol i gael y gwasanaeth Cymraeg

Yn ôl cyfrifiad 2021, mae'r ganran o bobl sydd yn nodi eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ond ddim yn darllen nac ysgrifennu Cymraeg yn 5.4% yng Ngwynedd, sydd yn uwch na'r gyfran o 2.3% ar gyfer Cymru gyfan. Mae'r ganran yn cynyddu hyd at 10% mewn rhai ardaloedd o'r sir, sydd yn awgrymu bod gwahaniaeth mawr yn gallu bodoli rhwng defnydd llafar a defnydd ysgrifenedig.

Mae'r gwahanol ddylanwadau ar ddefnydd iaith pobl, ac yn benodol y cynnydd yn nylanwad technoleg ar fywydau pobl, a ffactorau ychwanegol fel effaith y pandemig a'r wasgfa ariannol bresennol ar arferion pobl, yn golygu bod y darlun yn gallu newid mewn cyfnod byr. Mae angen cadw hyn mewn cof wrth gynllunio unrhyw ymyraethau, a hefyd wrth edrych ar y sylfaen tystiolaeth.

Er bod llawer o waith ymchwil yn cael ei wneud yng nghyd-destun y Gymraeg, mae yna nifer o fylchau amlwg hefyd, ac yn benodol felly ymchwil cyfredol am ddewisiadau a defnydd iaith siaradwyr mewn gwahanol gyd-destunau, ac ymchwil sydd yn ein helpu i ddeall natur ein "cymunedau Cymraeg" a sut mae ffactorau megis economi a thwristiaeth yn effeithio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar hyfywedd ieithyddol.

## Beth sydd yn cael ei wneud yn barod?

*- prosiectau neu gynlluniau sydd yn rhan o waith y Cyngor neu bartneriaid, sydd eisoes yn cael eu gweithredu, ac a fydd yn cario mlaen i gyfnod y strategaeth nesaf.*

**Polisïau a gwaith strategol perthnasol i'r maes yma:**

**Prosiectau a chynlluniau eraill:**

- Prosiect Blaenoriaeth Cynllun Digidol y Cyngor
- Prosiect 15 – prosiect i geisio creu cynnwys digidol yn Gymraeg, yn cael ei arwain gan yr Uned Iaith.
- Gwaith ymchwil ar y cyd efo Prifysgol Bangor:
    - *PhD wedi ei gychwyn yn edrych ar arferion pobl wrth ymwneud efo gwasanaethau – er mwyn deall beth sydd yn effeithio ar ddewisiadau a defnydd*
    - *Gwaith ymchwil sbarduno yn edrych ar y cyswllt rhwng iaith ac economi/twristiaeth*

## Beth arall sydd angen sylw?

*- beth fyddwn ni'n gweithio arno neu yn gobeithio rhoi sylw iddo yn ystod cyfnod y strategaeth nesaf?*

Mae'r prosiectau sydd wedi eu nodi uchod yn rhai sydd yn parhau i gyfnod y strategaeth nesaf.

Nodwyd yn y strategaeth bresennol bod angen i'r Cyngor edrych ar brosiectau fydd yn annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ar y we ac wrth ddefnyddio gwasanaethau digidol y Cyngor, ac ystyried y ffyrdd gorau o gyflwyno'r Gymraeg yn y cyd-destunau hynny er mwyn dylanwadu ar ddefnydd. Bu'r gwaith yma yn araf yn cychwyn, ond mae cynlluniau a gwaith ymchwil ar y gweill gan y Cyngor yn y maes hwn erbyn hyn. Mae cyfnod y pandemig yn sicr wedi cynyddu'r her yma, gyda newidiadau amlwg yn arferion a defnydd pobl o dechnoleg, a hefyd symud gan y Cyngor i ddatblygu mwy o wasanaethau digidol, fel systemau archebu gwasanaethau newydd.

Byddwn yn parhau i ddatblygu'r berthynas gyda'r byd academaidd, er mwyn adnabod prosiectau ymchwil sydd yn cryfhau ein sylfaen tystiolaeth ac yn ein helpu i gynllunio gwaith fydd yn hybu a gwarchod y Gymraeg yn effeithiol yn y dyfodol.

Byddwn yn ystyried sut y gallwn gydweithio i sefydlu cronfa wybodaeth ac ymchwil ganolog, lle mae posib cael gafael yn rhwydd ar waith ymchwil perthnasol.

Byddwn hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth am yr apiau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, er mwyn annog pobl i ddefnyddio mwy o Gymraeg ar-lein.

## Beth fyddwn ni'n ei fesur?

1. Nifer prosiectau ymchwil sydd wedi eu cynnal gan y Cyngor, neu eu comisiynu gan y Cyngor.

# 5.4 Monitro a mesur

Bydd y gweithgareddau sydd wedi eu hamlinellu uchod yn llunio'r rhaglen waith ar gyfer y strategaeth. Bydd y rhaglen waith yn cael ei hadolygu yn rheolaidd, a phrosiectau yn cael eu hychwanegu wrth iddynt gael eu hadnabod wrth drafod gydag adrannau a phartneriaid allweddol. Bydd y Strategaeth ei hun yn cael ei hadolygu ar ddiwedd y 5ed flwyddyn, sef y cyfnod a ddynodir gan ofynion Safonau'r Gymraeg, a bydd hynny yn rhoi cyfle i ni addasu blaenoriaethau ac ymateb i amgylchiadau ac anghenion allai godi o fewn y cymunedau.

Mae trefniadau casglu data blynyddol wedi eu sefydlu yn ystod y strategaeth bresennol sydd yn ein galluogi i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal gan wasanaethau'r Cyngor. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn wrth sefydlu'r strategaeth newydd, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn casglu'r data cywir, ac yn cael yr holl wybodaeth sydd ei angen arnom i fesur llwyddiant y strategaeth yn effeithiol.

Mae gan y Pwyllgor Iaith gyfrifoldeb i fonitro sut mae adrannau'r Cyngor yn gweithredu gofynion y Safonau Iaith, a sut y maent yn cyfrannu at amcanion y strategaeth yma. Byddwn hefyd yn monitro gweithrediad y rhaglen waith yn flynyddol ac yn cyflwyno adroddiad blynyddol i Gabinet y Cyngor.

Uned Iaith

CYNGOR GWYNEDD

gwynedd.llyw.cymru

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar est 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am gymorth pellach.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol i sicrhau tegwch a meithrin perthnasau da. Rhaid felly gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

Mae hefyd yn ofynnol i'r Cyngor, dan ofynion Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011) ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

O Ebrill 1af 2021 ymlaen mae gan y Cyngor ddyletswydd i roi sylw dyledus i ddod i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae gofyniad statudol ar y Cyngor, fel rhan o Safonau'r Gymraeg, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i lunio strategaeth 5 mlynedd sydd yn amlinellu gweledigaeth y cyngor ar gyfer hybu a hyrwyddo defnydd o'r iaith yn y sir.

Mae Strategaeth Iaith newydd yn cael ei llunio yn ystod 2023, fel dilyniant i'r strategaeth gyntaf a luniwyd dan ofynion y Safonau yn 2018. Bydd y strategaeth yn adnabod prosiectau a ffrydiau gwaith penodol i hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion Gwynedd.

Mae'r gwaith wedi ei rannu dan benawdau:
Cynyddu nifer siaradwyr;

Iaith y blynyddoedd cynnar;
Iaith dysgu;
Iaith Gwaith a Gwasanaeth;
Iaith y Gymuned, ac:
Ymchwil a Thechnoleg

Mae nifer o gynlluniau a phrosiectau wedi eu hadnabod dan bob pennawd sydd yn bennaf seiliedig ar waith y mae'r Cyngor ei hun yn gyfrifol amdano, ond hefyd yn cynnwys gwaith ar y cyd gyda rhai partneriaid allweddol.

Y bwriad yw edrych y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, ac hefyd y tu hwnt i ymyraethau sydd yn cael eu gweithredu mewn meysydd polisi a strategol cysylltiedig, a chanfod cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg, gan gyfrannu at yr amcanion cenedlaethol (Cymraeg 2050) o gynyddu niferoedd siaradwyr a defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Gan mai dilyniant a diwygiad i strategaeth flaenorol sydd dan sylw yma i bob pwrpas, mae rhywfaint o'r prosiectau a chynlluniau sydd yn rhan o'r strategaeth eisoes ar waith, ond rydym hefyd wedi cynnal cyfnod trafod ac ymgynghori dros y misoedd diwethaf er mwyn casglu syniadau am beth y gellir ei wneud o'r newydd i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a sut y gellir cryfhau'r strategaeth.

Roedd nifer o gynlluniau wedi eu cynnwys yn y fersiwn drafft o'r strategaeth yn rhai sydd eisoes wedi cael cymeradwyaeth ac sydd eisoes yn weithredol fel rhan o waith y Cyngor (mae'r rhai sydd yn rhan o Gynllun y Cyngor wedi mynd drwy broses gymeradwyo ac yn destun asesiadau effaith unigol).

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Gwenllian Williams, Ymgynghorydd Iaith, Uned Iaith a Chraffu, Cyngor Gwynedd

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Fersiwn 1 – Fersiwn cyn ymgynghori cyhoeddus, Mawrth 2023

Fersiwn 2 – Wedi cyfnod ymgynghori/cyn cyflwyno i'r Cabinet, Medi 2023

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Aelodau Cabinet y Cyngor
Swyddogion a Phenaethiaid Adrannau Cyngor Gwynedd
Pwyllgor Iaith
Trigolion
Aelodau Fforwm Iaith Gwynedd

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷn â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn ystod mis Mai 2023, yn dilyn trefniadau ymgynghori arferol y Cyngor. Mae'r data a gasglwyd fel rhan o'r ymgynghori yn dangos.bod mwy o ferched na dynion wedi ymateb (54.7%), bod trawstoriad eithaf cyson rhwng grwpiau oedran 35-44, 45-54, 55-64 a bod amrywiaeth hefyd o ran cenedligrwydd a hunaniaeth genedlaethol yr ymatebwyr. Roedd 13.2% o'r ymatebwyr yn ystyried eu hunain yn berson anabl yn ôl diffiniad Adran 6 (1) Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gwelwyd bod barn pobl ifanc yn brin iawn yn yr ymgynghori, ac felly mae gwaith ar droed/wedi cychwyn i gasglu eu barn am gyfeiriad y strategaeth ac ymyraethau posib. Gan fod cynyddu defnydd iaith ymysg pobl ifanc yn un o brif flaenoriaethau'r strategaeth, teimlir mai dyma yw'r flaenoriaeth ar gyfer yr adnodd sydd ar gael i ni ar hyn o bryd.
Ni fu posib cynnal grwpiau ffocws gyda grwpiau nodweddion penodol, a gyda Grŵp Craidd Cydraddoldeb y Cyngor, ond byddwn yn ystyried sut i gasglu barn grwpiau penodol wrth weithredu'r strategaeth, ac yn edrych a oes gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i'r cyngor gan y grwpiau hyn, ac am faterion ieithyddol drwy ymgynghoriadau eraill gan y Cyngor.

Cyn y cyfnod ymgynghori cyhoeddus, roedd gweithdai wedi eu cynnal gyda Phwyllgor Iaith y Cyngor a chydag aelodau Fforwm Iaith Gwynedd (cynrychiolwyr o sefydliadau partner sydd yn gweithredu cynlluniau hybu'r Gymraeg ac sydd yn cydweithio gyda'r Cyngor ar gynlluniau penodol)., er mwyn adnabod blaenoriaethau posib.

Cafodd y Pwyllgor Iaith hefyd gyfle i edrych ar ddadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad yn ystod mis Mehefin 2023, ac i gynnig addasiadau posib i'r strategaeth derfynol.

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Cafodd rhai blaenoriaethau penodol eu hadnabod o ganlyniad i'r trafodaethau cychwynnol gyda'r Pwyllgor Iaith a Fforwm Iaith Gwynedd, a'r rheiny wedi eu hymgorffori i'r fersiwn drafft o'r strategaeth ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus.
Roedd y rhain yn cynnwys angen i roi sylw penodol i ddefnydd iaith pobl ifanc a cheisio cynyddu'r defnydd y tu allan i'r ysgol ac wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol.

Roedd ymateb yr ymgynghori cyhoeddus a gynhaliwyd yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda nifer uchel yn cytuno gyda'r blaenoriaethau a oedd wedi ei nodi.
Adroddiad Canlyniadau Ymgynghori Strategaeth Iaith Gwynedd 2023.pdf (llyw.cymru)
Roedd 72% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r bwriad i ganolbwyntio ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.
Roedd dros 50% yn cytuno gyda phob un o'r meysydd her oedd wedi hadnabod, gyda'r ganran uchaf yn cytuno mai Dylanwad technoleg a Creu Siaradwyr Newydd oedd y ddwy brif her i ddatblygiad y Gymraeg yng Ngwynedd.
Pan ofynnwyd i'r cyhoedd flaenoriaethu y meysydd gweithredu oedd yn cael eu cynnig, dywedodd 65% o'r ymatebwyr eu bod yn credu mai iaith Blynyddoedd Cynnar oedd bwysicaf.

O ran y themâu cyffredin oedd yn codi o'r ymatebion ysgrifenedig, roedd sicrhau cyfleoedd digonol ac addas i bobl ddysgu Cymraeg ac i fagu hyder wrth siarad Cymraeg yn thema a gododd yn rheolaidd, ac mewn ymateb i sawl cwestiwn.

Serch hynny, cafwyd nifer o sylwadau negyddol hefyd, gyda nifer o sylwadau oedd yn honni bod y Cyngor ddim yn rhoi cyfleoedd i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg gael swyddi, ac y dylid rhoi y swyddi i'r bobl "fwyaf addas", y dylid canolbwyntio ar y Saesneg fel iaith ryngwladol, a bod hybu'r Gymraeg yn wastraff arian ac y dylid blaenoriaethau materion eraill megis ffyrdd, iechyd ac addysg.

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Mae heriau ac amcanion y strategaeth ddrafft wedi eu seilio ar ddealltwriaeth o egwyddorion cynllunio ieithyddol a'r ffactorau sydd yn effeithio ar ddefnydd iaith. Mae dealltwriaeth dda yn bodoli am yr heriau sosio-economaidd sydd yn effeithio ar y Gymraeg yn y cymunedau, ac mae'r camau gweithredu yn seiliedig ar ymwybyddiaeth y swyddogion o'r gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud i fynd i'r afael a'r gwahanol ffactorau a heriau.

Mae'r gwahanol feysydd gweithredu yn rhai sydd wedi eu hadnabod gan arbenigwyr ar lefel genedlaethol fel meysydd allweddol i gynnal a hybu'r iaith.

Mae gennym hefyd rhywfaint o dystiolaeth o ymgynghoriadau eraill gan y Cyngor sydd yn rhoi syniad i ni am yr heriau sydd yn bodoli o ran ceisio hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, ac hefyd am rai o'r agweddau tuag at y Gymraeg.

Mae cwynion sydd wedi bod yn cael eu derbyn gan yr Uned Iaith a Chraffu, a sylwadau sydd wedi eu derbyn mewn ymgynghoriadau eraill gan y Cyngor (ymgynghoriad gan yr uned Cydraddoldeb, ac ymgynghoriadau Ardal Ni a Cynllun y Cyngor yn enghreifftiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf), er enghraifft, wedi amlygu rhai agweddau negyddol tuag at yr iaith, a barn bod y Cyngor yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion nad ydynt yn siarad Cymraeg neu unigolion sydd wedi symud i'r ardal.
Cafodd hyn ei atgyfnerthu gan rai o'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad.
Drwy greu strategaeth gynhwysol, sydd yn ceisio sicrhau cyfle i bob aelod o'r gymdeithas gael profiad cadarnhaol o'r Gymraeg, rydym yn gobeithio gallu mynd i'r afael a rhai o'r agweddau yma.

Nid oedd canlyniadau'r ymgynghoriad yn cynnig unrhyw feysydd eraill y dylem ystyried gweithredu ynddynt, sydd yn awgrymu bod cytundeb am y meysydd sydd eisoes wedi eu hadnabod.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Er bod yr ymgynghoriad wedi dilyn trefniadau arferol y Cyngor, a'n bod wedi ceisio rhannu'r wybodaeth yn eang, roedd bwlch amlwg yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan bobl ifanc. Dim ond 3 ymateb gafwyd gan unrhyw un dan 34 oed. Gan fod cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc yn rhan mor bwysig o amcanion y strategaeth, bydd yn hollbwysig ein bod yn ceisio eu barn a'u llais wrth i ni symud ymlaen i weithredu. Mae gwaith eisoes ar droed i gasglu eu barn a'u syniadau am sut y gellir cynyddu defnydd a pa fath o ymyraethau fyddai yn effeithiol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei adlewyrchu yn y rhaglen waith fyw fydd yn cyd-fynd efo'r strategaeth.

Mae sawl un o'r cynlluniau newydd sydd wedi cael eu hadnabod fel rhai sydd yn cyfrannu at amcanion y strategaeth yn gynlluniau sydd wedi eu cynnig yn y fersiwn ddiweddaraf o Gynllun y Cyngor, ond gan nad oes asesiadau effaith unigol wedi eu cynnal ar y prosiectau hynny eto, mae bwlch yn bodoli o ran ein asesiad ni. Byddwn yn gobeithio casglu gwybodaeth bellach am y prosiectau yma er mwyn llenwi'r bwlch ac adnabod unrhyw gyfleoedd i wella effaith cadarnhaol y gwaith wrth weithredu'r strategaeth.

Mae'r gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg wedi bod wrthi yn cymharu setiau data'r cyfrifiad er mwyn rhoi darlun manylach i ni o'r newidiadau sydd wedi bod. Er bod angen gwneud gwaith pellach ar hyn eto,

| |
|---|
| mae'r dystiolaeth yn cefnogi ein barn bod angen rhoi sylw penodol i gynyddu nifer siaradwyr a defnydd iaith ymysg y boblogaeth ifanc (dan 25 oed). Mae ardaloedd sydd yn cael eu hystyried yn "sensitif" o safbwynt gostyngiad yng nghanran y siaradwyr rhwng y ddau gyfrifiad diwethaf hefyd wedi eu hadnabod i gael eu targedu gan y fenter iaith.<br>.. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Positif / negyddol / ~~dim~~ | Er nad yw iaith yn nodwedd cydraddoldeb warchodedig, mae hyn yn aml yn cael ei gysylltu yn uniongyrchol gyda'r agwedd hil.<br><br>Mae gwybodaeth sydd yn cael ei gasglu o arolygon ac ymgynghoriadau cyhoeddus gan y yn dangos bod rhai agweddau negyddol yn bodoli am bolisi iaith y Cyngor a'i ymdrechion i hybu'r Gymraeg, a bod rhagdybiaeth fod yr ymdrechion hynny yn gwahaniaethu yn erbyn pobl o hil gwahanol neu o leiafrifoedd ethnig (h.y. pobl sydd ddim yn drigolion "brodorol"). Cafodd yr agweddau hyn eu gweld yn yr adborth sydd wedi ei dderbyn yn ddiweddar gan gyd-swyddogion, er enghraifft yn sgil ymgynghori cyhoeddus gan yr Uned Gydraddoldeb, ymgysylltu gan dîm y we ar ddefnydd y cyhoedd o'r wefan, a sylwadau o ymgynghoriadau Llesiant a Chynllun y Cyngor.<br>Mae posib y byddwn ni'n gweld yr un agweddau wrth ymgynghori ar y strategaeth hon.<br>Gwelsom yr un agweddau yn cael eu mynegi yn yr ymgynghoriad ar gyfer y strategaeth. Roedd nifer o bobl wedi mynegi eu barn bod y Cyngor yn colli cyfleoedd i gyflogi pobl dalentog a bod pobl yn cael eu hatal rhag ymgeisio am swyddi oherwydd yr angen i fod yn siaradwyr Cymraeg.<br>Roedd nifer o sylwadau yn yr ymgynghoriad oedd hefyd yn ategu'r farn bod rhai aelodau o'r cyhoedd yn teimlo bod y Cyngor yn gwastraffu arian wrth hybu'r Gymraeg, a bod hynny yn dangos ffafriaeth i'r Cymry Cymraeg ac yn cael effaith negyddol ar fewnfudwyr a rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.<br><br>Gan fod y strategaeth yn cael ei llunio fel rhan o ofynion statudol Mesur y Gymraeg 2011, ni fwriedir iddo ddelio gydag/cyfarch anghenion y boblogaeth o ran ieithoedd eraill.<br><br>Mae nifer o amcanion y strategaeth, serch hynny, yn ceisio mynd i'r afael a'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl o bob cefndir ddysgu'r Gymraeg, ac i sicrhau bod rhieni yn cael y gefnogaeth briodol i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant ac i gefnogi eu plant drwy addysg cyfrwng Cymraeg. Mae amcanion y strategaeth felly yn ceisio sicrhau bod y Gymraeg ar gael i bawb. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r Cyngor hefyd yn cyfarch gofynion ieithoedd eraill drwy ei gyfrifoldebau Cydraddoldeb, ac wedi ymrwymo i gynnig darpariaeth lle bo'r angen er enghraifft anghenion cyfieithu mewn cyfarfodydd llesiant. Caiff hyn ei danlinellu yn y Polisi Cydraddoldeb a Chynhwysiant. |
| **Anabledd** | Positif / negyddol / dim | Nid ydym yn ystyried bod unrhyw beth yng nghynnwys y strategaeth fyddai yn arwain at effaith negyddol ar bobl anabl, ac ni chafodd unrhyw faterion eu hamlygu yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Gwnaed sylwadau am gynhyrchu deunyddiau dwyieithog a hygyrchedd gwasanaethau yn gyffredinol wrth ymgynghori efo'r grŵp Cydraddoldeb Craidd ar y Polisi Iaith newydd yn ystod 2022, ac felly mae rhywfaint o'r gwaith sydd wedi ei adnabod dan yr adran Iaith Gwaith a Gwasanaeth yn ceisio ymateb i'r angen i symleiddio'r iaith sydd yn cael ei ddefnyddio wrth gyfathrebu efo'r cyhoedd.<br><br>Un o'r problemau a godwyd (mwy o fanylion wedi eu cynnwys yn asesiad effaith y Polisi) oedd bod effaith negyddol posib ar bobl gydag anawsterau deallusol os nad yw'r Cyngor yn cynhyrchu deunyddiau sydd yn dilyn egwyddorion Cymraeg Clir. Mynegwyd y farn bod y Cyngor yn defnyddio iaith rhy ffurfiol, jargonistaidd, a bod angen gweithio ar gynhyrchu deunyddiau fwy syml ac eglur.<br><br>Gan fod gwaith y Cyngor dan Fframwaith Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfrannu at amcanion y Strategaeth, mae effaith gadarnhaol wedi ei adnabod ar grwpiau o bobl anabl hefyd, gan fod gwasanaethau cymdeithasol a gofal y Cyngor yn dilyn yr egwyddor o gynnig rhagweithiol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y ffaith bod cynnig gwasanaethau yn iaith gyntaf unigolion yn gallu bod yn allweddol mewn achos o salwch neu anabledd, bod unigolion yn gallu mynegi eu hunain yn well yn eu hiaith eu hunain, ac felly ei fod yn rhan allweddol o gynnig gofal a gwasanaeth o safon. Mae fforwm Mwy na Geiriau mewnol wedi ei sefydlu fydd yn edrych ar gyfleoedd i ehangu'r effaith gadarnhaol. |
| **Rhyw** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith wedi ei adnabod ar hyn o bryd |
| **Oedran** | Positif / negyddol / dim | Bydd angen dadansoddiad manylach o ganlyniadau cyfrifiad 2021 dros y misoedd nesaf i ddeall y newidiadau sydd wedi digwydd o ran defnydd iaith mewn gwahanol grwpiau oedran, ond mae'r Strategaeth yn anelu i fod yn un gynhwysol ac i sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cynnig i bobl o bob oed ddefnyddio'r Gymraeg ac draws y sir.<br><br>Er bod defnydd iaith ymysg pobl ifanc yn broblem benodol sydd wedi ei hadnabod yn y sir, ni chafwyd ymatebion gan bobl ifanc i'r ymgynghoriad cyhoeddus, ac mae hynny wedi ei adnabod fel bwlch yn y dystiolaeth. Mae gwaith eisoes ar droed i gasglu barn gan y garfan hon. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r strategaeth yn nodi bod angen mynd i'r afael a'r heriau sy'n bodoli ac i gael effaith gadarnhaol ar ddefnydd iaith pobl ifanc yn y dyfodol - mae hyn yn cynnwys ymyraethau ym myd addysg a cheisio edrych ar y cyfleoedd anffurfiol a chymunedol sydd yna i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg - ond bydd angen i ni sicrhau bod y sylfaen tystiolaeth yn fwy cadarn er mwyn cynllunio'r ymyraethau gorau. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd |
| **Ailbennu rhywedd** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith negyddol wedi ei adnabod ar hyn o bryd.<br>Mae sylw penodol yn cael ei roi yn y strategaeth i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn cynnwys ceisio dylanwadu ar rieni, cyn i blant gyrraedd oed ysgol, rhannu gwybodaeth gyda rhieni beichiog am fanteision amlieithrwydd, a sicrhau cyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg i'r teulu yn ystod misoedd cyntaf bywyd. Mae bwriad penodol felly i gael effaith gadarnhaol. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Positif / negyddol / dim | Dim effaith ychwanegol wedi ei adnabod ar hyn o bryd |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif / negyddol / dim | Holl fwriad y strategaeth yw canfod cyfleoedd i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ac i annog mwy o ddefnydd o'r iaith ymysg trigolion y sir. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif / negyddol / dim | Codwyd nifer o bwyntiau yn y Grŵp Craidd Cydraddoldeb wrth ymgynghori ar y Polisi Iaith y llynedd am hygyrchedd gwasanaethau a gwybodaeth gan y Cyngor yn fwy cyffredinol. Nodwyd bod effaith bosib i rai grwpiau o ran mynediad i wasanaethau wrth i fwy o wasanaethau fynd ar-lein.<br>Bydd rhan o waith y strategaeth yn edrych yn benodol ar ddefnydd iaith y cyhoedd ar-lein ac i geisio deall y gwahaniaethau rhwng eu defnydd iaith wyneb yn wyneb ac ar-lein.<br>Rydym hefyd wedi tynnu sylw yn y strategaeth at y broblem bod rhai pobl o bosib yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd i ddefnyddio a gweld y Gymraeg yn eu cartrefi oherwydd cost adnoddau, ac yn nodi y byddwn yn ystyried sut i fynd i'r afael a'r broblem yma. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | A yw'n cael effaith?* | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi / nac ydi / posib | Ni ystyrir bod unrhyw gam-wahaniaethu anghyfreithlon oherwydd bod y strategaeth yn cael ei datblygu dan ofyn statudol Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sydd yn nodi'r angen i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, ac hefyd i greu strategaeth sydd yn amlinellu bwriadau i hybu'r Gymraeg o fewn y sir. Ymhellach rydym wedi ystyried anghenion pawb yn yr asesiad effaith yma, gan gynnwys y rhai sy'n honni fod y Cyngor yn gwahaniaethu oherwydd iaith. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi / nac ydi / posib | Credwn bod y camau gweithredu sydd yn cael eu hamlinellu yn y strategaeth yn cyd-fynd gyda'r gofynion hynny ac yn ceisio sicrhau cyfleoedd cyfartal i bobl o bob oed a chefndir ddefnyddio'r Gymraeg. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi / nac ydi / posib | Bydd yn bwysig ein bod yn cyfathrebu ein bwriadau o ran y strategaeth yn glir er mwyn meithrin perthnasau da a sicrhau bod y trigolion yn deall pam ein bod yn gweithredu.<br><br>Mae rhan o'r strategaeth hefyd yn rhoi sylw i'r angen i godi ymwybyddiaeth pobl at fanteision dwyieithrwydd a phwysigrwydd cynnig gwasanaethau Cymraeg. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn magu ewyllys da ac agweddau cadarnhaol tuag at ein gwaith ac at yr iaith yn fwy cyffredinol.<br><br>Bydd magu perthynas gydweithio dda gyda phartneriaid a sefydliadau eraill hefyd yn allweddol er mwyn gweithredu'r strategaeth yn llwyddiannus.<br><br>Rydym wedi creu Fforwm iaith Sirol, sydd yn dod a chynrychiolwyr o wahanol sefydliadau a grwpiau cymunedol at ei gilydd, er mwyn hwyluso'r gwaith o feithrin perthynas dda (efo partneriaid a'r cyhoedd). |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Mae'r Strategaeth wedi ei ysgrifennu i adlewyrchu gofynion statudol Safonau'r Gymraeg ac ymrwymiad y Cyngor i hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai'r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Gwnaed man newidiadau i'r strategaeth yn dilyn y cyfnod ymgynghori, yn bennaf er mwyn rhoi eglurder ar rai materion yr oedd yn ymddangos bod pobl wedi eu camddeall. Er enghraifft, mae'r targed ar gyfer cynyddu niferoedd siaradwyr ymysg plant a phobl ifanc wedi ei aralleirio er mwyn dangos yn glir bod cyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg ymysg plant nad ydynt yn rhan o addysg prif ffrwd.
Mae'r pwyslais ar dechnoleg wedi ei newid hefyd, gyda sylw penodol yn cael ei roi i ddefnydd o dechnoleg a chyfryngau cymdeithasol a'r ffordd y maent yn dylanwadu ar ddefnydd iaith y boblogaeth dan bob maes gweithredu (yn hytrach na fel rhan o faes gweithredu ar wahân).

Fel y nodwyd eisoes, byddwn yn parhau i geisio barn gwahanol garfannau er mwyn sicrhau bod y rhaglen waith sydd yn cyd-fynd â'r strategaeth yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol posib. Bydd y rhaglen waith honno yn cael ei hadolygu yn flynyddol er mwyn blaenoriaethu gwaith sydd yn ateb amcanion cyffredinol y strategaeth.

**3.5 Sut mae'r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

Mae'r strategaeth yn ceisio mynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy geisio sicrhau bod pawb drwy'r sir yn cael cyfleoedd digonol i ddefnyddio eu Cymraeg.
Rydym wedi nodi yn y strategaeth bod y sefyllfa ariannol (o ran cyllideb gweithredu y Cyngor) a'r argyfwng costau byw yn gall effeithio ar allu pobl i gael mynediad i adnoddau a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Er nad oes cynlluniau penodol wedi eu hadnabod ar hyn o bryd i fynd i'r afael a hyn, mae'n fater y bydd angen i ni ei ystyried wrth adolygu a llunio rhaglenni gwaith blynyddol y Strategaeth.

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Yn dilyn derbyn holl ganlyniadau'r cyfrifiad byddwn maes o law yn edrych a oes angen cefnogaeth benodol i rai cymunedau neu drigolion sydd yn dioddef o anfantais economaidd-gymdeithasol gyda chynyddu defnydd o'r Gymraeg.<br>Fel y nodir uchod, bydd angen i ni ystyried a oes angen gweithredu cynlluniau penodol yn ystod oes y strategaeth fydd yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw un yn colli allan ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg oherwydd rhwystrau economaidd-gymdeithasol. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Effaith positif ar yr iaith Gymraeg. |

### 4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Na<br>Mae'r strategaeth yn adlewyrchu gofyn statudol a'r angen i ymateb i anghenion ieithyddol y cyhoedd ar draws y sir. |

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | x |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

### 4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

| |
|---|
| Byddwn yn ystyried cynnal ymgyrch sy'n dangos budd y strategaeth a'r rhaglen waith pan fo hynny'n amserol. |

### 4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.

| |
|---|
| |

## 5) Monitro

### 5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?

| |
|---|
| Bydd cynllun gweithredu/rhaglen waith yn cael ei chreu i gyd-fynd efo'r strategaeth derfynol, a bydd trefniadau monitro yn cael eu sefydlu fydd yn cynnwys adrodd ar elfennau drwy drefniadau Herio Perfformiad, adroddiadau adrannol i'r Pwyllgor Iaith ac adroddiad blynyddol i'r Cabinet. Byddwn yn ail-edrych ar yr asesiad effaith yma hefyd yn sgil y rhain. |

**Rhaglen waith gychwynnol Strategaeth Iaith 2023-2033 – Camau Gweithredu Hydref 2023 i Hydref 2024**

Bydd hon yn rhaglen waith fyw, fydd yn cael ei hadolygu yn rheolaidd. Bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gydag adrannau'r Cyngor ddiwedd y flwyddyn er mwyn gallu adnabod yr union gynlluniau a phrosiectau sydd yn bwydo mewn i'r rhaglen waith ac y byddwn yn gallu casglu tystiolaeth a data yn eu cylch yn flynyddol.

## Iaith Blynyddoedd Cynnar

| Amcan y Strategaeth | Cam gweithredu | Pwy sy'n gyfrifol | Mesur llwyddiant |
|---|---|---|---|
| Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfeini cadarn ar gyfer defnyddio'r Gymraeg a cefnogaeth briodol yn cael ei dargedu helpu cynnal grwpiau | *Targedau priodol o'r CSGA.* | Adran Addysg/ Uned Iaith a Chraffu | Mesurau sydd wedi eu pennu yn erbyn targedau CSGA |
| | Trafodaeth rhwng y Cyngor a'r Mudiad Meithrin er mwyn ystyried pa gamau sydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau bod grwpiau Ti a Fi a Chylchoedd Meithrin yn cael y gefnogaeth briodol i dyfu a ffynnu. | Uned Iaith a Chraffu / Adran Addysg/Mudiad Meithrin | Camau gweithredu wedi eu cytuno |
| Codi ymwybyddiaeth rhieni am y gyfundrefn addysg a chyfleoedd i gyflwyno'r Gymraeg cyn oed ysgol | Ystyried cynnal ymgyrchoedd penodol i Wynedd fydd yn rhoi gwybodaeth ac yn cyfeirio rhieni at adnoddau a gweithgareddau | Uned Iaith a Chraffu | |
| Creu cyfleoedd newydd anffurfiol i'r teulu ddefnyddio'r Gymraeg | Cynnal gweithgareddau mewn ardaloedd targed lle mae ffocws penodol ar ddefnydd iaith rhwng y rhieni a'r plant. | Menter Iaith Gwynedd | Nifer gweithgareddau a mynychwyr |
| Parhau i sicrhau amrywiaeth o weithgareddau ar gyfer teuluoedd ifanc sydd yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio'r Gymraeg | Cynnal sesiynau amrywiol i gyflwyno'r Gymraeg i blant ifanc | Gwasanaeth Llyfrgelloedd Gwynedd / Gwasanaeth | Nifer gweithgareddau a mynychwyr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Blynyddoedd Cynnar/ Menter Iaith Gwynedd | |

## Iaith Dysgu

| Amcan | Gweithred | Pwy? | Mesur |
|---|---|---|---|
| Cynnydd yn nifer y disgyblion ysgol sydd yn dilyn cyrsiau cyfrwng Cymraeg (TGAU/Lefel A) | Codi ymwybyddiaeth/ ymgyrch a negeseuon cadarnhaol i bobl ifanc am y rhesymau i ddysgu a gwerth y Gymraeg i'r byd gwaith. | Addysg/ Siarter Iaith/Hunaniaith/Grŵp Llandrillo/ Brifysgol Fforwm Addysg a Fforwm Dilyniant Llwyddo'n Lleol | |
| Gwella sgiliau cyfathrebu/Cymraeg staff y Cyngor, ar lafar ac yn ysgrifenedig | Prosiect Dynodiadau yn adnabod yr angen am hyfforddiant a gwersi ymysg staff newydd. | Cefnogaeth Gorfforaethol | Nifer staff sydd yn cwblhau hunanasesiadau iaith. |
| | Staff yn derbyn gwersi yn amserol, a chynnydd yn cael ei fonitro. | Cefnogaeth Gorfforaethol | Nifer staff sydd yn mynychu hyfforddiant a datblygu tuag at ddynodiad eu swyddi. |
| | Cynllun penodol i edrych ar sgiliau ysgrifenedig staff, er mwyn gweithio ar ddefnyddio egwyddorion Cymraeg Clir a symleiddio yr iaith a ddefnyddir i gyfathrebu gyda'r cyhoedd. | Cefnogaeth Gorfforaethol | Nifer staff sydd yn mynychu hyfforddiant. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwella darpariaeth addysg ac achrediadau yng nghyd-destun prentisiaethau | Cydweithio efo darparwyr addysg er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i brentisiaid ddilyn eu cwrs a'u cymwysterau yn Gymraeg. | Tîm Talent a Phrentisiaethau, Cefnogaeth Gorfforaethol | |
| Parhau i sicrhau bod cyfleoedd i bobl ifanc ennill cymwysterau ac achrediadau cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i addysg ffurfiol. | Parhau i gynnig cyfleoedd i bobl ifanc ennill achrediadau a chymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg a thrafod unrhyw rwystrau i gynnig mwy gyda'r partneriaid perthnasol. | Gwasanaeth Ieuenctid | Nifer pobl ifanc sydd yn ennill achrediadau |
| Cefnogi a datblygu sgiliau hyfforddwyr cymunedol. | Cynnal trafodaethau cychwynnol ynghylch y posibilrwydd o ddatblygu cynllun hyfforddiant a chadernid iaith cymunedol. | Urdd, Coleg Cymraeg (Ap Geirfa Chwaraeon) | |
| Cynyddu cyfleoedd hyfforddi a dysgu anffurfiol yn y gymuned a sicrhau bod cyfleoedd ar gael ym mhob rhan o'r sir. | Trafod gyda'r Urdd, Gwasanaeth Ieuenctid a Byw'n Iach i sicrhau nad oes dyblygu gweithgareddau mewn rhai ardaloedd a bod adnoddau yn cael eu targedu yn y mannau gorau. | Urdd, Byw'n Iach, Ieuenctid, Uned Iaith a Chraffu. Fforwm Iaith, Menter Iaith Gwynedd | |

## Iaith Gwaith a Gwasanaeth

| **Amcan** | **Gweithred** | **Pwy?** | **Mesur** |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil a datblygu dealltwriaeth pobl o bob oed am y galw yn y byd gwaith. | Ymgyrch ymwybyddiaeth am yr angen am sgiliau. | Cefnogaeth Gorfforaethol | Sawl ymgyrch gynhelir |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynyddu dealltwriaeth o'r angen am wasanaethau Cymraeg ac o ganlyniad yr angen am sgiliau Cymraeg o fewn gweithlu'r sector gyhoeddus | Gweithio gyda is-grŵp y Gymraeg y Bwrdd Gwasanaethau i rannu arferion da o ran recriwtio ar draws y sefydliadau cyhoeddus. | Cefnogaeth Gorfforaethol | Cyflawni prosiect ar y cyd efo'r BG |
| Cynyddu defnydd o wasanaethau ar-lein cyfrwng Cymraeg gan y cyhoedd | Cynnal gwaith ymchwil PhD i agweddau trigolion a defnydd iaith.<br><br>Treialu cynlluniau o fewn y Cyngor i adolygu ffurflenni ar-lein er mwyn eu gwneud yn fwy hygyrch, hawdd eu deall a'u defnyddio. | Prifysgol Bangor / Cefnogaeth Gorfforaethol | |
| Sicrhau bod gan gweithlu'r Cyngor y sgiliau priodol i allu cynnig y gwasanaeth Cymraeg yn ddi-dor ar draws y Cyngor. | Sicrhau bod pobl; gyda'r sgiliau cywir yn cael eu penodi, a bod camau mewn lle i wella sgiliau drwy brosiectau Dynodiadau Iaith a Chynllunio'r Gweithlu. | Cefnogaeth Gorfforaethol | Nifer staff sydd yn cael eu penodi sydd yn cyrraedd dynodiad y swydd a nifer gweithlu sydd yn derbyn hyfforddiant i wella sgiliau. |
| Gweld busnesau'r sir yn datblygu defnydd o'r Gymraeg a chynnig mwy o wasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. | Edrych ar ffyrdd o annog busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg. | Cefnogaeth Gorfforaethol, Economi a Chymuned, Menter Iaith | Nifer busnesau sydd wedi derbyn cefnogaeth |

## Iaith y Gymuned

| Amcan | Gweithred | Pwy? | Mesur |
|---|---|---|---|
| Deall natur y cymunedau a'u anghenion | Ystyried sut y gellir datblygu ffyrdd o fesur defnydd iaith cymunedol. | Cyngor Gwynedd | |
| Adnabod bylchau o ran darpariaeth a gweithgareddau cymunedol i ddefnyddio'r Gymraeg | Cydweithio efo aelodau Fforwm Iaith Sirol i fapio ac adnabod bylchau. | Uned Iaith a Chraffu / Fforwm Iaith Gwynedd | |
| | Datblygu defnydd o fap Gweithgareddau Gwynedd | Uned Iaith a Chraffu Cyngor Gwynedd | |
| Rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau newydd | Cynnal gweithgareddau a sesiynau sgwrsio cymunedol sydd yn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer a magu hyder mewn awyrgylch anffurfiol | Menter Iaith Gwynedd | Nifer gweithgareddau a mynychwyr |
| Datblygu cyfleoedd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau amrywiol, yn enwedig felly yn y cymunedau digidol. | Gweithredu **Prosiect 15**, sydd yn ceisio annog creu cynnwys digidol yn y Gymraeg ar wahanol blatfformau. | Uned Iaith a Chraffu / Menter Iaith Gwynedd | Nifer gweithgareddau |
| Cynyddu statws y Gymraeg yn weledol yn y cymunedau. | Gweithredu ar gynlluniau y **Prosiect Enwau Lleoedd** sydd yn ymwneud efo arwyddion ac enwau strydoedd er mwyn | | |
| Cynyddu cyfleoedd cymdeithasu Cymraeg ar gyfer pob oed yng nghymunedau'r Sir | Gweithgareddau cymunedol wedi eu targedu at ardaloedd penodol | Menter Iaith Gwynedd / Gwasanaethau'r Cyngor sydd yn darparu gweithgareddau cymunedol | Nifer gweithgareddau a mynychwyr |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mentrau Cymunedol yn cael cefnogaeth i dyfu er mwyn datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cymunedau / Ceisio cefnogi mwy o fentrau cymunedol i greu gweithgareddau a chynlluniau economaidd fydd yn elwa'r cymunedau eu hunain. | **Arfor 2** | Prosiect Arfor | Nifer y mentrau sydd wedi cael cefnogaeth drwy gynlluniau Arfor |
| Cydweithio efo partneriaid ar gynlluniau sydd yn cyfrannu at ffyniant ieithyddol a chymunedol | Trafod cyfleoedd cydweithio efo Adra - Strategaeth Gymunedol | | |

## Ymchwil a thechnoleg (seilwaith)

| Amcan | Gweithred | Pwy? | Mesur |
|---|---|---|---|
| Cynnal gwaith ymchwil sydd yn gwella ein dealltwriaeth o effaith gwahanol ffactorau ar y Gymraeg | Cefnogi gwaith ymchwil gan Brifysgol Bangor i'r cyswllt rhwng iaith ac economi/twristiaeth | Cyngor Gwynedd (Uned Iaith a Chraff/Adran Economi), Prifysgol Bangor | |
| | Cefnogi gwaith ymchwil PhD i ddeall arferion y trigolion wrth ddefnyddio gwasanaethau (yn enwedig gwasanaethau ar-lein) | | |
| Datblygu'r berthynas rhwng y Cyngor a'r byd academaidd | Rhannu gwybodaeth gyda siroedd eraill am waith ymchwil perthnasol | Prifysgolion Cymru/Swyddogion Iaith/Arfor | |
| Cynyddu gweledolrwydd enwau llefydd Cymraeg ar fapiau cyhoeddus | Ceisio annog a dwyn perswâd ar yr Arolwg Ordnans i ddefnyddio enwau Cymraeg ar fapiau sylfaen. | Uned Iaith a Chraffu (Prosiect Enwau Lleoedd) | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **7 Rhagfyr 2023** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **Deddf Llywodraeth Leol Ac Etholiadau ( Cymru) 2021 ("Y Deddf") – Dewis ar fabwysiadau sustem Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ("PSD")ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Fod y Cyngor yn penderfynu a yw am gychwyn proses all arwain at fabwysiadu sustem Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd.** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Menna Trenholme** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans – Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol - Swyddog Monitro** |

**1. Cefndir**
Mae Adran 5 Deddf Llywodraeth leol ac Etholiadau( Cymru) 2021 yn caniatáu i unrhyw Brif Gyngor ddewis rhwng dwy sustem bleidleisio Llywodraeth Leol ar gyfer Prif Gynghorau :

- Sustem mwyafrif syml ("cyntaf heibio'r postyn" )
- System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy

Mae'r dewis yma ar gael i bob un o 22 Prif Gynghorau Cymru yn unigol. Mae'r Nodyn Esboniadol i'r Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru yn Atodiad 1 yn esbonio y cefndir deddfwriaethol.

**2. Sustem PSD**

2.1 Mae PSD yn system bleidleisio ffafriol ac mae'n gweithredu mewn etholaethau aml-aelod. Mae pleidleiswyr yn rhestru ymgeiswyr yn nhrefn eu dewis trwy farcio 1, 2, 3 ac ati yn erbyn enwau'r ymgeiswyr unigol ar y papur pleidleisio. Rhaid i ymgeiswyr gael cwota penodol o bleidleisiau er mwyn cael eu hethol.

2.2 Mae'r isod yn crynhoi y sustem PSD fyddai yn cael ei mabwysiadu . Mae'n cyffelybu i sustem Senedd Gogledd Iwerddon – Sustem "Gregory"

- Pleidleiswyr yn mynegi dewis yn ôl blaenoriaeth o ymgeiswyr ar gyfer y seddi sydd ar gael. Felly, pleidleisio drwy rifo ymgeiswyr yn ôl dymuniad blaenoriaeth yr etholwr ar y papur pleidleisio.
- Yna sefydlir "cwota" Mae hyn yn seiliedig ar rannu nifer y papurau pleidleisio dilys gyda nifer y seddi sydd yn cael eu ymladd. Os ydi ymgeisydd yn derbyn nifer o bleidleisiau dewis cyntaf sydd gyfartal neu uwchlaw y "cwota" yna fe'i hetholir
- Os nad yw pob sedd wedi ei llenwi ar ôl y cam cyntaf yna dosrennir gweddill y pleidleisiau yr ymgeiswyr llwyddiannus sydd uwchlaw y cwota a'i hail ddosbarthu yn ôl ail ddewisi a gofnodwyd ar y papurau yna. (Gosodir fformiwla ynglŷn a chyfrifo gwerth y pleidleisiau sydd yn trosglwyddo )
- Os yw cyfuniad o bleidleisiau dewis cyntaf ac ail ddewis ymgeisydd yn cyrraedd y cwota ar ôl y cam yma fe'i hetholir.
- Os oes seddi ar ôl yna ail adroddir y broses gyda gweddill y pleidleisiau mewn modd cyffelyb.
- Mae trefn ar gyfer tynnu ymgeiswyr na allent gyrraedd y cwota allan a threfn ar gyfer ethol gweddill ymgeiswyr os oes seddi gwag ar ôl.

**3. Be ydi'r broses o newid trefn?**

3.1 Oni bai fod y Cyngor yn penderfynu newid y drefn a mabwysiadu trefn PSD, trefn mwyafrif syml fydd yn cael ei defnyddio yn etholiadau Cyngor Gwynedd. Mae newid yn benderfyniad Cyngor Llawn na ellir ei ddirprwyo. Gall unrhyw Brif Gyngor yng Nghymru wneud hyn. Nid yw yn ddibynnol ar sefyllfa neu benderfyniad unrhyw Gyngor arall. Gall olygu fod un Cyngor yn defnyddio sustem gyfredol o fwyafrir syml, a'r Cyngor drws nesaf gyda sustem PSD. Nid yw'r newid yma yn agored i Gynghorau Tref a Chymuned fydd yn parhau gyda y sustem gyfredol beth bynnag y penderfyniad sirol. Mae angen dilyn camau penodol os am benderfynu ar drefn amgen..

3.2 Cyn gwneud penderfyniad i newid y drefn rhaid ymgynghori ynglŷn a'r bwriad gyda;

- Pob etholwr llywodraeth leol yn yr ardal
- Pob cyngor tref/cymuned
- Unrhyw bersonau eraill mae'n ystyried y dylid yn briodol ymgynghori a hwy
-

3.3 Ar ôl ymgynghori ar y bwriad rhaid galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor Llawn yn benodol ar gyfer y penderfyniad yma yn unig. Rhaid rhoi 21 diwrnod o rybudd rhag-blaen o'r cyfarfod. Er mwyn mabwysiadu cynnig i newid y sustem rhaid i nifer yr aelodau sydd o blaid fod o'leiaf dwy ran o dair o nifer y seddi ar y Cyngor sef 46/69.

3.4 Rhaid gwneud y penderfyniad cyn 15 Tachwedd yn y flwyddyn sydd 3 blynedd cyn y flwyddyn etholiad. 15 Tachwedd 2024 yn y tymor yma. Os newidir y drefn ni ellir arfer y pŵer i newid yn ôl hyd wedi 2 dymor llywodraeth leol canlynol . Os penderfynwyd newid i sustem PSD rhaid hysbysu Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol mewn ffurf ac amserlen benodol.

3.5 Bydd y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol yn derbyn cyfarwyddyd wedyn gan Weinidogion Cymru i gynnal adolygiad o ardal y Cyngor. Er gweithredu sustem PSD mae'n ofyn sylfaenol cael wardiau aml aelod. Yn ôl y Ddeddf rhaid i ward fod a lleiafswm o 3 aelod ac uchafswm o 6

**4. Sylwadau**

**4.1 Ffiniau**

Byddai rhaid i bob ward fod yn ward aml aelod. Mae'r Deddf wedi gosod yr amrediad nifer o seddi y gellir eu dynodi ar gyfer ward (3-6) . Mae elfen o gydnabod yn hyn fod rhif uchel o seddi mewn wardiau gwledig gyda dwysedd poblogaeth is yn golygu fod yr ardal ddaearyddol ward yn gallu bod yn sylweddol.

**4.2 Trefniadau Pleidleisio**

Bydd angen buddsoddi mewn hysbysu etholwyr o'r drefn newydd a sut i bleidleisio .

**4.3 Trefniadau Cyfrif**

Yn ddelfrydol byddai sustem PSD yn defnyddio sustem gyfrif electroneg. Fodd bynnag mae'r Llywodraeth yn cydnabod fod sustem o'r fath yn hynod o gostus. Felly, defnyddir sustem PSD a elwir yn Gregory Syml a sydd yn caniatáu cyfrif trwy law. Ond, wrth gyfrif drwy law mae profiad ar draws y DU yn dangos fod y drefn yn lafurus a gall y broses cyfrif gymryd dau ddiwrnod neu fwy. Mae angen cydnabod hefyd fod angen gofodau storio pleidleisiau all ddod mewn i rowndiau pellach o gyfrif.

Atodir linc isod i ffilm fyr ar YouTube sydd yn esbonio'r sustem ynghyd a rhesymeg y Llywodraeth am gynnwys y dewis yn y Ddeddf.

## Asesiad Effaith

Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn penderfynu i symud ymlaen ag unrhyw newidiadau i drefniadau etholiadol lleol, byddai angen ymarfer sgrinio effaith cydraddoldeb ac amrywiaeth llawn.

**5. Camau Nesaf**

Nid oes unrhyw reidrwydd penodol ar y Cyngor adolygu trefniadau pleidleisio. Mae hyn yn cynrychioli pŵer statudol petai dymuniad i fynd ati i gychwyn proses. Fodd bynnag ystyrir ei bod yn briodol fod y Cyngor Lawn yn cael cyflëi fynegi safbwynt ar y mater.

**Argymhelliad**

**Fod y Cyngor yn penderfynu a ydw am gychwyn proses all arwain at fabwysiadu sustem Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy  ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd.**

**Swyddog Monitro**


Awdur yr adroddiad

**Swyddog Cyllid**

"Nid oes ymrwymiad ariannol i'r penderfyniad a geisir, sef ystyried os yw'r Cyngor am gychwyn proses all arwain at fabwysiadu system Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau Cyngor Gwynedd.  Fodd bynnag, mae'n anorfod bydd y gofynion statudol sydd ynghlwm â chynnal y broses o newid a chyflwyno trefn newydd yn arwain at gostau un-tro ychwanegol ac o bosib costau parhaol ychydig uwch hefyd ar adeg etholiad.  Nid yw'r costau hyn wedi eu meintioli eto, ond nid wyf yn credu byddant yn effeithio ar ystyriaeth y penderfyniad a geisir.

---

[Croeso i Dy Bleidlais - Systemau Pleidleisio: Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy – Cymru - YouTube]



**Atodiad 1.**

**“Nodyn Esboniadol i’r Mesur Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru**
**Y system bleidleisio - cynnig dewis: y cyntaf i'r felin neu bleidlais sengl drosglwyddadwy**

3.28 System y cyntaf i'r felin, a elwir hefyd yn "system mwyafrif syml", yw'r unig system bleidleisio i gael ei defnyddio i ethol cynghorau lleol yng Nghymru ers dechrau cyflwyno llywodraeth leol etholedig ddiwedd y 19eg ganrif. Dyma hefyd y system a ddefnyddir i ethol Aelodau Seneddol, Aelodau Cynulliad etholaethol a chynghorwyr tref a chymuned Cymru. O ganlyniad, dyma'r system bleidleisio y mae etholwyr Cymru fwyaf cyfarwydd â hi.

3.29 Mae cefnogwyr y system ‘Y Cyntaf i’r Felin’ yn dadlau bod y gweithdrefnau pleidleisio a chyfrif yn syml, yn gyfarwydd ac yn weddol rad, a bod perthynas amlwg rhwng safle’r ymgeisydd ar ôl cyfrif y pleidleisiau ac a yw’n cael ei ethol ai peidio.

3.30 Roedd y Papur Gwyn ‘Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad' yn cynnwys cynnig i ganiatáu i brif gynghorau unigol ddewis eu system bleidleisio, gan ddewis rhwng system y cyntaf i'r felin neu'r bleidlais sengl drosglwyddadwy.

3.31 Mae'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yn system bleidleisio yn ôl blaenoriaeth, sy'n golygu bod gofyn i'r etholwyr osod yr ymgeiswyr mewn trefn, gan ddefnyddio rhifau. Gall etholwyr gynnwys pob un o'r ymgeiswyr sydd ar gael neu ddim ond y rhai o'u dewis. Mae'r bleidlais sengl drosglwyddadwy yn cael ei hystyried fel system "cynrychiolaeth gyfrannol". Fel arfer, mae'n arwain at ganlyniadau sydd ar y cyfan yn adlewyrchu cyfrannau’r pleidleisiau a fwriwyd ar gyfer y gwahanol bleidiau gwleidyddol, grwpiau ac ymgeiswyr annibynnol mewn ardal etholaethol unigol ac yn yr etholiad cyfan.

3.32 Mae pob etholiad prif gyngor yn etholiad ar wahân, wedi'i gyfyngu i ardal y cyngor. Mae'n briodol i'r cyngor benderfynu ar ei system bleidleisio ei hun, gan ddewis yr un sy'n adlewyrchu anghenion pobl a chymunedau lleol.

3.33 Mae'r Bil yn darparu y gall pob prif gyngor benderfynu drosto’i hun pa system bleidleisio i'w defnyddio, y cyntaf i'r felin neu'r bleidlais sengl drosglwyddadwy. Bydd prif gynghorau’n parhau i ddefnyddio’r system etholiadol bresennol, nes eu bod yn penderfynu ei newid. Er mwyn newid y system bleidleisio, bydd angen cefnogaeth o leiaf ddwy ran o dair o gyfanswm nifer y cynghorwyr ar y cyngor (boed yn bresennol ac yn pleidleisio ar y cynnig i newid neu beidio). Os bydd cyngor wedi ystyried a gwrthod cynnig i newid y system bleidleisio, ni chaiff y cyngor edrych eto ar yr un mater yn ystod yr un cylch etholiadol.

3.34 Gwneir darpariaeth i atal prif gyngor sydd wedi newid i ddefnyddio system bleidleisio wahanol rhag dychwelyd at yr hen drefn nes bydd o leiaf dau etholiad wedi cael eu cynnal dan y system newydd honno.

3.35 Er mwyn newid o un system bleidleisio i un arall, byddai angen adolygiad newydd o drefniadau etholiadol ardal y cyngor, a fyddai'n cael ei gynnal gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. “

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyngor Llawn |
| **DYDDIAD** | 7 Rhagfyr 2023 |
| **TEITL** | Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2022-23 |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Menna Treholme |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |

**1 Cefndir / Cyflwyniad**

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod 2022-23.

1.2 Credir i'r adroddiad grynhoi gwaith y Panel yn gywir a theg, gan hefyd gynnwys cyfeiriadau at adroddiadau neu sylwadau gan archwilwyr allanol ar y gwaith hwn.

**2 Rhesymau dros argymell y Penderfyniad**

2.1 Mae'n hanfodol fod aelodau'r Cyngor yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

2.2 Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion diogelu.

**3 Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr Adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2022-23

**4 Barn y Swyddogion Statudol**

4.1 Barn y Swyddog Monitro

Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodeb priodol o'r gwaith  Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â'r cyfrifoldeb allweddol yma.

4.2 Barn y Pennaeth Cyllid

Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant, a nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

# ADRODDIAD PANEL STRATEGOL DIOGELU

# 2022-23

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Cyflwyna'r adroddiad drosolwg o waith y Panel Strategol Diogelu dros y cyfnod Ebrill 2022 hyd at Mawrth 2023 gan amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor ei hun, a gan y Cyngor mewn partneriaeth ag eraill.

1.2. Ystyria'r adroddiad y drefn a fu a'r bwriad ar drefniant y panel i'r dyfodol.

## 2. CYFRIFOLDEBAU AC ATEBOLRWYDD

2.1. Nod y Panel Strategol Diogelu yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.

2.2. Mae'r Panel yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd â'r atebolrwydd terfynol am faterion diogelu.

2.3. Cadeirydd y Panel dros y cyfnod dan sylw oedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan hyd at fis Hydref 2022, ac yna'r Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol. Gwelir y Cylch Gorchwyl yn Atodiad 1, sy'n cynnwys rhestr o aelodau cyfredol y Panel.

2.4. Mae Panel Gweithredol Diogelu yn cefnogi'r Panel Strategol i weithredu ei flaenoriaethau ac i ymdrin â materion ymarferol y maes gwaith. Panel mewnol o swyddogion yw hwn, gyda phencampwr diogelu pob adran o'r Cyngor yn eistedd arno, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan o faterion diogelu.

2.5. Mae rhannau o berfformiad y Cyngor yn y maes diogelu yn cael ei asesu gan archwilwyr allanol annibynnol fel rhan o'u gwaith o asesu perfformiad ehangach. Cyfeirir at adroddiadau perthnasol o fewn yr adroddiad hwn.

## 3. CYNNYDD YN ERBYN Y MATERION DIOGELU

3.1. Gwelir cynnydd yn y niferoedd o gyfeiriadau diogelu at wasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd ers dechrau'r cyfnod clo y pandemig (2020 ymlaen).

3.2. **Diogelu Plant**

3.2.1. Cynyddodd y niferoedd o gyfeiriadau at y gwasanaethau plant o tua 5,000 cyn y pandemig i **7,175** yn ystod 2022-23. Bu'r pwysau gwaith ar y gwasanaeth yn llethol a bu’r gweithlu yn hynod brysur yn cefnogi’n plant a’n teuluoedd.

3.2.2. Fodd bynnag, golyga’r pwysau cynyddol bod yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff cymwysedig. Mae Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain ar grŵp sydd yn ystyried heriau recriwtio a chyflogau’r gweithlu ar hyn o bryd.

3.2.3. Tystiolaeth o waith ardderchog y gweithlu drwy’r cyfnod hwn yw’r ffaith fod 84% o adolygiadau amddiffyn plant wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau hefyd yn **98%.**

3.2.4. Gwynedd yw’r unig awdurdod i gynnal ei holl Gynadleddau Achos Diogelu Plant wyneb yn wyneb yn dilyn y pandemig, rhywbeth sydd wedi ei adnabod fel arfer da iawn gan Arolygaeth Gofal Cymru.

3.2.5. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd **68** o blant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant ac roedd **281** o blant mewn gofal, gyda 65% o’r rhain yn derbyn gofal mewn lleoliad maeth, gyda 36% o ofalwyr maeth yn deulu neu ffrindiau a 22% o blant mewn gofal wedi eu lleoli gyda’u rhieni, ac felly’n parhau gartref.

3.3. **Diogelu Oedolion**

3.3.1. Bu cynnydd yn nifer yr adroddiadau Oedolion mewn Perygl a dderbyniwyd o **654** yn ystod 2021/22 i **714** yn 2022/23. Fodd bynnag, ar gyfartaledd, mae **95%** o'r ymholiadau cychwynnol a.126 i atgyfeiriadau diogelu wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 7 diwrnod.

3.3.2. O'r adroddiadau oedolion mewn perygl a dderbyniwyd, rheolwyd y risg mewn **98%** o'r achosion o'u cymharu ag **84%** am y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, teimlir bod y cynnydd yn deillio'n bennaf o'r gwelliannau wrth gofnodi canlyniadau yn hytrach nag o newid mewn ymarfer.

3.3.3. Cynhaliwyd ymweliadau cyson i fonitro cartrefi gofal y sir, gyda nifer fechan o gartrefi yn cael eu hystyried o dan y drefn ‘Pryderon Cynyddol’ oherwydd rhesymau amrywiol, gan fwyaf yn cynnwys diffyg rheolaeth, problem dogfennaeth, a diffyg

trosolwg. Pryderir am adnoddau dynol y tîm Sicrwydd Ansawdd a'u gallu i ymweld â phob gwasanaeth, yn enwedig gwasanaethau gofal cartref, a dibynnir ar adroddiadau penodol yn y maes hwnnw ynglŷn ag ansawdd y gofal a'i ddarpariaeth.

3.3.4. Pery pryder am y gwasanaeth DoLS (trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid – Deprivation of Liberty Safeguards) yn ystod y flwyddyn gan fod rhai unigolion ar y rhestr aros am hyd at 3 mlynedd. Tra rhennir y math hwn o brofiad a sefyllfa gyda siroedd eraill, nid yw'n arfer da ac mae'r gwasanaeth yn gorfod blaenoriaethu unigolion yn ôl risg.

3.3.5. Fe ddisgwyliwyd i'r Llywodraeth gyflwyno system newydd, haws i'w gweinyddu, ond oedwyd hynny oherwydd y pandemig. Bu Uwch Reolwr Diogelu Oedolion yn rhan o'r Grŵp Llywio Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) cenedlaethol a cwblhawyd Holiadur Sylfaen Data LPS ar gyfer Gofal Cymdeithasol Cymru.

3.3.6. Fodd bynnag, mae cadarnhad bellach na fydd y drefn Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid (LPS) newydd yn cael ei gyflwyno a bydd angen ystyried yr her o reoli'r ceisiadau DoLS ymhellach.

## 3.4. <u>**Addysg**</u>

3.4.1. Cynhaliwyd **Arolwg Blynyddol Diogelu** gan y Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg ym mis Mawrth 2023. Nodwyd fod:

- **87%** o'r "Prif Bersonau Diogelu" mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;
- **70%** o Lywodraethwyr Dynodedig Ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl yn y ddwy flynedd diwethaf;
- **97%** o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant sylfaenol Diogelu i'r holl staff cyn diwedd Tymor y Gaeaf;
- **100%** o ysgolion Gwynedd yn nodi eu bod yn hyderus bod holl staff yr ysgol a gwirfoddolwyr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth.

3.4.2. Bu newid i dîm rheoli'r Adran Addysg, a llwyddwyd i benodi Swyddog Llesiant a Chydraddoldeb newydd. Bydd y rôl yma yn hyrwyddo Cydraddoldeb a Lles ar draws Gwasanaethau Addysg Gwynedd.

3.4.3. Mae ymdrech wedi cychwyn yn rhanbarthol i adolygu'r **Polisi Grym Rhesymol** yn sgil ambell achos sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar. Bydd y ffrwd gwaith yma yn bwysig yn ystod 2023/24 er mwyn cysoni'r hyn a olygir â grym rhesymol.

3.4.4. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd **183** o rieni yn dewis addysgu eu plant gartref, a hynny yn dilyn cynnydd a welwyd yn y cyfnod pandemig. Nodwyd mai'r prif resymau am addysgu o gartref oedd gor-bryder a phroblemau iechyd meddwl y rhiant a'r disgybl. Am resymau diogelwch a llesiant, mae'n bwysig fod yr awdurdod yn cadw cyswllt a'r teuluoedd yma, a llwyddwyd i wneud hynny gyda **146** plentyn. Fodd bynnag, fe wrthododd **9** teulu unrhyw gyswllt (yn unol â'i hawliau).

3.5. **<u>Trais yn y Cartref</u>**

3.5.1. Mae cydweithrediad da rhwng y Cyngor a'r Mudiadau perthnasol ac mae ymdrechion i hyrwyddo pwysigrwydd adrodd ac adnabod arwyddion o drais yn y cartref yn parhau. Ym mis Mai 2022, derbyniodd y Cyngor achrediad 'Rhuban Gwyn' oedd yn cydnabod yr ymdrech o fod yn ymgysylltu â dynion a bechgyn, newid diwylliant a chodi ymwybyddiaeth am atal trais yn erbyn merched. Bu swyddogion o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn arwain ar sicrhau'r achrediad ac yna'n sefydlu'r cynllun gweithredu ar y cyd efo sefydliad 'Rhuban Gwyn'.

3.5.2. Erbyn hyn mae'r e-fodiwl Trais yn y Cartref yn fandadol i holl aelodau staff. Mae'n hollbwysig fod y gweithlu yn derbyn yr hyfforddiant i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi unigolion ac i godi ymwybyddiaeth. Mae'r hyfforddiant 'Ask and Act' hefyd yn cael ei hyrwyddo er mwyn rhoi hyder i staff i helpu unigolion sy'n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol.

3.5.3. Rhaid cofio nad oes gan bob aelod staff y Cyngor fynediad rhwydd i systemau TG y Cyngor ac mae hyn yn creu rhwystr. Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn edrych ar y rhaglen anwytho i geisio sicrhau fod pawb yn cwblhau'r e-fodiwlau ar ddiwrnodau cyntaf o gychwyn ei swydd.

3.5.4. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cydweithio yn agos gyda'r Ymgynghorydd Rhanbarthol Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Gogledd Cymru). Yn dilyn Adolygiad Marwolaethau Domestig mae'r Bartneriaeth yn monitro'r cynllun gweithredu pob chwarter i wneud yn siŵr bod pawb oedd yn rhan o'r adolygiad yn gwneud y newidiadau cytunwyd.

3.5.5. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y drefn Adolygiad Marwolaethau Domestig ac yn edrych i sefydlu system Adolygu Diogelu Unedig Sengl (ADUS). Bydd y broses hon yn symleiddio'r drefn presennol drwy gyfuno'r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant, Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl, Adolygiad Lladdiad Domestig ac Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol presennol.

3.6. **Troseddu**

3.6.1. O ganlyniad i'r argyfwng costau byw gwelwyd cynnydd o **14.7%** mewn achosion o droseddu drwy ddwyn yn lleol. Gyrrir hyn yn bennaf gan gynnydd mewn Siopladradau, sy'n disgyn o fewn y categori Dwyn a Thrafod. Mae'r Bartneriaeth yn gweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau allanol i ymateb ac i weld pa gymorth sydd angen ar y gymuned.

3.6.2. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn paratoi ar gyfer y Ddyletswydd Trais Difrifol, fydd yn statudol ym mis Ionawr 2024. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i atal a lleihau trais difrifol, ac bydd angen cofnodi'r mathau o drais difrifol sy'n digwydd yn yr ardal, achosion y trais hwnnw (cyn belled ag y bo modd), a pharatoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen rhanbarthol wedi'i sefydlu'n ddiweddar i weithredu'r ddyletswydd a pharatoi Strategaeth.

3.7. **Caethwasiaeth Fodern a Datganiad Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi**

3.7.1. Mae achosion Caethwasiaeth Fodern yn yr ardal yn ymwneud yn bennaf â cham-fanteisio cyffuriau. Mae Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn codi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymysg awdurdodau a busnesau ar draws y rhanbarth.

3.8. **Gwrthderfysgaeth**

3.8.1. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal Grŵp Mannau Cyhoeddus: Parodrwydd i Amddiffyn a Diogelu, yn ogystal a bod yn aelod o'r grwpiau cyffelyb rhanbarthol. Pwrpas y Grŵp yw:

- Cydweithio gyda sefydliadau er mwyn darparu trefniadau diogelwch amddiffynnol effeithiol ac effeithlon yng Ngwynedd;
- Darparu ymdriniaeth diogelwch integredig, sy'n cyd-fynd â'r safonau a'r canllawiau cenedlaethol, i adnabod a darparu camau gweithredu cymesur er mwyn cadw cymunedau Gwynedd yn ddiogel;
- Gwella a chefnogi'r parodrwydd i amddiffyn a diogelu mewn lleoliadau cyhoeddus hygyrch yng Ngwynedd.

3.9. **Atal/Prevent**

3.9.1. Mae'r Swyddfa Gartref wedi creu hyfforddiant newydd ar gyfer Atal, ac mae'r e-fodiwl yn fandadol i holl staff erbyn hyn. Yng Ngwynedd, fe ddefnyddiwyd y porth e-

ddysgu er mwyn “tracio” y niferoedd sy’n cwblhau’r hyfforddiant ac mae hyn yn golygu fod modd rhoi sylw penodol i annog staff mewn rhai Adrannau neu faesydd. Mae gweddill awdurdodau Gogledd Cymru wedi adrodd bod casglu data yn rwystr iddynt gan eu bod, yn wahanol i Wynedd, yn defnyddio’r linc allanol.

3.9.2. Yn dilyn llwyddiant y tri meincnod llynedd, yn ystod 2023/24 bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn canolbwyntio ar:-

1) Cynhyrchu Cynllun Hyfforddi i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant Atal
2) Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu Atal
3) Datblygu Polisi Llogi Lleoliad ar gyfer y Cyngor a phartneriaid

## 3.10. Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

3.10.1. Mae’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfrifol am brosesu gwiriadau troseddol. Pwrpas gwiriadau DBS yw cynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio a thrwyddedu mwy diogel, ond dim ond un rhan o arfer recriwtio yw gwiriad. Pan fydd gwiriad wedi'i brosesu gan y DBS a'i gwblhau, bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystysgrif DBS.

3.10.2. Bu’r Grŵp Gweithredol yn ymgymryd â gwaith sylweddol i wirio, herio ac ailymweld â’r drefn gorfforaethol o ran y DBS. O ganlyniad, mae Adrannau bellach yn perchnogi mwy ar y trefniadau DBS ac mae hyn wedi trawsnewid sut mae’r Grŵp Gweithredol yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth ar ddadleniadau adrannol.

## 3.11. Ffoaduriaid

3.11.1. Gyda Rwsia yn cychwyn ymosod ar Wcráin yn Chwefror 2022, yn ystod y flwyddyn fe groesawyd ffoaduriaid oedd wedi gorfod ffoi’r wlad. Agorwyd Canolfan Groeso yn y sir i roi llety i hyd at 80 unigolyn, ynghyd a gweithio gyda thrigolion ac elusennau lleol i gynnig llety i hyd at 200 arall mewn cartrefi ar hyd a lled y sir.

3.11.2. Mae trefniadau cadarn yn eu lle er mwyn yn diogelu'r ffoaduriaid, a diogelu y rhai sydd yn cynnig llety hefyd. Mae pawb sy’n cynnig cartref i ffoadur yn destun gwiriadau diogelu , asesiad llety, hyfforddiant diogelu, pecynnau gwybodaeth a chyswllt gweithiwr cefnogol.

3.11.3. Yn ychwanegol, mae pob person o’r Wcráin sy’n ceisio lloches yng Ngwynedd hefyd yn destun gwiriadau diogelu, yn derbyn hyfforddiant diogelu, ymweliadau lles, cyswllt gan weithiwr cefnogol a chynnig cefnogaeth trawma, cefnogaeth adsefydlu a materion iechyd meddwl.

3.11.4. Mae'r trefniadau diogelu sydd mewn lle wedi golygu fod y Cyngor gyda chefnogaeth yr Heddlu a'r Swyddfa Gartref wedi gallu atal 5 achos o noddi anaddas ar sail diogelu.

3.11.5. Yn ogystal, gwelwyd **1** achos lle'r oedd plentyn wedi cyrraedd Gwynedd heb oruchwyliaeth rhiant / gwarchodwr a bu i'r Cyngor alw ar gefnogaeth y Tîm Ôl-ofal i sicrhau diogelu a chefnogi'r person ifanc tra mae trefniadau yn cael eu rhoi mewn lle i'w haduno gyda'i theulu.

## 4. ADOLYGIADAU YMARFER

4.1. Mae Cymru wedi datblygu fframwaith Adolygu Dysgu Ymarfer Plant (CPR) i wella'r diwylliant o ddysgu gwersi o achosion amddiffyn plant. Mae adolygiadau 'cryno' neu 'estynedig' yn bodoli yn dibynnu ar amgylchiadau'r plentyn dan sylw. Maent yn cael eu cynnal gan Fwrdd Rhanbarthol Diogelu Plant Gogledd Cymru gyda'r nod o ddysgu gwersi i'w rhannu er mwyn ceisio osgoi achosion o'r fath i'r dyfodol.

4.2. Mae Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Oedolion Gogledd Cymru hefyd yn cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion, sy'n unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Diben yr Adolygiadau hyn yw nodi'r gwersi sydd i'w dysgu o achosion Diogelu Oedolion cymhleth neu anodd, a gweithredu newidiadau i wella gwasanaethau yn sgil y gwersi hyn.

## 5. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

5.1. Er bod y Panel Strategol Diogelu yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, mae hefyd yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad drwy Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, sy'n gweithio ar draws gogledd Cymru. Mae'r rhain yn Fyrddau Statudol gydag aelodaeth draws-asiantaethol, sydd â chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae'r Cyngor yn aelod o'r Byrddau hyn ac yn cyfrannu at weithredu eu cynlluniau. Mae gwybodaeth bellach am waith y Byrddau i'w weld yma - https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

5.2. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn hefyd wedi dangos bod gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau siroedd yn profi'n llwyddiant. Mae Rheolwr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol hefyd yn is-gadeirydd i'r Grŵp Gweithredol Diogelu ac yn eistedd ar y Panel Strategol Diogelu. Mae gwaith y Bartneriaeth mewn meysydd megis Atal/Prevent yn hanfodol os yw'r Panel am sicrhau ansawdd trefniadau diogelu yng Ngwynedd.

5.3. Mae gan nifer o sefydliadau ddyletswydd statudol i fod yn rhan o'r bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol y mae'r Cyngor yn ymwneud ag o ar ein gwefan.

## 6. Y DYFODOL

6.1. Er bod gwaith gwych yn digwydd o fewn adrannau gyda'r maes diogelu, mae'n fwriad gan y Panel i adlewyrchu ar drefniadau gweithio y Panel Strategol a'r Grŵp Gweithredol er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithiol.

6.2. O ran blaenoriaethau'r Panel ar gyfer y flwyddyn i ddod, bwriedir canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:

- Trais yn y cartref a thrais yn erbyn menywod a gweithio ar gynllun gweithredu sefydliad y Rhuban Gwyn;
- Ail-sefydlu'r Panel Gweithredol wedi iddo gael aelodaeth a chadeiryddiaeth newydd yn 2023;
- Sicrhau bod systemau diogelu ar draws yr adrannau yn effeithiol ac effeithlon.

**ATODIAD 1 – CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELU**

**1. RHAGARWEINIAD**

1.1 Mae gan y Cyfarwyddwr Statudol cyfrifoldebau penodol am y maes diogelu. Mae Protocol y Cyfarwyddwr hefyd yn ei le ac yn gosod allan sut mae'r Cyfarwyddwr yn diwallu a chwrdd â'r gofynion o'r swyddogaeth. Mae'r materion yma yn ymwneud a'r gofynion diogelu wedi eu gosod allan ym mharagraffau 64-69 o Ran **8** o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014. Mae Paragraff 65 yn amlygu'r angen i'r Cyfarwyddwr gael y trosolwg o faterion diogelu ond hefyd yr angen i adrodd i Aelodau yn rheolaidd ar drefniadau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion o fewn yr Awdurdod a sut mae y trefniadau hyn yn gweithio, a beth sydd angen gwella.

1.2 Mae hefyd angen i bob Asiantaeth sefydlu trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau bod yr agenda gwrthderfysgaeth, atal radicaleiddio a materion diogelwch cymunedol yn cael y sylw priodol.

1.3 I pwrpas y Panel yma, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion, plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hamddiffyn, eu hatal rhag cael eu camdrin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach na amddiffyn unigolion rhag cael eu camdrin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu camdrin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

**2. CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELU**

2.1 Nod y Panel yw rhoi sicrwydd i Aelodau ac i'r Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel yr Uwch Swyddog o fewn y Cyngor sydd a'r atebolrwydd terfynol llawn am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion, fod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion. Bydd y Panel yn diwallu 3 dyletswydd statudol, sef Dyletswydd Gorfforaethol Cyffredinol i Ddiogelu, Dyletswydd Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ddyletswydd Diogelwch Cymunedol.

adnabod unrhyw fylchau mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol a chymeradwyo rhaglenni gwaith er mwyn ymateb i'r rhain.
adnabod gwersi i'w dysgu, ar lefel gorfforaethol, o adolygiadau achosion difrifol ac o adolygiadau perthnasol eraill a sicrhau gweithredu ar y rhain (APR a CPR)
adnabod gwersi i'w dysgu o archwiliadau allanol a sicrhau gweithredu ar y rhain
adnabod gwersi i'w dysgu o archwiliadau mewnol a sicrhau gweithredu ar y rhain
hysbysu aelodau arweiniol perthnasol o faterion/datblygiadau allweddol ym maes diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus
bod yn gyfrwng i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff y Cyngor a phob Aelod Etholedig o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu
bod yn gyfrwng i sicrhau fod aelodau staff ac Aelodau Etholedig yn derbyn hyfforddiant addas yn amserol a monitro presenoldeb yn yr hyfforddiant yma
sicrhau cydberthynas waith rhyngadrannol a chyfathrebu effeithiol o fewn y Cyngor ym maes diogelu
sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn cyd-fynd a'r gofyn cyfreithiol i sicrhau fod staff yn gymwys i weithio yn y swyddi a rheoleiddir
galw prosiectau perthnasol i adrodd ar gynnydd
derbyn gwybodaeth rheoli perfformiad trawsadrannol
sicrhau trosolwg ar faterion ehangach Diogelu gan gynnwys gweithdrefnau gwrthderfysgaeth, caethwasiaeth fodern, trais yn y cartref a diogelwch cymunedol.

**3. CADEIRYDDIAETH**

3.1. Cadeirydd y Panel bydd Aelod Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc.

**4.** **AMLDER CYFARFODYDD**

**4.1** Bydd cyfarfodydd bob 8 i 10 wythnos.

**5.** **LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD**

5.1 Mae'r Panel Strategol Diogelu yn atebol i'r Cabinet.

5.2 Rheolaeth busnes (h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol os bydd angen) trwy swyddogaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**6.** **AELODAETH**

| **Teitl** |
|---|
| Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Aelod Cabinet Oedolion, lechyd a Llesiant (hefyd a Chyfrifoldeb am Ddiogelwch Cymunedol) |
| Aelod Cabinet Addysg |
| Prif Weithredwr |
| Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cyfarwyddwr Statudol) Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Pennaeth Adran Plant a Phobl Ifanc |
| Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant (hefyd a Chyfrifoldeb am Ddiogelwch Cymunedol) |
| Pennaeth Addysg |
| Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol |
| Cadeirydd Grwp Gweithredol Diogelu |
| Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol |
| |

**Diweddariad – Rhybudd o Gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rhys Tudur**

Rhoddodd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ei gyfarfod ar 14 Medi 2023, ystyriaeth i rybudd o gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rhys Tudur a fabwysiadwyd gan y Cyngor llawn ar 4 Mai, 2023, sef:

*"Er mwyn i'r Cyngor arloesi yn y ffordd y bydd yn monitro gweithrediad y ddarpariaeth addysg Gymraeg a'r cynnydd yn fanwl ac yn effeithiol o fewn ein hysgolion, gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi roi ystyriaeth i'r modd priodol o gasglu data a monitro'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ymhob ysgol uwchradd yn erbyn gwaelodlinau'r categorïau y mae'r ysgolion ynddynt."*

Gweler isod, er gwybodaeth, cofnod o'r drafodaeth ar yr eitem 'Adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd' yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Economi ar 14 Medi 2023. Gellir gweld adroddiad yr Ymchwiliad Craffu wrth ddilyn y ddolen yma - https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Craffu/Ysgolion-Uwchradd-Categori-3-Gwynedd.pdf

**6. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU YSGOLION UWCHRADD CATEGORI 3 GWYNEDD**

Croesawyd yr Aelod Cabinet Addysg, y Pennaeth Addysg, y Pennaeth Cynorthwyol: Gwasanaethau Corfforaethol, y Pennaeth Cynorthwyol: Uwchradd a'r Pennaeth Cyfundrefn Addysg Drochi Gwynedd i'r cyfarfod.

Cyflwynodd Cadeirydd yr Ymchwiliad, y Cynghorydd Paul Rowlinson, adroddiad terfynol yr Ymchwiliad Craffu Ysgolion Uwchradd Categori 3 Gwynedd a gofynnwyd i aelodau'r pwyllgor craffu ystyried y cynnwys, gwneud sylwadau a gofyn unrhyw gwestiynau perthnasol, gan gynnig unrhyw welliannau a chymeradwyo'r adroddiad.

Awgrymodd Cadeirydd yr Ymchwiliad na ddylid trafod yr adran ar GwE mewn manylder, gan y deellid bod GwE yn anghytuno gyda rhai o'r materion a nodwyd, ond pwysleisiwyd bod Argymhelliad 17 yn gofyn am drafodaeth bellach yn unig rhwng yr Awdurdod Addysg a GwE.

Diolchodd Cadeirydd yr Ymchwiliad i'r Tîm Ymchwilio, ac yn enwedig y Swyddog Arweiniol, am eu gwaith, ac i staff, disgyblion a llywodraethwyr y 3 ysgol am roi o'u hamser i gyflwyno'r dystiolaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Ymchwiliad am eu gwaith. Yna gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau, cynnig sylwadau, neu gynnig gwelliannau i'r adroddiad.

Diolchwyd yn arbennig i ddisgyblion yr ysgolion am eu parodrwydd i siarad yn hynod agored gydag aelodau'r Ymchwiliad.

Pwysleisiwyd bod angen rhoi mwy o gefnogaeth i sefydliadau sy'n helpu plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg yn gymdeithasol, megis Ffermwyr Ifanc a'r Urdd, a'u cyflwyno

mewn modd positif yn yr ysgolion. Nodwyd bod Cyngor Gwynedd wedi colli ei glybiau ieuenctid a bod angen gweld pa gyfleoedd cymdeithasol sydd ar gael i annog y defnydd o'r Gymraeg.

Awgrymwyd bod y ffigurau yn Atodiad 5 yn ymddangos yn anhygoel o dda, a holwyd o ble y cafwyd y data. Mewn ymateb, eglurwyd bod y data yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod gan yr ysgolion. Mewn ymateb i gwestiwn pellach ar yr un mater, cadarnhawyd nad oedd aelodau'r Ymchwiliad wedi herio'r ffigurau mewn unrhyw fanylder, a'u bod wedi derbyn y data a gyflwynwyd gan yr ysgolion.

Mynegwyd pryder nad oedd y 3 ysgol a ddewiswyd yn rhoi darlun o'r sefyllfa yn holl ysgolion Gwynedd, gan fod y 3 ohonynt mewn cymunedau cynhennid Gymreig ar y cyfan, ac awgrymwyd bod yna ysgolion eraill yng Ngwynedd fyddai wedi adlewyrchu sefyllfa wahanol iawn.

Mynegwyd pryder ynglŷn â gallu rhieni i wrthod addysg Gymraeg i'w plant, a thrwy hynny amddifadu eu plant o'r cyfle i gael gyrfa dda a byw yn yr ardal yn y dyfodol. Nodwyd hefyd y daeth yn amlwg yn ystod yr Ymchwiliad bod yr ysgolion dan bwysau mawr i gynnig darpariaeth Saesneg, gan fod rhieni yn bygwth symud eu plant i Ysgol Friars neu Ysgol Tywyn (sy'n ysgolion categori 3T) fel arall. Credid bod angen edrych yn fanylach ar y dylanwad yma ac effaith yr opsiwn o fynd i Ysgol Friars neu Ysgol Tywyn ar ysgolion eraill Gwynedd. Mynegwyd tristwch nad oedd gan rai rhieni a disgyblion hyder yn ein hiaith, ac awgrymwyd ei bod yn hen bryd i'r Awdurdod Addysg, yr ysgolion a'r penaethiaid wneud safiad cryf iawn a gwrthod i rieni symud eu plant i'r ysgolion categori 3T, a mynnu bod y Gymraeg yn ddigon yn ein hysgolion fel cyfrwng. Awgrymwyd hefyd y gallai fod yn haws i'r ysgolion wrthod ceisiadau gan rieni i symud eu plant petai hyn yn cael ei werthu fel polisi'r Awdurdod, yn hytrach na pholisi'r ysgol.

O ran y rhieni hynny sy'n gwrthod addysg Gymraeg i'w plant, holwyd pa ddarpariaeth fforddiadwy a hygyrch sydd ar gael iddynt ddysgu'r iaith eu hunain, fel nad ydi'r broblem yn codi yn y dyfodol. Mewn ymateb, nodwyd:-

- O ran y rhieni sydd wedi ymrwymo i'w plant fynd i'r canolfannau i hwyrddyfodiaid, bod yna diwtor Cymraeg i Oedolion yn bresennol ymhob bore agored er mwyn dangos yr arlwy sydd ar gael ar gyfer dysgu ar-lein ac wyneb yn wyneb i rieni, ynghyd â'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer helpu gyda'r plant.
- Bod y trefniadau hyn yn rhedeg ers dros flwyddyn a hanner bellach a bod nifer wedi cofrestru am wersi Cymraeg ar y cyd â'u plant.
- Bod y Gwasanaeth yn trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb a chyfarfod rhithiol gyda Hunaniaith i hyrwyddo digwyddiadau cymdeithasol yn y gwahanol ardaloedd er mwyn annog rhieni i fanteisio ar gyfleoedd i ymarfer eu Cymraeg gyda'u plant.

Nodwyd ei bod yn galonogol gweld a theimlo ymrwymiad y staff a'r disgyblion i addysg cyfrwng Cymraeg a bod hynny'n rhoi rheswm i fod yn optimistaidd am y dyfodol.

Nodwyd y dylid nodi parch ac edmygedd yr aelodau o ddiffuantrwydd y mwyafrif llethol o staff yr ysgolion, a swyddogion y Cyngor, sy'n ymrwymo i geisio cael y plant yn hollol ddwyieithog. Os oedd unrhyw un yn cwyno am unrhyw beth, doedd neb yn cwyno am unigolion yn sicr, ond o bosib' bod yna ambell system, weithiau o fewn ein dwylo ac weithiau y tu allan i'n dwylo, sy'n ein gadael i lawr.

Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi'r argraff bod popeth ar drac o ran y data, ond hefyd yn amlygu nifer o broblemau, anecdotaidd o bosib' ar hyn o bryd, ac efallai bod angen mwy o ddata a ffeithiau caled, yn hytrach na hanesion yn unig.

Mynegwyd y farn bod angen cryfhau ambell argymhelliad, ee. y Polisi Iaith. Credid bod sôn am ddwyieithrwydd yn agor y drws i amwysedd mawr, ac os oeddem o blaid addysg Gymraeg, yna addysg Gymraeg amdani, gyda'r Saesneg yn cael ei dysgu fel pwnc i'r safon uchaf bosib'. Fel arall, roeddem yn agor y drws i'r cwynion a'r ceisiadau. O ran y data ynglŷn â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, pwysleisiwyd y dylai hynny fod yn eitem sefydlog ar raglen pob cyfarfod o'r Fforwm Penaethiaid Uwchradd, yn hytrach na'n bod yn gwneud cais i hynny ddigwydd unwaith y flwyddyn, fel y nodir yn yr argymhellion.

Nodwyd bod angen cryfhau'r cydweithio gydag asiantaethau yn yr argymhellion. Roedd sôn am Gwricwlwm i Gymru, GwE a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ond beth am Yrfa Cymru?

Nodwyd na welwyd unrhyw ddata ynglŷn â faint o hwyr-ddyfodiaid sy'n dod i mewn i'r ysgolion uwchradd ym mlwyddyn 10 neu 11, ac felly heb fynychu'r canolfannau iaith. Awgrymwyd bod angen astudiaeth ar wahân ar hynny, yn edrych ar ddulliau o gynnwys y bobl ifanc ac o ddarparu cymorth ychwanegol ar eu cyfer, megis hanner awr o drochi Cymraeg ar ddechrau pob diwrnod ysgol.

Nodwyd bod raid cofio mai ond hyn a hyn y gall yr ysgolion ei wneud yn yr hinsawdd ariannol bresennol, ond bod ein hiaith yn dioddef oherwydd llymder a thorri cyllidebau yn San Steffan.

Nodwyd bod y data yn awgrymu bod rhieni a dysgwyr yn dymuno newid cyfrwng iaith addysg o'r Gymraeg i'r Saesneg wrth i'r dysgwyr agosáu at TGAU a Lefel A, a holwyd, yn ogystal â'r ymgyrch farchnata ar gyfer rhieni'r plant sy'n cyrraedd yr ysgolion, a fyddai hefyd yn fuddiol cynnal ymgyrch ar wahân ar gyfer y dysgwyr eu hunain. Gellid cynnal ymgyrch o'r fath ar y cyd â phartneriaid allweddol megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Gyrfa Cymru, gan annog y dysgwyr i ddilyn eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg drwy wneud y cyswllt rhwng y Gymraeg a swyddi sy'n talu'n well. Gellid hefyd edrych ar enghreifftiau o lwyddiannau e.e. unigolion o aelwydydd di-gymraeg sydd bellach yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i roi ei hymateb i brif ganfyddiadau ac argymhellion yr Ymchwiliad, a gofynnwyd iddi gadarnhau a oedd yn derbyn yr argymhellion ai peidio. Nododd yr Aelod Cabinet:-

- Bod y drafodaeth a'r adroddiad yn hynod werthfawr, ac y dymunai ategu'r diolch i aelodau'r Ymchwiliad a'r ysgolion sydd wedi cymryd rhan.
- Bod yna lawer o bethau calonogol iawn yn yr adroddiad, yn ogystal â phethau sydd angen edrych arnynt ymhellach.
- Bod yna groesdorri amlwg mewn mannau gyda'r Strategaeth Addysg a'r gwaith sydd angen ei wneud ar y Polisi Iaith Addysg, a bod hyn am fod yn ddefnyddiol iawn gan y byddai'n taflu goleuni ar ambell ddarn o waith arall lle mae modd tynnu pethau at ei gilydd.
- Y croesawid y cyfeirio at y cyfleoedd cymdeithasol i ddefnyddio'r Gymraeg, a bod yr ysgolion yn rhan o'u cymunedau, yn hytrach nag yn bodoli mewn swigen.

- Bod y cyfeiriad at ddiffinio dwyieithrwydd yn hynod o bwysig gan fod y ffordd mae Gwynedd yn gweithredu yn wahanol iawn, ac efallai bod yna ddiffyg dealltwriaeth o hynny gan rai unigolion / sefydliadau.
- Ei bod yn teimlo'n angerddol iawn ynglŷn â'r gwaith i gefnogi'r ysgolion trosiannol, ac yn croesawu'n fawr unrhyw beth sy'n gwthio hynny yn ei flaen.
- Bod unrhyw symudiad i gryfhau'r dull o gasglu data yn mynd i helpu'r Awdurdod gyda'i waith strategol.
- Bod y cyfeiriad at hyrwyddo'r cynnig gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gwersi Cymraeg am ddim ar gyfer athrawon sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg yn alwad pwysig iawn.
- Ei bod yn croesawu'r ffaith bod yna rieni hwyrddyfodiaid sy'n dewis dysgu Cymraeg ochr yn ochr â'u plant gan fod hynny'n gallu newid holl siâp ieithyddol teulu.
- Ei bod yn hynod angerddol dros unrhyw beth sy'n cryfhau'r cyfleoedd i bobl gaffael iaith, ac yn croesawu'r sawl cyfeiriad at hynny yn y gwaith.

I gloi, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet ei bod yn derbyn argymhellion yr Ymchwiliad mewn egwyddor ac yn dymuno mynd â'r adroddiad i'r Cabinet am drafodaeth oherwydd y croesdorri gyda'r Strategaeth Addysg a'r Polisi Iaith Addysg, a'r angen tebygol am adnodd i wireddu rhai darnau gwaith, megis cryfhau'r ddarpariaeth / cefnogaeth ieithyddol i hwyrddyfodiaid sydd yn ymuno ym mlwyddyn 10 neu 11.

Wedi i'r pwyllgor gymeradwyo'r adroddiad yn ffurfiol, gan hefyd benderfynu derbyn diweddariad gan yr Aelod Cabinet ar weithrediad fesul argymhelliad yng nghyfarfod 21 Mawrth, 2024, nododd y Cadeirydd:-

- Yn ystod cyfnod yr Ymchwiliad, y mabwysiadodd y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 4 Mai, 2023, y rhybudd o gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rhys Tudur:-

  *Er mwyn i'r Cyngor arloesi yn y ffordd y bydd yn monitro gweithrediad y ddarpariaeth addysg Gymraeg a'r cynnydd yn fanwl ac yn effeithiol o fewn ein hysgolion, gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi roi ystyriaeth i'r modd priodol o gasglu data a monitro'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg ymhob ysgol uwchradd yn erbyn gwaelodlinau'r categorïau y mae'r ysgolion ynddynt.*

- Gan ystyried gwaith yr Ymchwiliad, ac yn benodol Argymhellion 1 a 2, bod angen i'r pwyllgor ddod i gasgliad os oes gwaith pellach i'w wneud, neu os yw'r hyn a gyflwynwyd gan yr Ymchwiliad yn ateb y gofyn.

Gan fod yr hyn y gofynnwyd amdano yn y rhybudd o gynnig yn derbyn sylw drwy argymhellion yr Ymchwiliad, a bod yr Aelod Cabinet a'r Adran yn cymryd ystyriaeth a fydd yna weithrediad, cytunwyd nad oedd gwaith pellach i'r pwyllgor ei wneud ar hyn o bryd i ymateb i'r rhybudd o gynnig.

**PENDERFYNWYD**

**(i) Cymeradwyo adroddiad Ymchwiliad Craffu Ysgolion Categori 3 Gwynedd.**

**(ii) Derbyn diweddariad gan yr Aelod Cabinet ar weithrediad fesul argymhelliad yng nghyfarfod 21 Mawrth, 2024.**

**(iii) Derbyn bod yr hyn a gyflawnwyd gan yr Ymchwiliad yn ateb y gofyn o ran y rhybudd o gynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Rhys Tudur i'r Cyngor llawn ar 4 Mai, 2023.**

Ministry of Justice

**Lord Bellamy KC**
Is-ysgrifennydd Gwladol
Seneddol dros Gyfiawnder

Y Cynghorydd R.Medwyn Hughes
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd
Stryd y Castell
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SE

**Cyf. MoJ:** ADR108746

16 Hydref 2023

Annwyl Mr Hughes,

**CYNNIG CYNGOR GWYNEDD YNGHYLCH CYFIAWNDER**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 5 Medi i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder. Rwyf yn ymateb fel y gweinidog yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â datganoli a'r Undeb.

Rwyf yn ddiolchgar i chi am dynnu fy sylw at y cynnig a fabwysiadwyd yng nghyfarfod diweddar Cyngor Gwynedd. Fodd bynnag, fel y byddwch yn ymwybodol rwy'n siŵr, mae Llywodraeth y DU yn glir mai'r system gyfiawnder gyfredol ar gyfer Cymru a Lloegr yw'r ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon o gyflawni cyfiawnder yng Nghymru.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EF a Llywodraeth Cymru yn cydweithio ar feysydd o fewn y system gyfiawnder sy'n cwmpasu cyfrifoldebau datganoledig a'r rhai sydd wedi'u cadw, gan gydweithio'n dda i sicrhau y cyflawnir cyfiawnder i bobl Cymru.

Cofion Cynnes,

Christopher Bellamy

**LORD BELLAMY KC**